ECO'R WYDDFA

Rhif 214 GORFFENNAF 1995 Pris 25c

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

NOS FERCHER, 12 GORFFENNAF 1995

am 7.30 p.m.

DOWCH YN LLU – MAE'R ECO EICH ANGEN

'CROESO ADREF JONI!'

Jonathan y tu allan i'w gartref ym Mhenisarwaun ar ôl dychwelyd o Bosnia.

Roedd y cyfarchiad mawr ar wal ei gartref, ynghyd â baneri'r Ddraig Goch a balŵnau amryliw yn dweud y cyfan pan gyrhaeddodd Jonathan Richardson yn ôl i Benisarwaun am seibiant wedi'r dyddiau cythryblus yn Bosnia.

Ymunodd Jonathan â'r Ffisilwyr Cymreig pan oedd yn 17 oed ac mae eisoes wedi gwasanethu yng ngogledd Iwerddon. Cychwynnodd am Bosnia ar ddydd cyntaf Mawrth eleni fel un o'r rhai dewr sy'n ceisio helpu i ddod a heddwch i wledydd y Bolkans.

Bu'r Sul hwnnw yn nechrau Mehefin yn un nad anghofir byth gan ei fam, Brenda Richardson, ei nain Mrs Eirlys Jones, a'i frawd Ken — clywed ar y radio y newyddion fod 33 o Ffisilwyr Cymreig wedi eu cipio'n wystlon gan y Serbiaid a'r caniad ffôn o Brawdy am 9.25 p.m. yn cadarnhau fod Jonathan yn un ohonynt. Yna, ar y nos Lun canlynol, clywed ei fod yn un o'r chwech a anafwyd mewn damwain pan drodd eu cerbyd wrth gael eu dwyn yn wystlon, a'i fod wedi derbyn mân anafiadau ac yn yr ysbyty. Bu'n wythnos ddi-gwsg a phryderus i'r teulu a bu'r pentref bychan hwn yn gaffaeliad mawr iddynt a phawb yn gobeithio am rhyddhad buan i'r gwystlon. Daeth yr alwad hir-ddisgwyledig honno yn oriau mân bore Sadwrn, oddeutu 4 a.m. a mawr fu'r dathlu a'r dagrau gofid yn llifo'n donnau o lawenydd. Llifodd y cyfarchion a derbyniwyd llu o alwadau ffôn o bell ac agos.

Mae'r englyn isod, o waith y Prifardd Ieuan Wyn, yn dweud y cyfan:

I JONATHAN

(O'i ryddhau ar ôl cael ei gadw'n wystl yn Bosnia)

O estron dir yr hiraeth — daw i dŷ
Y dawel gwmniaeth;
Daw diwedd cur dyddiau caeth
A diwedd ofnadwyaeth.

YSGOL BRYNREFAIL YN SEFYDLU CWMNI DRAMA IEUENCTID

Bu ardal bro'r Wyddfa yn ganolfan i'r celfyddydau mynegiannol erioed. Ffynnodd cwmnïau drama, bandiau pres, corau a phartion a mawr fu'r gefnogaeth gan y boblogaeth leol i'r math yma o gelfyddyd.

Felly, naturiol yw i Ysgol Brynrefail sefydlu Cwmni Drama Ieuenctid i feithrin diddordeb yn y celfyddydau mynegiannol, er mwyn rhoi profiad o'r math yma o weithgaredd i'r disgyblion. Mae'r Cwmni Drama Ieuenctid yn agored i holl ddisgyblion yr Ysgol sydd â diddordeb mewn perfformio neu weithio mewn maes theatr.

Cyflwyniad cyntaf y Cwmni fydd y sioe gerdd 'Olifar'. Sioe sy'n darlunio bywyd tlodion Llundain ar droad y ganrif, ac yn seiliedig ar nofel fawr Charles Dickens *Oliver Twist.*

Perfformir y sioe gerdd ar fore Llun, 17 Gorffennaf, i ddisgyblion Ysgolion Cynradd y cylch; ac yna i'r cyhoedd ar 17, 18 Gorffennaf yn Neuadd yr Ysgol am 7.30 o'r gloch.

Gellir archebu tocynnau drwy gysylltu ag unrhyw ddisgybl o'r Ysgol, a'r pris mynediad fydd £3 i oedolion a £1.50 i bensiynwyr a phlant.

GWAED NEWYDD

Mae angen mwy o weithwyr i ysgwyddo'r baich. Dyna yn fras fy apêl fel Cadeirydd Pwyllgor Llywio *Eco'r Wyddfa*. Heb eich cymorth bydd dyfodol yr *Eco* yn ddigon simsan ac ansicr. Mae holl bwysau cynhyrchu'r *Eco* yn disgyn ar ysgwyddau'r ychydig. Petai mwy yn cytuno i gynorthwyo a neilltuo ambell awr y mis byddai'r baich in lleihau. Mae angen gwasgar mân gyfrifoldebau.

Mae sawl un wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r *Eco* a'r union rai sy'n erfyn am gymorth. Mae angen 'gwaed newydd' i sicrhau y bydd cenedlaethau eto yn cael y cyfle i fwynhau *Eco'r Wyddfa* o fis i fis. Mae swyddi diddorol a chyffrous angen eu llenwi. Os oes gennych ddiddordeb rhowch ganiad i mi ar (01286) 871274 fel y cawn drafod posibiliadau ac agoriadau. Trafodir y cyfan yn anffurfiol ond eto yn gyfrinachol. Gyda'ch cymorth chi fe welwn *Eco'r Wyddfa* yn ffynnu i'r ganrif nesaf.

ARWEL JONES

ECO'R WYDDFA

Rhif 214
GORFFENNAF 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 7
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, AWST 28
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR *ECO* AR GAEL GAN Y CANLYNOL:
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)
DEINIOLEN:
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Rwyf wedi cael rhai achosion yn ddiweddar o broblemau'n ymwneud â llwybrau yn ardal Waunfawr.

Weithiau mae cyflwr llwybrau'n ddrwg, dro arall ceir ymgais anghyfreithlon i'w cau.

Os yw cyflwr llwybr yn ddrwg gwnaf fy ngorau i ddatrys hyn drwy adran lwybrau'r Cyngor Sir, ac os oes ymgais i gau llwybr hwyrach y gallech roi gwybod i mi er mwyn i mi rwystro'r bwriad.

Rwyf yn y niwl onibai eich bod yn rhoi gwybod i mi. Ond y ffordd orau oll i ddatrys diffyg defnydd neu gam ddefnydd o lwybrau yw i ni gyd eu cerdded yn rheolaidd. Felly, CERDDWCH Y LLWYBRAU.

Yn gywir,

Y Cynghorydd EURIG WYN
Y Frenni, Waunfawr
Ffôn: (01286) 650512

Y WASGOD GOCH

Annwyl Olygydd,

'Y Wasgod Goch' — dyna deitl rhaglen arbennig ar lafar ac ar gân yn Y Babell Lên yn Eisteddfod Bro Colwyn, dydd Mawrth, 8 Awst, am 1.30 p.m. Amcan y rhaglen yw agor cil y drws ar gyfoeth diwylliant gwerin bro'r Eisteddfod eleni: storïau a hanesion difyr, rhigymau a hen benillion telyn, caneuon gwerin ac emynau a cherddi llafar gwlad. Fy mraint i fydd cyflwyno rhai o ddoniau'r fro: plant ysgolion Llansannan a Glan Clwyd; partïon Aelwydydd Abergele a Llannefydd; Tara Bethan Orig Williams (dawnsio step y glocsen); Gwilym Morris; côr adrodd o gylch Llansannan a Llanfair Talhaearn; Côr Merched Glyndŵr; Meibion Twm o'r Nant, a Chôr Meibion Llangwm.

Yn ystod y rhaglen ceir cyfle i wrando ar recordiad o 'Gan y Wasgod Goch', un o'r caneuon gwerin prinaf a hyfrytaf a fyddai wedi mynd ar goll oni bai am gymwynas Robert Pierce Roberts, Llanddulas, y cantor nodedig o fro'r Eisteddfod, yn ei thrysori ar ei gof ac yn caniatáu iddi gael ei chofnodi ar dâp (pan oedd yn 84 mlwydd oed). Bydd casét dwbl o ganeuon a storïau llafar gwlad Robert P. Roberts (cyhoeddir gan Amgueddfa Werin Cymru) ar werth yn ystod y rhaglen am bris gostyngol — £5 yn lle £7.

Y mae'r 'wasgod goch' yn ddelwedd hefyd o'r diwylliant cyfoethog sy'n harddu ac yn gwarchod y fro rhwng môr a mynydd yng Ngholwyn. Croeso cynnes iawn i'r rhaglen ac edrychaf ymlaen yn fawr at eich cwmni.

Yn olaf, pob dymuniad da i holl ddarllenwyr yr Eco.

Yn gywir iawn,

ROBIN GWYNDAF

Pwyllgor y Deyrnas Unedig
unicef
Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig

Annwyl Gyfeillion,

Eleni mae'r Cenhedloedd Unedig yn dathlu hanner canmlwyddiant. UNICEF yw Cronfa Blan y Cenhedloedd Unedig. Dyma'r elusen blant fwyaf yn y byd — mae'n gweithio mewn dros 130 o wledydd tlotaf y byd gan arbed bywydau dros 4 miliwn o blant a gwella bywydau miliynau mwy bob blwyddyn trwy raglenni tymor hir, isel eu cost.

Yma yng Nghymru, y Ganolfan Gymreig dros Faterion Rhyngwladol sy'n hybu gwaith UNICEF a heddwch rhyngwladol. Gan fod 1995 yn garreg filltir bwysig yn hanes y Cenhedloedd Unedig felly, penderfynwyd dechrau apêl er mwyn codi arian at waith UNICEF a'r Ganolfan Gymreig dros Faterion Rhyngwladol. Mae gennym nifer o weithgareddau wedi eu trefnu ar hyd a lled Cymru o hyn i ddiwedd y flwyddyn.

*Ym mis **Gorffennaf (4ydd-15fed)** bydd **Taith Gerdded Noddedig** o Gaerdydd i Fae Colwyn, ar hyd yr A470. Hoffwn yn fawr glywed oddi wrthych os gallwch chi ymuno â ni ar y daith a'n helpu mewn unrhyw ffordd i godi arian. Rydym angen eich cymorth.*

*Yna, ar **Awst 2il**, mae gennym **gyngerdd arbennig** ym Mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Colwyn. Bydd llu o artistiaid gwahanol yn dod at ei gilydd a bydd yn noson i'w chofio. £6 yw pris y tocynnau. Gall eich cyfraniad chi o £6 wrth brynu dim ond un tocyn ddarparu 200 cwrs o antibiotics i drin heintiau difrifol. Ceisiwch ddod yno — rydym angen eich cefnogaeth i gefnogi plant y byd. Gallwch brynu tocynnau drwy ffonio Sain (01286) 83111 neu ffacsio (01286) 831497; neu cwmni Ymateb, ffôn: (01286) 673828; ffacs: (01248) 716780. Bydd gostyngiad i bartïon.*

*Cofiwch fod gennym Casét a CD newydd sbon allan ar gyfer y flwyddyn arbennig hon yn dwyn y teitl **'Dros Blant y Byd'** mae hon ar werth yn eich siopau Cymraeg lleol. Mae'r holl artistiaid wedi cyfrannu eu caneuon er mwyn sicrhau gwell dyfodol i'n plant. Mawr hyderaf y byddwch chwithau yn gwneud yr un peth.*

Cofiwch fod ychydig yn mynd yn bell gydag UNICEF.

Os ydych am fwy o wybodaeth am ein hapêl a'r ffyrdd y gallwch chi ein helpu, yna cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod:

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol
Y Deml Heddwch
Parc Cathays, Caerdydd CF1 3AP

Fe'ch gwelaf ar y daith gerdded ac yn y cyngerdd, gobeithio.

Am y tro,

Cofion cynnes,

DAFYDD IWAN
Llysgenad UNICEF Cymru

ADUNIAD YSGOL BOTWNNOG

Annwyl ddarllenwyr,

Bore dydd Iau, 10 Awst, am 10.30 yn y Colwyn Bay Hotel, Hen Golwyn, fe gynhleir aduniad Ysgol Botwnnog. Gwahoddwn cyn-ddisgyblion o bob oed a chyn-athrawon i ddod at eu gilydd am sgwrs, paned a bwffe.

Gellir cael ffurflen a manylion pellach oddi wrthyf i:

STAN ROBERTS
Porth Tywyn
28 Ffordd Liddell
Craig-y-don, Llandudno, Gwynedd
Ffôn: (01492) 870444.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO
YSGOL BRYNREFAIL
NOS FERCHER
12 GORFFENNAF
am 7.30

CANMOLIAETH I YSGOL BRYNREFAIL

Mae Ysgol Uwchradd Brynrefail wedi cael sêl bendith Arolygwyr ei Mawrhydi mewn adroddiad a gyhoeddir yr wythnos hon. Ceir safonau dysgu boddhaol neu well mewn naw allan o bob deg dosbarth.

Caiff yr ysgol 'arweiniad gofalgar' gan y pennaeth gyda chefnogaeth barod y tîm rheoli uwch a'r llywodraethwyr.

Paratowyd yr adroddiad gan dîm o 16 o arolygwyr a dreuliodd bron i wythnos yn yr ysgol yn mynychu dros ddau gant o wersi, yn edrych ar lyfrau'r plant ac ar ddogfennau rheoli, yn siarad ag athrawon, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Canmolir safonau academaidd yr ysgol, sy'n dysgu holl amred pynciau y cwricwlwm cenedlaethol. Llwyddodd rhaglen o welliannau i godi safon yr adeiladau i gyflwr da. 'Mae'r ysgol,' medd yr arolygwyr, 'yn cynnig gwerth am arian'.

Croesawyd yr adroddiad gan gadeirydd y llywodraethwyr, John B. Jones o Ddeiniolen. 'Mae'n safonau dysgu ac addysgu'n gadarn ac, yr un mor bwysig, yr ysgol yn gymdeithas hapus. Hoffwn ddiolch i'r holl staff, y disgyblion a'r llywodraethwyr am eu gwaith caled yn paratoi ar gyfer yr arolwg.'

Dywedodd prifathro'r ysgol, John Grisdale, 'Yn naturiol roedd yr arolygwyr o'r farn fod rhai materion angen sylw ond cefnogol iawn oedd yr adroddiad drwyddo draw. Byddwn yn mynd ati rŵan i lunio rhaglen weithredu yn unol â'r argymhellion.'

Ychwanegodd, 'Y nod fydd gwneud ysgol dda yn ysgol well'.

CLWB ERYRI

Ar y wibdaith flynyddol ar Sadwrn, 17 Mehefin, treuliwyd amser difyr yn ymweld â rhai lleoedd nodedig o Bentrefoelas i'r Bala. Coronwyd y rhaglen, a ddyfeisiwyd gan John Roberts, â thaith fer mewn cwch ar Lyn Tegid a chinio blasus ym Mwyty'r Cyfnod. Yn ystod y cyfarfod yn dilyn dymunwyd yn dda i John Norman Davies ac Ieuan Ellis Jones oedd heb fod mewn llawn iechyd a llongyfarchwyd y cyntaf ar ennill cadair Eisteddfod Dyffryn Conwy. Dewiswyd a ganlyn yn swyddogion y Clwb am y tymor sydd i ddod — Llywydd: Wyre Thomas, Waunfawr; Is-lywydd: J. Norman Davies, Bontnewydd; Trysorydd: Ieuan Ellis Jones, Llanberis; Ysgrifennydd: Iolo Huws-Roberts, Waunfawr; Cofnodydd: John Hugh Hughes, Llanberis; Trefnydd gwibdaith 1996 (Sadwrn, 22 Mehefin): Stanley Owen, Bontnewydd. Dewiswyd y canlynol yn siaradwyr ar y dyddiadau a nodwyd, wedi'r cyfarfod cyntaf ar 6 Hydref yn y tymor newydd. Hwn fydd cyfarfod dathlu pen-blwydd y Clwb yn 40 oed a pharatoir rhaglen addas i'r amgylchiad gan un o sefydlwyr y Clwb, Rol Williams, Waunfawr, gyda chyfraniadau gan rai eraill aeddfed eu profiad yn yr aelodaeth. 1995 — Tachwedd 3: Wyre Thomas, Llywydd y Clwb; Rhagfyr 1: Dei Tomos, Nant Peris. 1996 — Ionawr 5: Cledwyn Williams, Llanrug; Chwefror 2: J. Roberts Williams, Llanrug; Mawrth 1: Dathlu Gŵyl Ddewi. Y gŵr gwadd fydd Dr Meredydd Evans.

Wrth gloi'r noson diolchodd Evan Parry, Llywydd 1994-95, i'r swyddogion a'r aelodau am dymor hynod lwyddiannus a dymunodd yr un lwc dda i'w olynydd.

Heliwch eich traed am fargen i

SIOP ESGIDIAU GLENS

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470

Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon a'r Cylch

Ar Fai 27 bu diwrnod Rali'r Ffermwyr Ieuainc a gynhaliwyd eleni ar fferm Mr a Mrs B. Evans, Llwyn Goronwy, Carmel, Llanrwst.

Nid oedd y tywydd o'n hochr eleni gan i'r glaw gyrraedd erbyn canol y pnawn ac erbyn y gystadleuaeth tynnu rhaff roedd pawb yn wlyb iawn ac yn ddigon blin.

Ar waethaf y tywydd gwnaeth y Clwb yn dda iawn gan ddod i'r trydedd safle allan o un ar ddeg o glybiau. Enillwyd hefyd bum cwpan, sef Cwpan Barhaol John Pritchard (barnu Gwartheg Duon), Cwpan Barhaol Bob Parry (barnu, adran hŷn), Tarian Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Amaethyddiaeth), Tarian Goffa Arwyn Evans, Garth Hebog (chwaraeon), Cwpan Tîm Pêl-rwyd (genethod).

Dymunwn yn dda i aelodau'r Clwb fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Erbyn hyn mae'r Cyfarfod Blynyddol wedi ei gynnal ac fe etholwyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Arfon Hughes, Cae Rhos, Bethel; Is-lywydd: Mrs Myfanwy Harper, Tŷ Newydd, Llandegai; Arweinyddion: Mrs Gwyneth Jones, Fachell, a Mr Glyn Tomos, Tandderwen; Is-arweinydd: Eirwyn Jones, Caernarfon; Ysgrifenyddion Rhaglen: Gwenno Jones, Tandderwen; Gwen Jones, Fachell; Eirwyn Jones, Caernarfon; Ysgrifennydd Cofnodion: Siân Tomos, Deiniolen; Trysorydd: Arwel Jones, Glan 'Rafon Bach, Waunfawr; Ysgrifennydd y Wasg: Lindsey Vaughan Parry, Deiniolen; Cadeirydd: Bethan Jones, Fachell; Is-Gadeirydd: Sioned Owen, Waunfawr.

Bydd y Clwb yn ailddechrau ar 2 Medi gyda helfa drysor, a bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

DRAENOG

Y CACWN ANWELEDIG

Mae Mrs Ifans, gwraig y 'prif'
Yn ddynas smart, drwsiadus,
A bydd hi'n syndod mawr i chi
Ei bod hi'n un helbulus.

I Fetws Garmon, heb fod 'mhell
Yr aeth hi i wersylla,
Y gŵr a'r hogia gyda hi,
Neb isio aros adra.

A hithau'n noson braf o Fai
Aeth popeth yn ddi-ffwdan,
Y noson gynta', hynny yw,
Yr ail — aeth pethau'n bedlam.

Yr hyn ddigwyddodd, ar fy ngwir,
A Nest ar fin noswylio,
Daeth clamp o gacwn hy' a chas,
A'i fwriad oedd ei phigo.

Bu'n llechu'n dawel bach, a slei,
Yn nhrowsus ei pyjamas,
A phetai wedi cael ei ffordd
'Dwi'n siŵr y gwnaethai lanast.

Ond clywodd Nest ei 'bss-bss-bss'
A sgrechian wnaeth a gwylltio
Ond Ifor roes ei droed i lawr
A pheri iddi gallio.

Ond penderfynol oedd 'rhen chwaer,
Nid aethai hi i glwydo,
Na gwisgo'r trows yn hogan dda,
Gwell ganddi weiddi a neidio.

Ac felly, yn nhywyllwch nos,
I arbed mwy o syrcas,
Aeth Ifor allan dan y sêr
I chwifio'r trows pyjamas.

'Cacwn Bach Ofnus'

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

CHWILOTA
YMATEB DARLLENWYR

Calondid yw cael cymaint o alwadau ffôn, nodiadau byr drwy'r post neu ambell air ar y stryd ac yn y siop yn ymateb i bytiau a ymddangosodd yn y golofn hon dros y misoedd diwethaf. Pan ddechreuais sgwennu'r golofn 'Chwilota', bron i bymtheng mlynedd yn ôl bellach, prin oedd yr ymateb o du'r darllenwyr. Bellach, rhaid cyfaddef mai chwi'r darllenwyr sy'n cynnal y golofn. Dim ond didol, dethol a gosod y cyfan gyda'i gilydd yw fy ngwaith i erbyn hyn!

PANT DU

Soniais yn y rhifyn diwethaf am deulu'r Clawdd Llwyd, Tan y Coed, gan holi am wybodaeth ynglŷn â'r Pant Du. Daeth ymateb parod gan Mr L. J. Roberts, Tan y Coed, yn nodi ble roedd safle'r hen dyddyn. Mae ar lethrau'r Cefn Du, ychydig uwchlaw Tan y Bryn ac wrth ymyl yr hen waith dŵr. Mae'r adfeilion yno o hyd. Arferai plant Tan y Coed fynd yno i chwarae ers talwm. Pryd tybed oedd y tro olaf i deulu fyw yno?

Cefais hefyd fenthyg catalog sêl Stad Plastirion, a osodwyd ar werth gan y perchennog, Mrs Violet Hume (merch Syr Hugh Rowlands a enillodd Groes Fictoria). Cynhaliwyd y sêl ar ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd 19118 yng Ngwesty'r Sportsman, Caernarfon. Roedd yn cynnwys tiroedd y stad ym mhlwyfi Llanrug, Llanwnda a Llandwrog. Ymhlith y daliadau ar werth, roedd Lot 32 — Pant Du. Yn ôl y disgrifiad, Mr Robert Griffith oedd y tenant blynyddol. Hyd yn oed yr adeg honno nid yw'n ymddangos bod tŷ yno. Roedd dau gae, neu barc, yn rhan o'r daliad, un yn ddeuddeng acer a'r llall yn dair acer ar ddeg. Ceir hefyd y disgrifiad ychwanegol: *'Excellent sheep pastureage, and carries a good head of grouse. There is a right of road to this Lot over the adjoining farm of Clawdd Llwyd, and is sold subject to adjoining owners' rights of road to the Spring, and to use water therefrom.'*

Oes rhywun yn gwybod pwy oedd Robert Griffith y tenant? Ac i bwy tybed y gwerthwyd 'Lot 32' nôl yn 1918?

YSGOL GLANMOELYN

Derbyniais y nodiadau canlynol gan Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon (gynt o Lanrug). Mae'n cyfeirio at yr hanesion a anfonwyd i'r Eco rai misoedd yn ôl gan Mr Meurig Owen, Mrs G. M. Jones a Mrs Mair Parry yn sôn am y Parchg Robert Parry a'i ferch, Miss A. J. Parry, a fu'n athrawes yn Ysgol Glanmoelyn. Fel hyn y mae Mrs Lloyd yn adrodd yr hanes:

'Dyma'r ysgol lle bûm innau ar ôl dechrau yn Festri Capel Mawr. Byddaf yn meddwl yn aml am Miss Parry gan mai hi ddysgodd nifer o'r Salmau i mi, ac rwy'n dal i'w cofio. Synnais braidd nad oedd Mair wedi clywed gair o Gymraeg gan y prifathro, Mr D. T. Rees, gan mai dim ond Cymraeg y siaradai â ni, blant, ar ein ffordd i Gapel y Bryngwyn ar hyd llwybr Rhos-ddu. Cymraeg y de oedd ganddo, wrth gwrs, a byddem weithiau yn dynwared ei ymadroddion, fel: "mynd mâs" a "dod lan", a'i alw'n "Hwntw Bach". Roedd ei fab, Glyn, yn feistr ar y piano, a byddem fel teulu yn mynd atynt i gael tipyn o "sing-song" fin nos.'

Rhes flaen (o'r chwith i'r dde): (?), Megan Gweledfa, Dora, Yvonne, (?), Dilys Jenkins, Annie Hughes, Louie Parry, Doris Tindall, Catherine Jane, Miss A. J. Parry.
Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Gwyneth Jones (Mrs Gwyneth Lloyd), Marged Alice, (?), (?), Evan, Iorwerth, Eric Morris, (?), (?), Mr D. T. Rees.

Anfonodd Mrs Lloyd y llun o Ddosbarth 3 Ysgol Glanmoelyn, tua 1920. Gall enwi llawer o'r disgyblion yn y llun. Oes rhywun all orffen y rhestr?

BRYN BEDDAU

Rai misoedd yn ôl soniais am ddarganfod wrn rai miloedd o flynyddoedd o ran oedran yn yr ardal hon o'r Waunfawr, ac am gae o'r enw Bryn Fynwent ar draws yr afon Gwyrfai ar dir Gwredog. Yn ddiweddar cefais wybodaeth fod cerrig beddau wedi eu darganfod yn llawr tŷ Bryn Beddau pan oedd yn cael ei adnewyddu. Ar hyn o bryd rwy'n ceisio darganfod beth ddigwyddodd iddynt. Os oes rhywrai â mwy o wybodaeth, cysylltwch ar fyrder.

Ac o sôn am gerrig beddau heb fod mewn mynwent, mae'n ymddangos eu bod yn weddol gyffredin. Cefais adroddiadau am rai eraill yn Llanrug, Llanddeiniolen, ac mewn lle arall yn y Waunfawr. Gobeithiaf fynd ar eu trywydd yn ystod misoedd yr haf, a bydd adroddiad (gobeithio!) yn y rhifyn cyntaf wedi'r gwyliau.

TAITH HANESYDDOL

Rhyw dri neu bedwar yn unig a gysylltodd â mi ynglŷn â thaith gerdded yn y fro, ond mae'n werth rhoi cynnig arni. Felly, dyma fentro ar ddyddiad: **nos Wener, Gorffennaf 7fed.** Man cyfarfod — Ysgol Gynradd Llanrug. Amser — 5.30 p.m. i gychwyn cyn gynted â phosib cyn 6 p.m. Anghenion: esgidiau addas a thywydd sych! Gellir amrywio'r daith yn ôl y tywydd. Bwriadaf godi tâl o bunt y pen ar oedolion (plant am ddim) — yr elw tuag at gronfa Canolfan Llanrug. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch (01286) 673515.

Mae'r golofn yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi tueddu i ganolbwyntio ar agweddau o hanes Llanrug a'r cylch, ond o'r ardal honno, neu ynglŷn â'r ardal honno roedd y rhan fwyaf o'ch ymatebion. Beth am y gweddill o drigolion bro'r Eco? Mae cyfle i chwithau, blwyfolion Llanddeiniolen, Llanberis a'r Waunfawr godi ambell i sgwarnog dros fisoedd yr haf, er mwyn cychwyn ar dymor arall o 'chwilota' fis Medi. Pob hwyl dros y gwyliau, a chofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu gais am wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Am eich
ANGHENION ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR A "D.I.Y."
am
BRISIAU CYSTADLEUOL
dewch at



BRYN
(B & K Williams)
Yr Hen Ysgol Glanmoelyn LLANRUG
Ffôn: 677482

Ffenestri
CELTIC
Windows
2 TAN Y BRYN, BETHEL
BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
NEWYDD! DRYSAU PALADIN — HARDDWCH COED HEB Y STRACH!
Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim
NHBC
(01286) 671181
(0831) 326160
FEDERATION OF MASTER BUILDERS

'Un funud fach . . .'

ACAC

Wyddoch chi beth yw ACAC? Fedrai'r gŵr bonheddig a anerchai'r cyfarfod yn ei fyw â chofio beth oedd ystyr y llythrennau — ac yntau wedi sôn droeon am yr ACAC yn ystod ei anerchiad! Chwarae teg iddo, gallai weld yr ochr ddoniol i'r sefyllfa, a hawdd iawn oedd i'w gynulleidfa gydymdeimlo ag ef. Onid yw'r byd addysg erbyn hyn yn llawn o sôn am bethau fel TASAU, SPAEM, AC, AALI, RhLY, GMS, CYSAG, CCY. Mae angen bod yn sgolor go dda i gofio'r holl dermau — heb sôn am fedru eu deall hefyd! A bod yn deg â'r siaradwr, gwyddai'n iawn beth oedd swyddogaeth yr ACAC; methu cofio'i union enw yr oedd. Roedd mor gyfarwydd â'r term nes ei fod wedi anghofio'i union ystyr.

Gall rhywbeth tebyg ddigwydd yn hawdd iawn ynglŷn â phethau'r Ffydd. Y mae i'r Ffydd Gristnogol ei geirfa arbennig ei hun. Fedrwch chi ddim darllen y Beibl neu fod mewn oedfa heb sylwi ar rai o'r geiriau hynny. Geiriau fel ffydd, maddeuant, cymod, edifeirwch, credu, iawn, cyfamod, heddwch, cariad, trugaredd, barn, cyfiawnder, nefoedd, uffern, efengyl. A phen rhwydd iawn yw bod mor gyfarwydd â'r geiriau hyn nes colli golwg ar eu hystyr. Ac y mae i'r Ffydd hefyd ei harferion. Pethau fel mynychu oedfa, dod at fwrdd y Cymundeb, bedyddio, gweddïo. Gall y rheiny hefyd fod mor gyfarwydd nes colli eu hystyr i ni. Mae'n hawdd defnyddio'r geiriau a dilyn yr arferion heb gofio beth ddywedwn neu beth wnawn mewn gwirionedd. Gall y cwbl fod yn rhy gyfarwydd i ni ar brydiau.

Mae gofyn oedi ambell dro i feddwl am yr hyn a ddywedwn a'r hyn a wnawn. Oedi, a gofyn i'r Duw Mawr ein hatgoffa o fawredd yr efengyl am ei Fab Iesu Grist. Oedi, er mwyn iddo ein helpu i ddeall a dotio at eiriau mawr y Ffydd. Oedi, er mwyn cael golwg newydd ar gariad rhyfeddol Duw tuag atom. Oedi, er mwyn profi'r wefr sydd bosibl wrth addoli'r Duw a wnaeth gymaint drosom. Oedi, rhag bod yn or-gyfarwydd â'r pethau hyn.

(Gyda llaw, rhag ofn nad oeddech yn gwybod hynny, ACAC yw Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru.)

JOHN PRITCHARD

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Yn yr Ysbyty: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Gwyneth Chick, Rhos-y-ffin, sydd yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuniadau Da: Dymunwn pob dymuniad da i blant y pentref a fu'n sefyll arholiadau yn yr ysgol neu mewn coleg y tymor hwn, hefyd y rhai sy'n dechrau gweithio am y tro cyntaf. Pob dymuniad da i chwi oll.

Newyddion Ysgol Cwm-y-glo: Yn ystod y mis diwethaf ymwelodd dosbarth y Babanod â Fferm Fêl yr Wyddfa yn Llanberis. Cawsant fore hynod bleserus yn dilyn bywyd prysur y gwenyn.

Daeth Mr Gwilym Roberts o Gaernarfon atom unwaith eto. Mae bellach wedi ymweld ddwywaith â gwlad Bosnia. Aeth a nwyddau meddygol o Ysgol Cwm-y-glo gydag ef ac fe'i cyflwynodd i gartref o 55 o blant amddifad yn Lipik. Rhoesant hwythau haenen o goedyn addurniedig fel arwydd o'u gwerthfawrogiad i ninnau. Mae'n hyfryd meddwl fod cysylltiad wedi ei sefydlu rhyngom a'n bod yn ysgrifennu atynt.

Cafodd plant Adran y Babanod a'r Adran lau gyfle i ddilyn sgiliau mapio a chyfeiriannu yng nghwmni Mrs Anita Long, athrawes ymgynghorol awyr agored. Diolch yn fawr iddi am gyflwyno'r cyfan mor ddiddorol iddynt.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Mai i Mrs Sioned Jones, Isfryn, a Leigh Williams, Bwlch. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Croesawn fachgen bach newydd i Flwyddyn 1, sef Sonny Chidwick. Mae o wedi symud atom o'r Felinheli. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yma.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill cyn diwedd y tymor — nosweithiau agored, helfa drysor, ymweliad plant yr Ysgol Feithrin, trip yr ysgol i Ganolfan Bywyd Môr y Rhyl a Chastell Bodelwyddan. Yna bydd mabolgampau, disgo a pharti ffarwelio â blwyddyn 6. Carem ddymuno'n dda iawn i Jennifer Jones, Branwen Roberts a Darren Jones, fydd yn gadael yr ysgol hon ac yn dechrau ym Mrynrefail ym mis Medi. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno — pob lwc i chwi.

Gair bach o ddiolch diffuant iawn i chwi bentrefwyr Cwm-y-glo a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth barod i'r holl weithgareddau a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Priodas: Dymuniadau gorau i Ruth Gardiner, Becws Bryngwyn, a Jason Parry o Gaernarfon ar achlysur eu priodas yn Eglwys Llanrug ar Fai 20fed. Maent yn cartrefu ym Mryn Crwn. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlad: Anfonwn ein cydymdeimlad i deulu Lizzie Ann Hughes, Tanycoed Cottage gynt. Mae ei mab a'i deulu yn byw yng Nghaerweddus.

Ein cydymdeimlad hefyd â theulu Mrs Jane Humphreys. Bu Mrs Humphreys a'r diweddar Mr W. Humphreys yn byw yng nhŷ capel Tanycoed am rai blynyddoedd. Ein cofion at eu merch Nia a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Marwolaeth: Ar y 15fed o Fehefin bu farw Mr W. E. Thomas, Bronant gynt. Cydymdeimlwn â'i frawd, Mr O. Thomas, 1 Tai Bryngwyn, a'r teulu yn eu profedigeth.

Llongyfarchiadau: Anfonwn ein llongyfarchiadau i Annwen Parry, Ael-y-bryn, ar ei hethol yn llywydd Undeb y Myfyrwyr yng Ngholeg y Normal, Bangor. Pob lwc iti Annwen oddi wrth y teulu.

Gwellhad Buan: Dyna a ddymunwn i Mrs Megan Williams, Plas Pengwaith, ar ôl ei damwain.



Fedrai'r dyn trwsio teledu yn ei fyw â gweld beth oedd yn bod ar y set. Mam darlledwr amlwg o'r Nant oedd yn cwyno bod y llun yn symud i fyny ac i lawr. Wedi hir bendroni gwelwyd yr achos. Roedd cêbl y teledu yn sownd wrth y lein ddillad, nes bod y llun yn symud yn braf wrth i'r gwynt chwythu'r dillad.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

W.J.GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r
Association of Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CLN
Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy
48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200

O Siambar Selwyn

Cwestiwn a ofynnir i mi yn aml yw: P'run yw'r wlad harddaf y bu i mi ymweld â hi? Mae'r ateb yn hawdd. Canada. Hynny yw, y rhan honno o Canada sy'n ymestyn o Calgary drwy'r Mynyddoedd Creigiog hyd at lannau'r Môr Tawel yn Vancouver. Y rhan honno o Canada sy'n rhoi cyfle i chi aros yn Banff, Jasper a Kamploops, ac o bosib treulio noson yng ngwesty moethus Lake Louise. Rydw i wedi cael y fraint o wneud y daith hon ddwywaith. Y tro cynta yn niwedd Awst, a'r eildro yn niwedd Ebrill. O ddewis, diwedd Ebrill yw'r adeg gorau pan mae'r eira yn drwch ar y mynyddoedd a'r llynnoedd yn araf ildio o garchar y rhew, yr anifeiliaid gwylltion yn deffro i'r gwanwyn cynnar, a'r awyr iach yn llenwi eich ffroenau.

Mi fydda i yn teimlo bod yr Alban — y rhan orllewinol — yn rhyw fath o 'mini Canada' a dyna pam y bydda i mor hoff o ymweld â'r rhan honno o'r Alban yn bur aml. Wrth gwrs mae hi'n rhatach mynd i Ayr ac Oban nag i Calgary neu Vancouver, ac mae'n hwylus i gychwyn yno o Lanrug.

Mi fydda i wrth fy modd yn treulio amser ar rai o ynysoedd unig yr Alban. Mae bywyd mor llonydd yno, a'r croeso mor gynnes — yn enwedig i Gymry. Mae yna rhyw dawelwch llesmeiriol i'w deimlo ar ynysoedd megis Mull ac Iona (lle mae'r cyn-arweinydd Llafur, John Smith, wedi'i gladdu).

Oes mae yna ramant mewn ynys, boed hi'n ynys fawr fel cyfandir Awstralia, neu yn ynys fechan fel Iona neu Enlli. Mae'n gywilydd i mi gyfaddef na fûm i 'rioed ar dir Enlli. Fuo 'ngwraig i 'rioed ar gopa'r Wyddfa 'chwaith, er iddi fod ar lethrau'r Ayres Rock yn Awstralia. Rhag cywilydd iddi hithau hefyd, a'r Wyddfa yn ei holl ogoniant yn ei hwynebu bob dydd.

Cyn i'r rhifyn hwn o'r Eco ymddangos rwy'n gobeithio y bydda i wedi dychwelyd o un o'r ynysoedd y bûm i'n ysu am gael ymweld â hi, sef Gwlad yr Iâ. Ynys sy mor agos i ni . . . ond eto mor bell. 'I be ewch chi i le mor oer?' medd ambell i gyfaill. I ddweud y gwir dydi Gwlad yr Iâ ddim mor oer â hynny, diolch i'r 'Gulf Stream'. Mae cyfartaledd tymheredd yr haf o 11-15°C, ac ym mis Ionawr (y mis oeraf) mae tymheredd Gwlad yr Iâ, ar gyfartaledd, yn uwch na thymheredd dinasoedd fel Efrog Newydd neu Vienna. Mae enwau'r ddwy wlad gyfagos yn gamarweiniol hefyd, Greenland ac Iceland. Does yna fawr o wyrddni yn Greenland a dydi Iceland ddim yn dalp o rew 'chwaith.

Rydw i'n manteisio ar y cyfle i fynd yno yn ystod mis Mehefin oherwydd dyma'r amser gorau, oherwydd o ddiwedd Mai hyd ddechrau Awst fe gewch oleuni'r dydd am yn agos i bedair awr ar hugain.

Poblogaeth yr ynys yw oddeutu 240,000, ac mae'n wlad hynod o ddiddorol o safbwynt blodau, planhigion ac adar. Mae hi'n wlad o losg fynyddoedd — tua 200 ohonynt — ac fe geir chwydfa dân ar gyfartaledd bob pum mlynedd. Yn ystod y deng mlynedd diwetha fe gafwyd sawl chwydfa ac un ohonynbt o dan un o'r meysydd iâ. Fyddai neb yn mynd i Sbaen heb ddillad nofio — wel mae'r un peth yn wir am Wlad yr Iâ, ac mae'r dŵr yn siŵr o fod yn gynhesach na'r Costa del Sol yn y ffynhonnau ffrwydrol. Prifddinas yr ynys yw Reykjavik sy'n ddinas fodern gyda phoblogaeth o tua 90,000, ac yma fe geir safon byw uchel iawn. Gobeithio na fydd hi'n rhy boeth yno gan fod peint o gwrw yn costio yn agos i chwe phunt. Dŵr pur, glân amdani felly!

Bydd, mi fydd hi'n ddiddorol iawn cael crwydro o amgylch Gwlad yr Iâ, ond mae'n rhaid i mi ymweld ag Ynys Enlli hefyd, ac mae'n rhaid i Myra fentro i gopa'r Wyddfa. T. Llew Jones dd'wedodd am 'Cwm Alltcafn' yntê: 'Peidiwch oedi'n hwy — rhag ofn'. Digon gwir.

MYNED YN IAU WRTH FYNED YN HŶN

Eleni mae W. S. Jones (Wil Sam) yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed. I nodi ei gyfraniad enfawr i fyd y ddrama Gymraeg mae cwmni Bara Caws, ar y cyd â chyfeillion Wil Sam yn trefnu taith o ddwy o'i ddramâu, 'Y Wraig' a 'Bobi a Sami'.

Dyddiadau'r daith fydd 21 Tachwedd hyd 9 Rhagfyr. Valmai Jones fydd yn cyfarwyddo, a'r actorion fydd Maldwyn John, Merfyn Pierce Jones, Mari Rowland Hughes, John Pierce Jones a Mirain Haf Roberts.

I gydfynd â'r daith mae Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi casgliad newydd o ddramâu Wil Sam; bydd portread o'r awdur yn cael ei beintio gan yr arlunydd o'r Felinheli, Wil Jones, a threfnir arddangosfa deithiol o fywyd a gwaith yr awdur.

Estynnir gwahoddiad i gwmnïau sydd wedi perfformio dramâu Wil Sam yn y gorffennol i anfon lluniau o'r cynhyrchion i Bara Caws ar gyfer yr arddangosfa.

Bydd cyfle i gwmnïau drama lleol (a mudiadau eraill) wahodd y cynhyrchiad arbennig hwn i neuaddau a theatrau ledled y gogledd. Dyma gyfle i ddathlu cyfraniad aruthrol W. S. Jones i fyd y ddrama Gymraeg — ar y radio, teledu ac yn y theatr.

Cefnogir y daith a'r digwyddiadau eraill gan Gyngor y Celfyddydau, nifer o gwmnïau teledu annibynnol, Ban y NatWest, TAC, ac eraill. Bydd rhestr lawn yn cael ei chyhoeddi maes o law.

Pe baech angen mwy o fanylion cysylltwch â Linda Brown, Theatr Bara Caws, Uned A1, Cibyn, Caernarfon. Ffôn: (01286) 676335.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

CYSTADLEUAETH YSGRIFENNU DRAMA UN ACT

(dan Nawdd Cwmni Drama'r Llechen Lâs, Dyffryn Ogwen)

Cystadleuaeth newydd eleni — ysgrifennu Drama Un Act Gymraeg, heb ei gwobrwyo na'i pherfformio o'r blaen, ar gyfer Cwmni Drama'r Llechen Lâs — cwmni drama amatur Dyffryn Ogwen.

Y ddrama i'w hysgrifennu ar gyfer DIM MWY na chwe chymeriad ac i barhau rhwng hanner awr a thri chwarter awr, ond DIM MWY na thri chwarter awr.

Perfformir y ddrama fuddugol yn Neuadd Ogwen, Bethesda, nos Iau, 17 Tachwedd 1995. Gwobrwyrir yr enillydd ar yr un noson.

Gwobr: £50 Beirniad: Dafydd Fôn Williams, Gerlan.

Y cynhyrchion i fod yn llaw ysgrifenyddes Cwmni Drama'r Llechen Lâs - Rhiannon Rowlands, Llwydiarth, Tal-y-cae, Tre-garth, Bangor, Gwynedd LL57 4AE. Ffôn: (01248) 601094, **dim hwyrach na 31 Gorffennaf 1995.** Gobeithir cynnal y gystadleuaeth yn flynyddol.

Amodau:

1. Ffugenw yn unig ar y cyfansoddiad.
2. Rhaid anfon amlen dan sêl gyda phob cyfansoddiad, yn cynnwys y manylion canlynol: (a) oddi mewn: enw'r gystadleuaeth, enw'r ddrama, ffugenw, enw llawn a chyfeiriad y cystadleuydd; (b) oddi allan: enw'r gystadleuaeth, enw'r ddrama a ffugenw'r cystadleuydd.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

GORSAF BETROL
BERAN
DEINIOLEN.
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Ymddiheuriad: Roedd yr adroddiad yn y rhifyn diwethaf am y cyngerdd a gynhaliwyd yn Eglwys St Padarn ar Fai 8fed i gofio diwedd y rhyfel yn anghyflawn. Gadawyd allan o'r adroddiad yn gwbl anfwriadol enwau rhai o'r artistiaid a gymerodd ran yn y cyngerdd. Yr oedd Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a'u cyfeilydd Mr Gareth Jones, yn canu yn y cyngerdd, ac arweinydd y noson oedd Mr John Hugh Hughes. Ymddiheurwn am y camgymeriad.

Llongyfarchiadau: Mae'n dda clywed am lwyddiant Nia Gwyn Griffith, 52 Dôl Elidir, yn ei haroliadau terfynol yng Nghaerdydd. Mae Nia bellach wedi cwblhau ei chwrs Meddygaeth, a phasio'n feddyg. Llongyfarchiadau mawr iddi oddi wrth ei ffrindiau a'r teulu.

Undeb y Mamau: Nos Lun, 22 Mai, cynhaliwyd Gwasanaeth Undeb y Mamau Deoniaeth Arfon yn Eglwys y Santes Fair, Llanfairisgaer. Rheithor Y Felinheli, y Parchg Gordon Owen oedd yn gweinyddu. Cynrychiolwyd Eglwys St Padarn gan aelodau y gangen a chariwyd y faner gan Mrs Muriel Morris.

Prynhawn dydd Mawrth, 6 Mehefin, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn festri Eglwys St Padarn. Y gŵr gwadd oedd y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, a chafwyd pnawn difyr iawn yn ei gwmni yn ystyried sut i gael pobl ifanc i gymryd diddordeb yng ngwaith yr Eglwys.

Cydymdeimlwyd â Beryl Owen ar farwolaeth ei mham; ac hefyd â Jennifer a Robin a theulu'r Nant yn eu colled enbyd hwythau.

Yn gofalu am y baned roedd Mrs Muriel Morris a Mrs Audrey Evans. Diolchwyd iddynt hwy ac i'r Rheithor gan Mrs Betty Williams ac eiliwyd gan Mrs Kathleen Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris.

Cymdeithas Eglwysi St Peris a St Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys nos lau, 1 Mehefin, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi dan arweiniad y Rheithor. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Nesta Jones, Pantglas, mam y canwr byd-enwog Bryn Terfel. Gyda help y peiriant fideo cafwyd dipyn o hanes Bryn o'i blentyndod yn canu yn yr eisteddfodau lleol a'r Genedlaethol i'w lwyddiant presennol ledled y byd.

Diolchwyd iddi ac i'r gwestwragedd, Mrs Evelyn Williams a Mrs Buddug Hughes, gan Mrs Moreen Lennon.

Cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Catrin Elidir, merch fach Jennifer a Robin Davies a wyres a gor-wyres dwy o aelodau'r Gymdeithas, Mrs Margaret Ellis a Mrs Selina Morris.

Cyfeillach Capel Jerusalem: Yng nghyfarfod mis Mehefin, o dan lywyddiaeth Mr Hugh R. Jones, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Laura Davies yn rhannu rhai o'i phrofiadau am ei hymweliad â'i merch yn Pacistan. Yn dilyn y sgwrs ddifyr cafwyd trafodaeth fywiog a lluniaeth a ddarparwyd gan chwiorydd y Gyfeillach. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch ddydd Mawrth, 4 Gorffennaf.

Yr Urdd: Cafodd 47 o aelodau'r Adran hwyl fawr ar eu trip diwedd tymor i Landudno, nos Fercher, Mehefin 21. Aethom i'r Ganolfan Bowlio Deg a chafwyd cystadlu brwd yno. Roedd llawer o'r plant yn chwarae'r gêm am y tro cyntaf, ond buan iawn y daethant i arfer â'r gamp. Cyn cychwyn adref cawsom fwyd yn y MacDonalds gerllaw. Roedd yn noson hyfryd a chawsom fwyta'r sglodion a'r byrgyrs y tu allan i'r bwyty.

Pêl-droed dan 11 oed: Trefnodd Gwilym Evans, Tŷ Crwn, barti i'r plant a'u rhieni yng Ngwesty Dolbadarn, nos Sadwrn, Mehefin 17. Roedd cael swper gyda'i gilydd yn hwyl i'r plant. Diolch yn fawr i William Foulkes am drefnu a gofalu am y disgo. Cyflwynodd Gwenda Foulkes rodd i Gwilym am ei holl waith gyda'r tîm drwy'r tymor a hefyd i Bethan am olchi'r dillad pêl-droed bob wythnos.

Rygbi'r Ddraig: Ar ddechrau cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn ddiweddar gwelwyd rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn cyflwyno Rygbi'r Ddraig ar y rhaglen 'Cracabant' ar S4C. Dyfeisiwyd Rygbi'r Ddraig er mwyn rhoi cyfle i blant chwarae rygbi yn ddiogel. Mae'n debyg iawn i'r gêm go-iawn, ond heb y taclo corfforol. Unwaith y caiff chwaraewr ei gyffwrdd gan aelod o'r tîm arall rhaid iddo daflu'r bêl i aelod arall o'i dîm ei hun. Mae'n amlwg i'r holl ymarfer ar gyfer y rhaglen dalu ar ei ganfed erbyn hyn. Ddydd Sadwrn, Mehefin 17, aeth tîm o'r Ysgol i Bwllheli i gystadlu yng Ngornest Rygbi'r Ddraig Clwb Rygbi Pwllheli ar gaeau Bodegroes. Enillodd Llanberis y chwe gêm a chwaraewyd yn eu grŵp, cyn symud i'r rownd go-gyn-derfynol. Enillwyd honno a'r gêm nesaf hefyd, ac felly roedd Llanberis yn y rownd derfynol yn erbyn Ysgol Tudweiliog. Ar ddiwedd gêm hynod gyffrous roedd y ddau dîm wedi sgorio pedwar cais. Gan fod y timau mor gyfartal penderfynwyd cael cyd-enillwyr eleni yn hytrach na cheisio setlo'r gêm trwy chwarae amser ychwanegol. Cyflwynwyd tarian yr un i'r ddau dîm a medalau i'r chwaraewyr. O gofio bod rygbi yn gêm boblogaidd iawn yn Llŷn — roedd tîm cyntaf Pwllheli yng Nghynghrair Genedlaethol yr Heineken y llynedd — gwelir bod plant Llanberis wedi cyflawni cryn gamp. Aelodau'r garfan oedd: Claudia, Becky, Diana, Jac, Owain, Rhys, Dafydd, Neville, Aaron Lloyd, Aaron Wyn a Willie. Llongyfarchiadau i'r tîm ac i Mr Bryn Williams am eu hyfforddi. Roedd un symudiad arbennig wedi ei gynllunio ganddynt y noson cyn y gystadleuaeth, a doedd gan y timau eraill ddim syniad sut i ddelio â hwnnw. 'Trên bach y Wyddfa' oedd yr enw a roddwyd i'r symudiad, a sgoriwyd llawer cais wrth i'r 'trên' symud o un pen i'r cae i'r llall.

Capel Coch: Bydd Cymanfa'r Henaduriaeth yn cael ei chynnal yng Nghapel Bethel, Pen-y-groes, am 6 o'r gloch, nos Sul, Gorffennaf 2. Bydd y bws yn gadael Llanberis am 5.10 o'r gloch.

Diolchiadau:

Dymuna Alan a Helen, 15 Stryd Turner, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar eu Priodas Arian. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Bessie Owen, 52 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

Dymuna Mrs Menna Jones, 6 Well Street, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mr T. H. Jones, 'Rallt Goch, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig tuag ato yn ystod ei arhosiad diweddar yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddo ddychwelyd gartref. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Enid Lloyd Roberts ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion a dderbyniwyd tuag at Gartref Bron Eryri. Diolch i Eirian a staff Bron Eryri, Beth, Falmai a'r nyrsus i gyd am eu gofal caredig, ac i'r Parchg Philip Hughes am ei wasanaeth, ac i Myrddyn a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Ann a Rhiannon, Madryn, Llanberis, a theulu'r diweddar Selwyn, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i gymdogion a chyfeillion am y galwadau cyson a'r cymorth parod yn ystod gwaeledd Selwyn. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard a'r Parchgn John Owen a Gwynfor Williams am wasanaeth hyfryd ddiwrnod yr angladd, am wasanaeth Mrs Iona Jones ar yr offeryn ac am y deyrnged gan Mr John Hughes. Hoffem ddiolch hefyd i staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a'r meddygon a'r gweinyddesau ym Meddygfa Waunfawr am eu gofal tyner. Rydym yn gwerthfawrogi'n ogystal yr holl roddion ariannol a dderbyniwyd. Fe'u trosglwyddir i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr. Ein diolch cynnes hefyd am y trefniadau trylwyr gan Myrddyn a Gwynfor.

Llwyddiant: Llongyfarchiadau i Trystan Thomas, 9 Field Terrace, ar ennill gradd anrhydedd mewn Biocemeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd.

MR SELWYN PRITCHARD

Roedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth Mr Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis, ar Fehefin 10. Gwyddom fod llawer ohonoch wedi cael blas mawr ar ddarllen ei erthyglau a gyhoeddwyd yn yr *Eco* dan y teitl 'Y Llaw sy'n Siglo'r Crud'. Yr oedd yr erthyglau hynny yn ffrwyth gwaith ymchwil manwl ar ei ran dros gyfnod hir. Gwyddom iddo fwynhau rhoi trefn ar y deunydd ar gyfer yr *Eco*, a hynny yn ystod gwaeledd mawr. Ar ran pawb sy'n gysylltiedig â'r *Eco* cydymdeimlwn yn fawr â'i briod Ann, ei ferch Rhiannon, a'r holl deulu yn eu colled.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN
PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30
Ffôn: Llanberis
870922

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ *Porches* ★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES

ORIEL
PLAS
GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

CLADDU RIWTH gan Y Gwalch

Mae cysylltu'r enw Riwth a'r allt 'ma yn ddigon addas, gan fod yna ddwy o'r enw yna wedi bod yn trigo yma, un o bobtu'r ffordd, i mi fod yn gwybod, er mai Ruth ydy'r ynganiad rŵan gan y 'middle class' werin, sydd yn hoff o olrhain eu hacha at John Wyn o Widir a rhyw griw cynffonllyd felly.

Chwaer fy mam oedd un ohonyn nhw, yn byw ym Mryn Pistyll yn y fan yma o dana ni, lle sydd wedi bod yn llochas i hipis a phob rhyw siortyn anghynas ers yr oes honno.

Beth bynnag, roedd Riwth yn weddw y pen dwaetha 'ma, am yr ail waith, a phan fuo hi farw, o rhyw anghaffael ar y galon, ei dymuniad hi oedd cael ei chladdu hefo'i gŵr cynta yn Cumberland bell, ac yr oedd hi wedi pennu mai Frank Pritchard D.M., oedd yn rhedeg busnes motos a chnebrynga ar sgwâr Llanrug, oedd i wneud y trefniada a *mynd â hi.*

Wrth gwrs mi fasa wedi bod yn llawar mwy detha i'w hanfon hi ar y trên ac yn llai o helcud, ond doedd 'na ddim arall amdani hi o dan yr amgylchiada, ond yr oeddan ni i gyd yn dal ein gwynt o'r dechra a rheswm da pam.

Heb fwriadu bod yn ddilornus, doedd petha'r creadur o'r dechra ddim o'r safon a fasa yn pasio y prawf mwya elfennol mewn garej erbyn hyn. Ac mi rydw i'n cofio rhyw ddynas yn deud wrtha i, fel yr oedd ei theulu hi wedi llogi ei gerbyda fo ar achlysur ei phriodas hi, a fuo hi ddim yn ffodus hefo'r tywydd i ddechra ddyliwn i; roedd hi'n sgowlio ac yn stido, a phan ddaeth y car amdani hi, chafodd hi ddim ond ras o dan ambarels i mewn iddo fo, ond erbyn gweld, doedd hi damad mwy diddos yn hwnnw; roedd y ffenast wedi sticio; cau weindio i fyny, ac mi faswn i'n meddwl ei bod hi a'i gwisg wen yn doman cyn cyrraedd yr allor.

Mis Gorffennaf oedd hi, ac yr oeddan ni yn cael gweithan boeth rwy'n cofio. Roeddan ni wedi trefnu i gychwyn o Fryn Pistyll ben bora er mwyn cyrraedd pen ein siwrna erbyn tua un, ac yr oedd yna ddyrnaid o bobol wedi casglu at yno erbyn saith, merchad ran fwya, rhai sydd erbyn hyn ac eithrio dwy, wedi mynd i ganlyn Riwth, fy mam yn eu mysg nhw. Doedd yno ddim ond y fi o ddynion, a'r diweddar annwyl Barch. Deiniol Wyn Edwards, ficar Penisa'rwaen, oedd wedi dŵad i gynnal gwasanaeth byr, ac wedi mynd drwy hwnnw, roedd pawb wedi mynd i sbio ar eu gilydd ac ar y pontydd, achos doedd 'na ddim hanas o'r hers. Ond mi ddaeth yn y diwadd — rhyw hannar awr ar ei hôl hi; yr hen Phantom fawr ddu honno a dau olwyn spâr yn hongian ar ei hochra hi, a Frank Pritchard wrth y llyw yn dwrw mawr, a golwg arno fo fel tasa fo newydd fod odani hi yn tynhau y plwg oel neu rhyw ddarn seimllyd felly. Yr unig beth oedd o'i gwmpas o yn gweddu i'r achlysur oedd tei ddu, a honno cyn amlad ar draws ei geg o na'r lle roedd hi i fod.

Roedd Riwth ar draws dwy gadar yn yr hen siambar gefn bach gyfyng honno. Dyma Frank yn rhoi y pen tryma i mi, ac mi gawson ni stagar i'w chael hi allan. Mi fuo raid i ni ei rhoi hi lawr ar garreg y drws ac ar ben wal wedyn i ail afael, ac erbyn bod yr hers ar osgo'r allt, roedd yna waith llithro i mewn arni hi.

Erbyn hynny roedd y ddau gerbyd arall wedi cyrraedd a rhyw hogia lleol yn eu gyrru nhw. Dyma ni'n stwffio'r hen ferchad i mewn iddyn nhw fel penwaig yn yr halan, hefo'r hetia mawr duon rheiny fel Mecsicans, ond doeddan ni ddim yn barod i gychwyn wedyn o bell ffordd.

Roedd yna hen fachgan yn byw yn Siop Riwth yr adag honno; Rowlands dwi'n meddwl oedd ei *enw fo, ac yr oedd o wedi bod yn berson ym mhlwy yr hen Riwth yn* Cumberland, a'i dymuniad hi oedd o holl betha'r holl fyd, ei gael o i ddeud rhyw air wrth ei phen hi yn y pen arall. Ond roedd o'n ddyn gwael yr adag honno, dim ond drwy i ddau afael yn ei freichia fo o boptu oedd o'n gallu ymlwybro. Ac mi gawson ni chwanag o fyd i gael hwnnw i gerbyd. Roedd ei betha crefyddol o mewn cês bach yn ei law o, a dyma Frank yn cythru i hwnnw a ffling iddo fo i mewn at yr arch, ac erbyn hynny roedd o wedi mynd i ddechra bytheirio a phoeri hefo'r anghaffael anffortunus hwnnw oedd arno fo, achos roedd o ar dân isio cychwyn.

Roeddwn i ym mhen blaen y Phantom wrth ei ochr o, a ffwrdd â ni i Groeslon Blaen Cae hyd yr hen lôn yr adag honno, ond pan oeddan ni wrth Efail Castall dyma fi'n sylwi fod y 'Spirit of Ecstasy' oedd ar y pen blaen yn dechra daffod.

'Well i chi stopio,' meddaf fi, 'neu mi syrthith y corcyn 'na.'

'Na, mae o'n ôlreit wyddost ti,' medda fo. 'Mi ddechreuith droi yn ei ôl yn y munud.' A dyna wnath o drwy gydol y daith.

Roeddan ni wedi mynd drwy Fae Colwyn pan sylwais i nad oedd y ddau gar yn dilyn.

'Ella ei bod nhw wedi cymryd tro croes,' medda fi wrth Frank, ac mi fedris yn y diwadd ei berswadio fo i stopio yn Hen Golwyn, a disgwyl y buo ni yn y fan honno am sbel. Toc, dyma un o'r ceir yn cyrraedd ar sgri a'r hogyn yn neidio allan. Newydd drwg oedd ganddo fo. Roedd peipan ecsôst y llall wedi torri yn y Junction, honno yn llusgo hyd y llawr ac yn gwreichioni fel ffeiarworc, a'r hen ferched rheiny bron wedi mynd i sterics. Ond lwcus, roeddan nhw yn ymyl y 'panel beaters' ac yn y fan honno yr oedd o yn cael ei ymgeleddu tra'r oedd y teithwyr yn ista ar ochr lôn yn un rhes yn yr hetiau mawr duon rheiny. Neidiodd Frank i'r car a mynd yn ei ôl hefo'r hogyn gan fy ngadael i hefo'r hers yn y gwres mawr hwnnw yn ista ar y step yn llewys fy nghrys a phawb yn sbio arna i fel hetia.

Ar ôl dychweliad y ceir, i ffwrdd â ni wedyn, ac yr oedd fy mrawd, oedd yn byw yng Nghaer yr adag honno, wedi trefnu i'n cyfarfod ni ar rhyw groeslon hefo'i gar o, ac yr oedd o bron wedi mynd yn soldiwr yn disgwyl.

Wedi i ni fynd drwy'r tynal ac allan o Lerpwl, roedd Frank yn gyrru fel tasa fo yn y Mili Miglia, ac erbyn deall, roedd o isio cael tro sydyn arni hi i ddŵad adra. Roedd ganddo fo siarabang yn mynd i Steddfod Llangollen drannoeth.

Erbyn hyn roedd hi'n amser cinio, ac yr oeddan ni â'n llygada yn agored am dŷ bwyta.

'Dyma fo le,' medda Frank yn sydyn, gan droi i mewn i ganol rhyw loris oedd wedi ymhel o gwmpas 'transport cafe'. Wedyn dyma ni'n heidio'r galarwyr fel defaid i mewn i'r lle, ac yr oeddan nhw erbyn hyn ar eu cythlwn ac wedi stiffio, ond ar ôl cael te iddyn nhw a brechdana 'boiled ham' a theisus, roeddan nhw yn mwynhau eu hunain yn iawn yn cnoi a malu fel tasa nhw ar drip Ysgol Sul, a neb erbyn hynny yn rhoi fawr o feddwl i'r hen Riwth ar ben ei hun yn y gwres hwnnw yng nghanol y loris.

'Well i ti drio eu cael nhw ar eu traed i ni gael symud,' medda Frank *yn y diwadd, ac yr oedd 'na dipyn o waith perswadio. Ar ôl eu cael nhw* yn eu hola i'r cerbyda dyma Frank a fi yn mynd am yr hers. Erbyn i ni gyrraedd roedd ei holwyn ôl hi yn fflat.

'Well i ti fynd â nhw yn eu hola am banad arall,' medda fo, 'tra bydda i yn newid yr olwyn 'ma.'

Mi gymrodd yr hen ferchad y newydd drwg yn well nag oeddwn i'n feddwl. Roeddan nhw yn falch erbyn hynny o gael dŵad allan i'r aer o'r ceir rheiny oedd fel poptai. Ac i mewn â nhw wedyn i ganol yr hogia loris rheiny oedd erbyn hyn yn troi eu llygada tua'r nef ac yn meddwl mae'n debyg eu bod nhw mewn cyfarfod Undeb y Mamau.

Mi ddaeth Frank yn ei ôl o'r diwedd a rhyw strempan ychwanegol o saim ar draws ei ên o, ac ar ôl ail lwytho, ffwrdd â ni, ac yr oedd o'n gyrru yn waeth byth, a doeddan ni ddim wedi myn brin ugain milltir na chlywais i rhyw gloncian y tu ôl, fel sŵn corddwr mawr yn dechra hel menyn.

'Duwcs, bedi'r twrw yna?' medda fi.

'Debyg iawn fel tasa'r tiar arall 'na yn dechra chwyddo,' medda Frank gan gael hwrdd ddrwg o boeri. 'Roeddwn i wedi meddwl ei newid o, ond ches i ddim amsar.'

Doedd o ddim ond prin wedi siarad na chlywson ni glec fel tasa rhywun wedi tanio gwn haels, a dyma'r hers yn mynd ar osgo, ac yr oeddwn i'n gweld ceg Frank yn mynd er nad oeddwn i'n deall yr un gair oedd o'n ddeud, ond mi rydw i'n siŵr nad oeddan nhw yn gweddu i'r amgylchiad.

Mi stopiodd y cerbyda eraill y tu ôl, a lwc o anlwc, roeddn ni yn digwydd bod ar ymyl coedlan gysgodol, ac yn y fan honno ar ochor y lôn y buo yr hen ferchad yn un rhes tra'r oedd Frank yn y llwch yn newid yr ail olwyn, ac yr oeddan nhw yn ffanio'i gilydd hefo'r hetia mawr rheiny, ac mi fanteisiodd un neu ddwy ar y cyfla i ddiflannu i'r coed i gael 'madael â'r holl de hwnnw.

Erbyn hyn roeddwn i wedi cael boliad ar fod yn yr hers, ac mi newidiais le hefo rhywun a mynd i'r cerbyd dwaetha, a dyma'r cynhebrwng yn datblygu yn ras yrru, a buan iawn yr oeddan ni wedi colli golwg ar yr hers a'r ddau gerbyd arall. Roedd yr hen ferchad y tu ôl a'u cegau allan drwy'r ffenestri ac yn crefu ar yr hogyn i beidio â gyrru.

'Duwcs, wyt ti'n meddwl ein bod ni yn mynd ffor' iawn?' medda fi wrtho fo yn y diwadd. 'Mi ddylan *fod wedi eu dal nhw bellach does bosib. Fasa ddim gwell i ni ofyn i* rhywun?'

Gyda hynny mi welson rhyw hen fachgan ar ben steps yn torri gwrych. Dyma fi'n gweiddi arno fo i ofyn oedd o wedi gweld hers yn pasio. Dim un medda fo. Roedd o wedi gweld pob math ond hers. Wedyn doedd 'na ddim amdani ond troi yn ôl, ond doeddan ni ddim wedi mynd dau gam pan ddaeth yna hers fawr ddu i'n wynebu ni. 'Dyma nhw,' medda fi a dyma ni'n chwifio ein breichia a chanu'r corn, ond i ddim pwrpas. Cynhebrwng arall oedd hwnnw, a rhyw ddau ym mhen blaen yr hers hefo hetia silc yn sbio arna ni fel tasa ni newydd ddŵad dros y Clawdd Mawr.

Ymlaen â ni yn obeithiol, a phwy ddaeth i'n cyfarfod ni wedyn hefo llwyth o ferchad ond fy mrawd, wedi dŵad i chwilio amdanan ni, a fuo fi 'rioed ddim balchach o weld neb.

Dyma ni wedyn yn ei goleuo hi ar ei ôl o i drio dal yr hers cyn iddi gyrraedd mynwent Backermet, ond doedd raid i ni ddim rhuthro. Mi ddaethon ar ei thraws hi yng nghynt na'r disgwyliad. Dyna lle'r oedd hi wedyn, ar ochor y lôn — ar jac y tro yma, a'r hen ferchad yn ista yn nhin y clawdd yn eu trefn arferol, wedi mynd yn soldiwrs, a dim hanas o Frank. Roedd o wedi rhedag allan o 'lwynion sbar erbyn hynny, ac un o'r hogia wedi gorfod mynd â fo i chwilio am garej i drwsio'r olwyn fflat, a phan ddaethon nhw yn eu hôl ymhen hydion, roedd hi'n dechra nosi, a'r hen berson ar ei hyd yng nghefn un o'r ceir yn teimlo yn salach nac oedd o cyn cychwyn.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
LLE DA I WLEDDA
Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis

Beth bynnag, mi ddaru ni gyrraedd y lle yn y diwadd yn y cyfnos. Roedd yna griw o bobol ddyliwn wedi ymgynull yn fuan yn y pnawn wrth y 'lych-gate' i dderbyn y cnebrwng, ond erbyn amser te roedd y rhan fwya wedi cael boliad ac wedi mynd adra o dan yr argraff eu bod nhw wedi camddeall y dyddiad. Ond roedd y person yno yn ei wenwisg ac un neu ddau arall, ac yn eu plith nhw rhyw lafnas o hogan oedd yn torri ei chalon. Biti drosti hi. Roedd Riwth erbyn deall wedi hannar ei magu hi.

Wnaeth Frank wedyn ddim lol ond troi ar ei sawdl a'n gadael ni, ond mi gafodd fy mrawd a finna help yr hogia i ollwng Riwth i lawr yn yr hannar gwyll hwnnw. Ond cyn hynny roedd yn rhaid mynd â'r hen berson i'r festri i wisgo amdano a dŵad a fo yn ei ôl rhwng dwy ddynas at lan y bedd i ddarllen pwt wrth ben Riwth tra roedd un arall yn dal ei lyfr o. Ac wrth ei weld o'n siglo yn y fan honno, roedd rhywun yn dal ei wynt, ac wedi mynd i deimlo ar gyfyng gyngor beth wnae rhywun — beichio crio ynteu rowlio chwerthin. Ond mi gason drosti hi yn y diwadd.

Y peth doetha wedyn wrth gwrs fasa bod wedi chwilio am le i'r hen griw roi eu penna i lawr dros nos cyn cychwyn ar ffasiwn siwrna wedyn ar ôl y fath helcud, ond fynna nhw ddim. Doedd yna ddim i'w wneud ond mynd â nhw am sglatch arall cyn cychwyn.

Roeddwn i wedi dewis dŵad yn ôl cyn belled a Chaer yng nghar fy mrawd, ac fel yr oedd petha yn mynnu bod, roedd y person hefo ni, a wn i ddim sawl gwaith y bu'n rhaid i ni ei dynnu o allan, un ym mhob braich i fynd â fo i fôn y gwrych i ladd chwyn, ac yr oeddan ni yn trio cadw ein pegla cyn belled ag y medra ni o'i gyrraedd o yn y tywyllwch — mae traed gwlybion yn un o'r petha cynta rydd annwyd i mi.

Roedd Joan a fi yn mynd i lawr yng Ngholwyn Bay am ein bod ni'n byw yno, ond doedd anhawstera'r gweddill ddim yn llwyr drosodd erbyn clywad yn ddiweddarach. Roedd y cerbyd yr oedd Mam ynddo wedi rhedag yn sych y tu draw i Bentir, ac yr oedd yr hogyn wedi gorfod cerddad i Lanrug i nôl petrol, heibio i Ynys Iago ac i lawr yr allt 'ma. Erbyn iddo fo gyrraedd yn ei ôl hefo un o'r ceir eraill, roedd y c'logod yn canu, a'r hen ferchad ar draws eu gilydd yn rhochian yn braf.

Tasa hanas fel yna yn gomedi ar y telifision, mi fasa pobol yn deud fod gan rhywun ddychymyg da, ond fel yna yr oedd hi yn hollol, er nad oes 'na ddim ond un tyst ar gael heddiw heblaw fi. Ond roedd o'r cynhebrwng rhyfedda fu mi ynddo fo 'rioed. Claddu fy modryb Riwth.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Louise a Dylan Evans, Gilwern, ar enedigaeth eu mab bychan, Siôn Llwyd, ar Fehefin 1af, brawd bach i Rebeca. Ganwyd merch fach i Meinir a Dylan Griffith, Tros-y-waun, llongyfarchiadau i chwithau hefyd a phob hapusrwydd hefo'r newydd ddyfodiaid.

18 oed: Pob bendith iti Sioned Wyn, 17 Bryntirion, ar gyrraedd dy 18 oed ar Fehefin 26ain. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol oddi wrth dy deulu, ffrindiau a chymdogion.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref. Byddai tywydd tecach yn codi rhywfaint ar ein calonnau. Rydym yn meddwl yn annwyl am Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, a Mr Eurwyn Jones, Camelot, a hwythau yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Ysgol Sul Bosra: Bydd y plant yn casglu eto eleni tuag at waith y Genhadaeth Dramor. Bydd unrhyw gyfraniad yn dderbyniol tu hwnt gan yr aelodau.

Pnawn Sul, 25 Mehefin, bu'r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Llandinorwig. Y llaw a sumbolau'r bysedd oedd dan sylw — rhoi pawb a phopeth yn gyntaf a ni ein hunain, fel y bys bach, y lleiaf pwysig, yn olaf. Anfonwyd cerdyn o groeso adref i Jonathan Richardson gan yr athrawon a'r aelodau. Bu Jonathan yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul am flynyddoedd maith.

Trip yr Ysgolion Sul: Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o groesffordd King am 9 o'r gloch fore Sadwrn, 1 Gorffennaf. Mae rhagor o le ar y bws — enwau i Elizabeth Jones, 872421, neu Ann Paterson 872405. Y pris yw £4 i oedolion a £2 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgolion Sul. Gobeithio y bydd yr haul yn tywynnu arnom yn y Rhyl.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys â Mr Eifion Griffith a'r teulu, 12 Llys y Gwynt, yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl. Dymuna Mr Griffith a'r teulu ddiolch i drigolion Dinorwig, Deiniolen a Phenisarwaun am bob arwydd o garedigrwydd a rhoddion a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.

Cyfeillion yr Ysgol Gymuned: Cynhaliwyd noson Sêl Cist Car a stondinau o bob math ar nos lau, 15 Mehefin. Bu'r tywydd yn hynod ffafriol a bu'n noson lwyddiannus dros ben. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson — fe wnaed elw syleddol o £230. Enillydd y dyddiadur oedd Mrs Shirley Roberts, cafodd wobr o £100 am ddyfalu'r dyddiad cywir, sef Rhagfyr 31. Llongyfarchiadau.

Pwyllgor Neuadd: Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd — 1, D. Webb, Bryntirion; 2, Gethin Philips, Tai Arthur; 3, Pat Larsen, Llygad yr Haul. Mis Mehefin — 1, Ron Hughes, Bryn Hyfryd; 2, Tony Elliott, Bryn Eglwys; 3, Ann Jones, Ty'n Gerddi, Waun. Rydym yn dal i groesawu aelodau newydd — dim ond 50c y mis neu £3 tan ddiwedd Rhagfyr. Trefnwyd gweithgareddau'r hydref fel a ganlyn: taith gerdded llwybrau cyhoeddus (noddedig) yng ngofal Leslie Larsen am 10 a.m. 16 Medi, gydag amrywiol stondinau yn yr Ysgol; Hwyl a Miri Calangaeaf ym mis Hydref; a Raffl Nadolig yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

Arholiadau: Daeth dyddiau'r poeni, adolygu, manylu, a chwysu i ben i griw y TGAU, Lefel-Uwch a'r colegau. Seibiant rŵan cyn y canlyniadau ym mis Awst.

Llongyfarchiadau brwd i Bedwyr ar ennill gradd B.A. gydag anrhydedd mewn Cymraeg ac Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Pob hwyl ar y cwrs ymarfer dysgu.

Llawer o Ddiolch: Dymuna Jonathan ddiolch o walod calon i bawb fu'n gymaint o gefn i'w fam, nain a'i frawd Ken yn ystod y dyddiau gofidus ei gaethiwed fel gwystl yn Bosnia. Diolchir am y croeso cynnes adref i'r pentref heddychlon hwn ac am y llu cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn. Bu hyn oll yn gymorth mawr. Diolch i chwi oll.

Diolch i'r Etholwyr: Dymuna Mrs Pat Larsen ddiolch yn ddiffuant iawn i etholwyr yr etholaeth hon am eu cefnogaeth trwy ei dychwelyd yn ddiwrthwynebiad ar Gyngor Sir Gaernarfon-Meirionnydd yn ddiweddar.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch ffoniwch 870533, neu mae croeso i chwi alw yn Llygaid yr Haul.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Philip ac Audra Roberts, Marvista, Ceunant, ar enedigaeth merch fach, Ffion Wyn, ar y cyntaf o Fehefin yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd.

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
– TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
675754

Cefnogwch Fusnesau Lleol
CEIR CYMRU
BETHEL (0248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)
A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:
1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
675951
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

WYT TI'N COFIO?
gan Mrs G. M. JONES

Daeth Eisteddfod yr Urdd a'r ffaith y dethlir canmlwyddiant geni Syr Ifan ab Owen Edwards a llu o atgofion am gychwyn yr adran yn Llanrug yn y dauddegau cynnar.

Rhyw ychydig ohonom, a oedd eisoes yn ddarllenwyr *Cymru'r Plant*, yn dod at ein gilydd i ffurfio adran. Yr oedd yna drefniant braidd yn filitaraidd yr adeg honno. Am gasglu enwau aelodau rhoddid y teitlau o is-gapten, uwch-gapten, rhingyll a'r uchafbwynt oedd cael eich dyrchafu i fod yn gadfridog wedi i chi gael hanner cant o blant i ymaelodi.

Cofiaf glywed prifathro Ysgol Dyffryn Nantlle yn cyhoeddi yn y bore: *'Hywel's army will meet at 4 o'clock'*. Y diweddar Hywel D. Roberts, Tal-y-sarn, oedd un o'r cadfridogion cyntaf yn y cylch.

Meddyliem ein hunain yn bwysig iawn a chael baner yr Urdd yn anrheg. Anfonais fy un i i Amgueddfa'r Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Mae'r bathodyn gen i o hyd. Swllt a gostiai'r aelodaeth y pryd hynny.

Caem help yn yr adran gan rhai oedolion fel Mrs Laura Grace Owen, Isallt, a ddysgodd ganeuon actol a dramâu; ac Owen Thomas (Yncl Owain) a ddysgodd adrodd i lu o blant Llanrug. Doedd yna ddim sôn am yr eisteddfod fawr, ac y mae'n achos llawenydd gweld yr holl blant o bob rhan o Gymru yn dod at ei gilydd.

Dyn ifanc 26 oed oedd Syr Ifan yr adeg honno, ac yr oedd ei swyddfa yn y Neuadd Wen, Llanuwchllyn, cartref a adeiladodd ei dad, Syr O. M. Edwards, y Cymro mawr a sylfaenydd *Cymru'r Plant* a gychwynnodd y deffroad cenedlaethol yng Nghymru. Rhoddais bedair cyfrol o rifynnau *Cymru'r Plant* o'r dauddegau i Ysgol Gynradd Llanrug. O edrych ar enwau'r aelodau ynddynt gwelir enwau rhai ddaeth yn amlwg iawn ym mywyd gwleidyddol a chymdeithasol Cymru.

* * * *

Mae Mrs G. M. Jones yn cofio hefyd nifer o'r adroddiadau a chaneuon a ddysgent fel aelodau. Dyma un esiampl gan Marian Williams, Treuddun, neu Mrs W. G. Lloyd, Penrhosgarnedd, yn ddiweddarach. Dywed Mrs Jones mai hi oedd cadfridog cyntaf yr Urdd a'i bod wedi ysgrifennu nifer o ddramâu, rhigymau a straeon i *Cymru'r Plant*.

CLADDEDIGAETH DIC SION DAFYDD

A mi un dydd yn mynd am dro
Trwy fro yng Nghymru dirion.
Canfyddais gladdedigaeth mawr
Yn dyfod ar ei hunion
Yn gyflym tua'r fynwent oer,
A gwelwn er fy syndod
Fod pawb yn llawen iawn eu gwedd
Wrth deithio tua'r beddrod.

Tu ôl i'r arch diaddurn, gwael,
Saith gant o blant bach gerddent
Mewn gwisgoedd melyn, coch a gwyn
Anghymwys iawn i fynwent;
A gwelwn ar eu mynwes hwy
Fathodynau bychain, tlysion,
Yn dangos mai plant bach oedd rhain
O wlad y menyg gwynion.

Pa beth a wnaent? medd pawb o'r bron
Wel, claddu Dic Sion Dafydd,
Ac ar yr arch 'sgrifennwyd hyn:
'A'r wlad a gafodd lonydd';
Wel, dyma'r rhai sy'n ymladd nawr
Dros iawn a hawlfraint Cymru
I gadw y Gymraeg yn fyw
A gwneud i'r estron grynu.

Ac yn Urdd Gobaith Cymru fach
Y maent oll yn aelodau,
A rhaid i'r estron fynd cyn hir
O Walia nerth eu sodlau.
O! tyred dithau, gwna dy ran
Ymuna nawr â'r fyddin,
Rhag iti fel Dic Sion Dafydd gael
Rai wrth dy fedd yn chwerthin.

Oes rhywun arall yn cofio am ddyddiau cynnar yr Urdd yn Llanrug?

Er Cof am Catrin, Coed Bolyn, Bethel, a fu farw 31 Mai, 1995, yn 18 mis oed

CATRIN

Caled yw brath y colyn — y galar
I galon Coed Bolyn.
Su'r awel trwy'r cnwd melyn
Un yw hi â'r erwau hyn.

Richard Llwyd Jones

COFIO YVONNE

Ym mis Mehefin 1992, bu hanes Yvonne, merch Gwyn Aerau a Flo Jones, Afallon, Pontllyfni yn *Eco'r Wyddfa* yn dilyn ei marwolaeth yn 33 oed wedi gwaeledd maith. Er ei bod yn hanu o Bontllyfni mae teulu iddi yn byw yn Llanrug a llawer o ffrindiau i'w thad yn byw yn ardal Llanberis. Mae llawer o'r nyrsus fu'n gofalu amdani hefyd yn dod o ardal Bethel a'r cylch. Rhiannon Pritchard-Jones o Bontllyfni a gyfansoddodd y soned ganlynol er cof amdani:

Pan gofiwn eto ddydd ei cholli hi —
Yvonne — anwylaf un o blant y fro,
A phawb yn gofyn pam a'r dagrau'n lli
Wrth sefyll yn yr heulwen ger y gro —
Bydd ei llawenydd gynt yn ysgafnhau
Ein gofid ni, a bydd ei haelwyd brudd
Yn ymfalchïo, er ei bywyd brau,
Gan gymaint ei hanwylder nos a dydd;
Mae'r eneth siriol eto'n fyw i ni,
A'i dewrder distaw dan ei heithaf groes
Yn ennyn parch, fel er ei 'madael hi
Nid y'm yn llwyr amddifad yn ein loes;
Fe ddaw gorfoledd wrth ei dwyn i go'
Sy'n falm i wewyr hiraeth Gwyn a Flo.

OCSIWN LWYDDIANNUS

Cynhaliwyd Ocsiwn Addewidion lwyddiannus yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, ar nos Wener, 23 Mehefin. Cafwyd noson lawn o hwyl wrth gynnig a phrynu, ac yr oedd yr 'Arwerthwr', Dewi Rhys, yn llywio'r Ocsiwn yn ddeheuig a hwyliog. Gwnaed dros £700 o elw at gronfa'r ysgol.

Roedd rhai eitemau a ddangoswyd yn y Catalog heb eu gwerthu ar y noson. Mae croeso i unrhyw un roi cynnig am yr eitemau hynny sydd dros ben. Am ragor o fanylion, cysylltwch â John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (01286) 872390.

CARNIFAL LLANBERIS

Mae pwyllgor Carnifal Llanberis wedi trefnu wythnos o weithgareddau eleni eto o nos Sul, 9 Gorffennaf hyd nos Sadwrn, 15 Gorffennaf.

Cynhelir **NOSON O GÂN** yng Nghapel Coch, nos Sul, 9 Gorffennaf am 7.30 o'r gloch. Arweinydd y noson fydd **Arwel Jones** ac Arweinydd y Gân fydd **Elwyn Wilson Jones**. Cymerir rhan gan **Côr Meibion Dyffryn Ardudwy** a **Rosalind a Myrddin.**

Nos Lun: **WHIST a PŴL.**
Nos Fawrth: **MABOLGAMPAU.**
Nos Fercher: **DARTIAU a DISGO'R PLANT.**
Nos Iau: **PÊL-DROED.**
Nos Wener: **BINGO.**

Bydd y **CARNIFAL** ei hun ar **ddydd Sadwrn, 15 Gorffennaf.** Cychwynnir yr orymdaith am 1 o'r gloch, ac agorir y Carnifal gan Mari Rowland Hughes.

DIOLCHIADAU

Dymuna Ken a Mair Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis, ddiolch am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd Alice a Dean ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Dymuna Nia Griffith ddiolch o galon am y llu o gardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei llwyddiant mewn arholiad meddygol yn ddiweddar.

DRAENOG

Do, fe aeth yn ddu arno yn Black-pool. Wedi mynd yno efo trip o Ddeiniolen yr oedd o. 'TYD FI Lecio'r sbectol 'ma,' medda fo, gan brynu sbectol wirion efo dau dwll bychan lle dylai'r gwydrau fod. Gwisgodd y sbectol ar ganol y stryd . . . a fedra fo weld dim. Cyn dechrau arfer â chraffu trwyddi . . . fe faglodd a syrthio ar ei hyd ar y palmant! 'Does wybod beth feddyliai'r ddau ddyn clên a'i cododd ar ei draed ohono. Dyn yn ei oed a'i amser yn gwisgo sbectol clown ar ganol stryd! Ma'n dda gen i ddeud na chafodd anaf drwg . . . ond gwylied na fydd chwarae'n troi'n chwerw y tro nesaf. (Gyda llaw, Mr Jones, methu dallt rydw i sut roeddech yn gobeithio gweld trwy sbectol mor wirion, a chithau . . . yn ôl pob sôn . . . yn methu gweld ceir y tu ôl i chi efo'ch sbectol eich hun!)

Lake View Hotel
LLANBERIS
870422
Prydau Arbennig ar gyfer partïon
Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer dathliadau o bob math.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Llyfrau at ddant pawb . . .

Yn ystod y cyfnod hwn o'r flwyddyn fe gyhoeddir toreth o lyfrau newydd i'w harddangos, a'u prynu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyn i ni dderbyn copïau i'w hadolygu o'r cyfrolau newydd hyn fe soniwn ychydig am y dair cyfrol a anfonwyd atom yn ddiweddar, *Glaw ar Rosyn Awst; Nesa' i Adrodd;* a *Cerdded Gwynedd.*

Y fwyaf swmpus o'r cyfrolau yw hunangofiant Alan Llwyd *Glaw ar Rosyn Awst* a gyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd (Cyfres y Cewri). Does dim angen bod yn fardd na hyd yn oed wybod llawer am farddoniaeth i allu gwerthfawrogi'r gyfrol hon. Dywed Alan Llwyn yn ei Ragair i'r gyfrol: 'Mae hunangofiant yn wahoddiad agored i ddieithriaid i ddod i mewn i dŷ'r awdur, a byw gydag o, ac ymhlith ei deulu. Tŷ heb lenni ar y ffenestri ydi hunangofiant, ac mae pawb ohonom yn hoff o



warchod ein preifatrwydd.' Faint bynnag o warchod a wnaeth yr awdur ar y preifatrwydd hwnnw fe ganiataodd i ddarllenwyr y gyfrol fynediad i'r tŷ. Mae gonestrwydd amlwg yn y gyfrol o'r dechrau. Rhoir sylw amlwg yn y gyfrol i'w yrfa fel bardd a beirniad llenyddol, cyhoeddwr a sgwennwr sgriptiau, a cheir hanes ambell ddadl a ffrae y bu Alan Llwyd yn ei chanol fel bardd a beirniad dros y blynyddoedd. Mae'n egluro'i resymau dros gefnu i raddau helaeth ar lenydda a chyhoeddi a chychwyn sgwennu ar gyfer teledu a ffilm. Mae saga'r bardd ffug Meilir Emrys Owen a greodd er mwyn cael llonydd i farddoni heb ofni beirniadaeth annheg yn arbennig o ddiddorol. Ond tybed nad cryfder mwyaf y gyfrol yw'r cipolwg a roddir ar bethau mwy personol yn ymwneud â meddwl yr awdur o'i deulu a'i gyfeillion. O gofio bod yr awdur wedi gwneud ei fywoliaeth ers blynyddoedd wrth drin geiriau, nid oes angen dweud bod y gyfrol yn darllen yn rhwydd iawn. Os na chawsoch olwg arni eisoes, ewch ati i'w darllen. (Cyhoeddwyr: Gwasg Gwynedd. Pris £9.50.)

* * * *

Mae cyfrol boblogaidd o waith un o golofnwyr rheolaidd *Eco'r Wyddfa* wedi cael ei hailargraffu yn ddiweddar. Aeth deng mlynedd heibio ers cyhoeddi *Nesa' i Adrodd* . . . gan Selwyn Griffith. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n siŵr bod



cannoedd o blant, o Fôn i Fynwy, mewn eisteddfod bentref a'r Genedlaethol, wedi adrodd rhai o'r darnau a gafwyd yn y gyfrol hon.

Mae cyfrolau Selwyn Griffith o ddarnau adrodd i blant wedi cael croeso mawr gan drefnwyr eisteddfodau ers blynyddoedd lawer ac mae'n amlwb y bydd ailagraffu *Nesa' i Adrodd* . . . yn cael croeso brwd.

Prynwch y gyfrol a mwynhewch eto ddarnau fel Nefi Blŵ, Y Wobr Gyntaf, Dipyn o Bry', Plismon Tew Llanberis, a Mewn Awyren. Byddwch yn siŵr o gofio clywed ambell blentyn yn adrodd rhai o'r darnau wrth i chi eu darllen. (Cyhoeddwyr: Gwasg Pantycelyn. Pris: £3).

Bydd cyfrol arall o waith Selwyn yn ymddangos o'r wasg yn reit fuan, sef . . . *A Dyma'r Ola'* . . . Tybed? Fel y dywedai Ifans ers talwm 'Sgersli Bilif'! (Cyhoeddwyr: Gwasg Gwynedd. Pris: £3.50).

* * * *

Os bydd arnoch awydd mynd am dro yr haf yma, beth am ddilyn un o'r teithiau a geir yn y gyfrol *Cerdded Gwynedd* gan Dewi Tomos. Mae deuddeg o deithiau yn y gyfrol ac amryw ohonynt yn deithiau ym mro'r *Eco.* Diolch am ganiatâd y cyhoeddwyr i ad-gynhyrchu rhan o'r daith 'Ar Lethrau'r Wyddfa'. Mwynhewch y darllen . . . a'r cerdded.



Hyd: 5.25 milltir. Dringo: 1100 troedfedd. Amser: 3 awr. Ansawdd: llwybr hawdd ei ddilyn, garw a serth



mewn mannau. Man cychwyn: SH648557. Maes parcio: Pen-y-pass (Gorffwysfa).

Taith bleserus, heb orfod dringo gormod na dychwelyd yr un ffordd, yw'r un i fyny Llwybr y Mwynwyr at Lyn Glaslyn ac yna i lawr Llwybr y Pyg. Wrth i ni gychwyn ar fore o Ragfyr roedd digon o geir yn y maes parcio gyferbyn â Hostel Ieuenctid Pen-y-pass, hen westy Gorffwysfa yn nyddiau Tywysyddion Eryri.

Caf bleser o ddod yma ganol haf hefyd i chwilio am blanhigion y mynydd-dir yn eu blodau. Dibynna yr amrywiaeth llystyfiant i raddau helaeth ar natur y creigiau ac effeithiau Oes yr Iâ arnynt. Rheioleit a welir gyntaf wrth gychwyn i fyny'r llwybr o'r maes parcio gyferbyn â Gorffwysfa — craig galed, focanig na ychwanegodd fawr o faeth i'r pridd. Wedyn down at garreg piwmis, sy'n feddalach ac yn rhoi mwy o faeth, gan gynnwys calch, i'r pridd, ac felly yn cynnal gwell amrywiaeth o blanhigion. Cawnen ddu sy'n tyfu fynychaf ar y rheioleit, tra ceir peiswellt a maeswellt, sydd fwy at ddant y defaid, ar y piwmis . . .

. . . Fe welwch ddigon o goed wrth syllu i lawr Nant Gwynant i gyfeiriad Beddgelert, ond welwch chi fawr yma. Oherwydd gerwinder y tywydd a phori a throedio cyson y defaid a'r geifr, does fawr o goed bellach uwchlaw 250 metr; ond dengys tystiolaeth y paill o'r mawn inni fod coed i'w cael hyd at 600 metr mewn cyfnod cynhesach yn dilyn Oes yr Iâ.

Wrth nesu at Lyn Llydaw fe gerddwch yn gyfochrog â'r bibell ddŵr newydd sbon danlli sy'n nadreddu tua gorsaf drydan Cwm Dyli. Beth yw eich barn amdani? A ddylid bod wedi ei chladdu? A ellir cuddio'r graith? Cofiwch, efallai mai cael mwy o orsafoedd trydan bychan fel hon yw rhan o'r ateb i broblem cyflenwi ynni rhagor nac ynni niwclear — neu orsafoedd sy'n llosgi glo neu olew ac arllwys gwenwyn i'r amgylchedd.

Welais i mo lefel y dŵr cyn ised yn Llyn Llydaw ers tro byd, roedd llathenni o dir sych rhwng y cob a'r llyn. Cawsom ein cinio ar yr ochr draw, cyn i'r haul ddiflannu tu cefn i Lliwedd ac i'r oerfel ddechrau gwasgu.

Mentrodd ambell wylan atom i fegera, ond crawcian o'r uchelderau wnai'r gigfran. Fedrwch chi ddychmygu prysurdeb y gwaith copr ganrif yn ôl, ger pen pella'r llyn? Mae digon o dystiolaeth o'r garreg cwarts wen yma, a dilyn haenau hon fyddai'r mwynwyr i chwilio am y copr. Tu draw iddo y dechreua'r dringo o ddifrif os am gyrraedd copa'r Wyddfa . . .

. . . Wedi cyrraedd Bwlch y Moch edrychwch yn ôl i weld pedol yr Wyddfa yn ei gogoniant o Allt y Wenallt i Lliwedd, Yr Wyddfa, Crib y Ddysgl a Chrib Goch uwch ein pen. Dyna i chwi lwybr ar ddannedd y graig sydd dros y Grib Goch, mae rhai yn rhedeg drosti, coeliwch neu beidio!

Byddwn yn y cysgod o hyn i ddiwedd y daith, yn wir ychydig iawn o haul a wêl yr ochr yma i'r dyffryn i lawr i Nant Peris dros fisoedd y gaeaf. Roedd hi'n dawel iawn y prynhawn hwn, y tawch yn cynyddu, tomenydd Elidir fel crwbanod enfawr, er efallai bod yna amryw o ddringwyr yn crafangu ar greigiau'r Glyder Fawr o gwmpas Pont y Gromlech.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r maes parcio diflannodd y copaon i'r tawch, gan guddio'r cyfrinachau ein gorffennol pell. Wyddoch chi o ble daeth enw'r Wyddfa?

Un noson dechreuodd dau o frenhinoedd Prydain, Nynio a Pheibio . . . . . OS AM WYBOD MWY — PRYNWCH Y LLYFR!! (Cyhoeddwyr: Gwasg Carreg Gwalch. Pris: £3.75)

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau a benchyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen, gyda stamp a chyfeiriad arno, i'r Ysgifennydd:

John H. Hughes,
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn
Awst 31ain 1995

NI YSTYRIR UNRHYW GAIS A DDAW I LAW AR ÔL Y DYDDIAD CAU PENODEDIG

atom

Rhifyn 8 1995

Tonfedd
Gwledd o Wyddoniaeth
yng nghwmni Dafydd
Meredydd ac Ein a Stein

RADIO CYMRU

Ail gyfres yn
Cychwyn am 5.30
Dydd Sul Mawrth
5ed ac
ail - ddarllediad
pob Dydd Iau am 6

COMED YN BWRW IAU

Ar noson y 24ain o Fawrth 1993 roedd Carolyn ac Eugene Shoemaker a'u cydweithiwr David Levy wrthi'n chwilio am gomedau, fel a wnaent yn aml, gan ddefnyddio'r telesgop 0.46 metr yn arsyllfa Palomar, California, cartref y telesgop 100 modfedd enwog a ddefnyddiodd Hubble i brofi bod y Bydasawd yn ehangu. Ond, edrych am gomedau o fewn ein cornel fach ni o'r Bydysawd oedd y tri yma, comedau a oedd yn dod yn agos i'r Haul. Roedd y tri wedi darganfod nifer o gomedau o'r blaen, ond dim byd i'w gymharu a'r darganfyddiad oedd i'w wneud y noson honno.

Gwrthrych anghyffredin

Wrth ddadansoddi un o'r nifer o luniau a gymerwyd y noson honno, sylwodd Carolyn Shoemaker ar rhywbeth na welodd erioed o'r blaen, delwedd a oedd yn ymddangos fel nifer o gomedau mewn llinell hir. Erbyn diwedd yr wythnos honno roedd newyddion y gwrthrych anghyffredin hwn wedi cyrraedd pob comed-wyliwr, ac roedd nifer ohonynt eisoes yn ceisio cael llun mwy manwl o'r peth. Cymerwyd y llun cyntaf gan Wieslaw Wisniewski ar yr 28ain o Fawrth, dim ond 4 noson ar ôl y darganfyddiad gwreiddiol. Defnyddiodd delesgop 2.3 medr yn arsyllfa Kitt Peak, yn Arizona, gyda chamera electronig i gasglu a recordio'r ddelwedd. Yn dilyn y llun cynnar hwn cafodd y comed ei ffugenw 'rhes o berlau' gan fod iddo o leiaf 12 o niwclysau. Erbyn y 1af o Orffennaf 1993, roedd llun o'r Telesgop Gofod yn dangos yn glir bresenoldeb o leiaf 15 o niwclysau yn y 'rhes o berlau'. Roedd hi'n amlwg o'r lluniau hyn bod y seryddwyr wedi gweld rhywbeth arbennig iawn, y broblem oedd ceisio'i ddeall!

Ym mis Mai 1993 cyfrifodd Brian Marsden, sy'n gweithio i'r Undeb Seryddiaethol Rhyngwladol (*International Astronomical Union, IAU*) bod y comed wedi dod o fewn 50,000 km i'r blaned Iau ar yr 8ed o Orffennaf 1992. Mae hyn yn agos iawn, rhyw 400,000 km yw'n Lleuad ni oddiwrthom, ac anaml iawn y daw unrhywbeth o faint sylweddol rhygnom. Ond, yn fwy trawiadol byth, dangosodd ei gyfrifiadau y buasai'r comed yn bwrw'r blaned ar ei orbit nesaf, rhywbryd tua diwedd mis Gorffennaf 1994. Esboniodd y cyfrifiadau hefyd olwg anghyffredin y gomed. Roedd grym disgyrchiant y blaned enfawr wedi rhwygo'r comed yn ddarnau pan aeth heibio mor agos y flwyddyn cynt.

Wrth i fis Gorffennaf 1994 agosau roedd dyddiadau'r gwrthdrawiadau yn cael eu darogan yn fwy cywir. Erbyn dechrau'r flwyddyn roedd 21 o ddarnau o'r gomed i'w gweld, a disgwyliwyd i'r cyntaf fwrw Iau ar y 16eg o Orffennaf, a'r darn olaf ar yr 22ain. Er bod craterau ar nifer o'r planedau a'r lleuadau yng nghysawd yr Haul yn tystiolaethu i wrthdrawiadau o'r fath gan gomedau ag asteroidau yn y gorffennol, dyma oedd y tro cyntaf mewn hanes dynol i 'r fath beth yn digwydd. Er nad oedd neb yn siwr a fyddem yn medru gweld effaith y gwrthdrawiadau, roedd y ffaith y buasem yn

trowch i dudalen 8.....

Llun o'r blaned Iau dim ond awr a thri chwarter wedi'r gwrthdrawiad mwyaf. Os am weld hwn mewn lliw yna gweler rhifyn 3 o'r cylchgrawn *Delta*.

TEULU MAWR

Hobi sydd ar gynnydd mawr y dyddiau yma yw hel achau. Os buoch chi wrthi, fe wyddoch gymaint mwy anodd yr â'r gwaith wrth fynd ymhellach ac ymhellach yn ôl i'r gorffennol, nid yn unig am fod ffynonellau ymchwil yn brin ond hefyd am fod nifer ein hynafiaid yn dyblu ym mhob cenhedlaeth. Mae gan un plentyn ddau riant, pedwar taid a nain, wyth hen daid a hen nain, ac yn y blaen.

Wnaethoch chi erioed aros i feddwl cymaint o hynafiaid oedd gennych chi'n byw tua mil o flynyddoedd yn ôl? Mae'r sym yn hawdd. Os yw'r gwahaniaeth oedran rhwng dwy genhedlaeth yn 30 mlynedd, dros fil o flynyddoedd mae 1,000/ 30 o genedlaethau, sef tua 33 cenhedlaeth, wedi mynd heibio.

Os lluoswn 2 efo'i hun 33 o weithiau, i gynrychioli dyblu'r nifer efo pob cenhedlaeth, h.y. 2^{33}, cawn yr ateb:

2^{33} = 8,000,000,000 (8 mil o filiynau), yn fras

Os cymerwn 25 mlynedd yn wahaniaeth oedran rhwng y cenedlaethau, dyna ichi 40 o genedlaethau mewn mil o flynyddoedd:

2^{40} = 1,000,000,000,000 (10^{12}), yn fras.

Bobol bach - miliwn miliwn!

Gan fod hyn yn llawer iawn mwy na phoblogaeth y rhan fach yma o'r byd heddiw heb sôn am fil o flynyddoedd yn ôl, mae'n dilyn ein bod ni i gyd yn perthyn i'n gilydd sawl gwaith drosodd. Mae ambell un yn ymfalchio yn ei berthynas â Llywelyn Fawr, Hywel Dda neu Gunedda hyd yn oed. Y tebygrwydd yw ein bod ni i gyd yn disgyn oddi wrthynt. Yr unig wahaniaeth rhwng yr achyddwr a'r gweddill ohonom ydi ei fod o'n medru profi'r peth.

Pan soniodd George Thomas amdanom fel "un teulu" yn y chwedegau efallai ei fod yn llygad ei le - beth bynnag yw'ch barn am ei wleidyddiaeth!

[GWAWR JONES]

PLWM YN YR IÂ

Dim peth diweddar yw llygredd yn yr atmosffer! Mae'r gromen iâ yn yr Ynys Werdd (ac Antarctica) yn cadw cofnod o gyflwr yr atmosffer dros gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Wedi cloddio ffon o iâ hyd at 3 km o ddyfnder allan o'r gromen, gall gwyddonwyr ddirnad beth oedd yn yr eira a ddisgynnodd ar yr Ynys Werdd yn y gorffennol. Yn awr bu grwp o brifysgol Grenoble yn mesur faint o blwm sydd yn yr iâ - a chanfod fod y cyfnod rhwng 500 CC a 300 OC yn cynnwys pedair gwaith mwy o blwm na'r lefelau naturiol. Yn oes y Groegiaid a'r Rhufeiniaid arferid rhyddhau plwm o'r mwyn *galena* drwy ei rostio, gan ollwng cyfran ohono i'r awyr. Defnyddid y plwm i bob math o berwyl - i ddal dŵr, i wneud toi ac hyd yn oed i felysu bwyd a gwin! Dim rhyfedd i'r ymherodraeth Rufeinig ddod i ben!

Disgynnodd cyfran y plwm yn yr iâ i'w lefel naturiol wedi 500 OC, gan gynyddu eto yn y Canol Oesoedd. Ond rhag i ni deimlo'n rhy anesmwyth am esgeulustod ein cyndadau gwell cofio fod cyfran y plwm yn yr iâ yn niwedd y ganrif hon gannoedd o weithiau uwchlaw'r cyfran naturiol - yn deillio o'r defnydd o blwm mewn petrol i warchod peiriannau car. Er mor anghysbell yw'r cromenni iâ ni fedrant ddianc rhag dwylo dyn: peth byd-eang yw llygredd.

[GERAINT VAUGHAN]

GWYDDONIAETH AR Y TONFEDDI RADIO



Dafydd Meredydd, cyflwynydd *Tonfedd*

Cyflwyno pynciau a syniadau gwyddonol mewn ffordd boblogaidd i gynulleidfa eang o wrandawyr Radio Cymru yw nod y gyfres *Tonfedd*, a ddychwelodd i'r tonfeddi radio am ail gyfres ar Dydd Sul, Mawrth 5 am 5.30pm.

"Mae hi'n anelu at fod yn rhaglen adloniant yn hytrach na gwers ar wyddoniaeth," meddai Dafydd Meredydd, cyflwynydd a chynhyrchydd *Tonfedd*. "Yn anffodus mae rhaglen wyddonol yn gwneud i bobol feddwl yn syth am *test tubes* a gwersi Cemeg yn yr ysgol. Ond ein nod ni ydy chwilio am eitemau anghyffredin a difyr am bob maes gwyddonol dan haul, gyda straeon am wyddonwyr 'eccentric', sgetsus, eitemau yn egluro syniadau gwyddonol mewn ffordd syml, a sgyrsiau gyda gwyddonwyr Cymraeg sydd wedi teithio i bedwar ban byd gyda'u gwaith."

Wedi graddio mewn Ffiseg y Planedau a'r Gofod, yn sicr mae gan Dafydd Meredydd y cymwysterau gwyddonol i fod yn dipyn o awdurdod yn y maes, ond mae'n prysuro i egluro na fydd y rhaglen yn edrych yn unllygeidiog ar wyddoniaeth, ond yn taflu'r rhwyd yn eang i gynnwys popeth o fioleg i seryddiaeth.

Dros chwe wythnos y gyfres bydd *Tonfedd* yn teithio Cymru i chwilio am bynciau cyfoes o'r byd gwyddonol fel gwaith embryoleg mewn '*spermbank*' yng Nghaerdydd a'r melinau gwynt dadleuol sy'n cael eu codi yng nghefn gwlad. Mae'r gyfres hefyd yn croesawu nal y ddau gymeriad bach ffraeth Ein a Stein (Gwyn Vaughan a Richard Elfyn), yn cyflwyno bwletin newyddion ar wyddoniaeth, ac yn gwahodd Sioned Humphreys o Goleg Bryste i olrhain hanes gwyddoniaeth o'r dechreuad yn Oes y Cerrig hyd at heddiw. Bydd hefyd gwesteion wythnosol ac eitemau difyr ar gerddoriaeth a mathemateg ynghyd ag eglurhad o'r gwyddoniaeth sy'n mynd i wneud diodydd alcoholig.

***Tonfedd*, Radio Cymru, 5.30pm ar Nos Sul (ail-ddarllediad, Nos Iau, 6pm).**

GOLYGYDDOL

Mae'r papurau Dydd Sul a'r cylchgronnau yn llawn ohonno y dyddiau hyn. Mae'r *Internet* ym mhobman! Bu ffrwydriad aruthrol yn y defnydd o'r rhwydwaith cyfrifiadurol hwn yn y flwyddyn ddiwethaf.

I lawer o bobl rhyw focsus tebyg y setiau teledu efo allweddell tebyg i deipiadur o'i flaen yw cyfrifiadur. Prosesu geiriau, ac yna argraffu'r campwaith ar beiriant bach cyfleus, a wna'r rhan fwyaf o bobl arno. Defnyddia eraill raglenni sy'n storio gwybodaeth neu gadw a thrin cofnodion ariannol. Ceir hefyd raglenni sy'n galluogi'r artist gwaelaf gynhyrchu diagram neu ddarlun gweddol barchus yn rhwydd. Mae cyfrifiaduron sy'n medru gwneud y cyfan yn weddol rhad, ac bellch yn weithredol fel terfynellau i gyfrifiiaduron mawr canolog.

Yn anterth y rhyfel oer roedd gwyddonwyr gwasanaeth amddiffyn yr Unol Daleithiau wedi sylweddoli y byddai cael system gyfathrebu na fedrai gelyn ei distrywio yn fanteisiol. Ddatblygwyd rhwydwaith o wifrau o gwmpas y wlad yn cysylltu pob cyfrifiadur yn eu system. Y syniad sylfaenol oedd bod un cyfrifiadur yn medru paratoi 'pecyn' o wybodaeth i'w yrru i gyfrifiadur arall, dros y rhwydwaith ac y gallai'r 'pecyn' hwnnw deithio mewn unrhyw gyfeiriad. Byddai'r cyfrifiadur y bwriadwyd y neges ar ei gyfer yn medru adnabod y 'pecyn' o wybodaeth. Doedd dim gwahaniaeth felly pebai rhan o'r rhwydwaith yn diflannu gan y gallai'r neges ddeithio drwy ran arall ohonno. Sefydlwyd nifer o reolau sylfaenol ar gyfer gyrru a derbyn negeseuon o'r fath. Dyma sylfaen y rheolau a ddefnyddir heddiw ar gyfer gyrru negeseuon ar yr *Internet*.

Buan yu tyfodd y rhwydwaith i gynnwys prifysgolion a chanolfannau ymchwil, a bu datblygiadau tebyg yn Ewrop, ac yn y diwedd ym mhob rhan o'r byd. Daeth y cyfrifiaduron 'canolog' mewn sefydliadau yn bwyntiau cysylltu â'r rhwydwaith. Bellach gall unrhyw ddefnyddiwr PC cyffredin gysylltu unai drwy linell deleffon neu gysylltiad rhwydwaith lleol â phrif gyfrifiadur ac felly ag unrhyw ddefnyddiwr arall ar y rhwydwaith. Daeth cyfrifiaduron masnachol a llywodraethol hefyd yn rhan o'r rhwydwaith. Daeth y neges electronig, neu'r *E-mail*, yn rhan bob dydd o fywyd miliynau o bobl.

Cedwir llawer iawn o wybodaeth ar gyfrifiaduron ledled y byd, a defnyddir rhaglenni arbennig ar y cyfrifiaduron i grwydro o gwmpas y rhwydwaith yn chwilio am wybodaeth. Gallwn ddarllen llyfrau ffôn; Holi amseroedd trenau neu fysus; Gweld lluniau lloeren dywydd neu edrych ar lyfrgell lluniau anferth NASA.

Bellach mae swm anhygoel o wybodaeth ar gael dros y rhwydwaith. Mae rhai'n cam-ddefnyddio'r cyfrwng drwy ddosbarthu pethau lled-bornograffig arno. Nid yw'r ffaith fod *Playboy* a *Mayfair* yn rhannu'r un cyfrwng a'r *New Scientist* neu'r *New Statesman* yn golygu fod y cylchgronnau safonol ddim mymryn gwaeth o'r herwydd. Dyma gyfrwng cyfathrebu'r dyfodol. Mae'r Cymry'n brysur ddod i'w ddefnyddio gyda cyswllt rheolaidd rhwng pobl sydd â diddordeb yn y diwylliant Cymraeg a Chymreig yn gysylltu drosto. Mae'r cylchgrawn gwyddoniaeth a thechnoleg *Delta* hefyd ar gael i'w ddarllen ar y rhwydwaith. Os ydych am wybod rhagor am hyn, yn ogystal a llawer iawn o bethau diddorol erail, yna mynnwch gopi o'r rhifyn diweddaraf o *Delta*.

[IOLO AP GWYNN]



Llun pelydr--X o gorff dyn a ddienyddiwyd yn yr UDA, sydd ar gael mewn lliw dros y rhwydwaith. Ei ddymuniad oedd i'w gorff gael ei ddefnyddio ar gyfer meddygaeth. Cafodd ei anfarwoli ar yr Internet.

Ein seren leol - Yr Haul

O'r holl sêr sydd yn y gofod y pwysicaf, heb os, i ni yw ein seren leol - Yr Haul. Dyma ein ffynhonnell egni.

Pelen anferth o nwyon yw'r Haul. Mae ei fàs yn fwy na 300,000 màs y Ddaear, a'i gyfaint dros filiwn gwaith cyfaint y Ddaear. Cymaint yw ei bellter o'r Ddaear, (150 miliwn kilometr neu 93 miliwn milltir) fel bod golau yn cymryd 8.3 munud i deithio drwy'r gofod o wyneb yr Haul i'r Ddaear. Mae'r tymheredd ar ei arwyneb tua 6000°C.

Ymasiad niwclear yng nghraidd yr Haul sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r holl egni. Yn ystod y broses una niwclysau bychain gyda'i gilydd. Mae gan gynnyrch yr ymasiad fàs llai na'r gronynnau gwreiddiol. Caiff y màs a 'gollir' ei drawsffurfio i egni, lle rhoddir yr egni a ryddheir gan berthynas adnabyddus Einstein $E=mc^2$. Fodd bynnag, wedi i'r egni gael ei ryddhau cymer tua 200,000 o flynyddoedd iddo i dreiddio o'r craidd i arwyneb yr Haul. Felly cynhyrchwyd yr egni a welwn ar hyn o bryd yng nghraidd yr Haul tua dau gan mil o flynyddoedd yn ôl!

Weithiau gwelir brychau tywyll ar arwyneb yr Haul. Ymddangosant yn dywyll gan fod eu tymheredd yn is na gweddill yr arwyneb. Cawsant eu darganfod gan Galileo tua 1613. Yn y ganrif ddiwethaf sylwodd Heinrich Schwabe, seryddwr o'r Almaen, fod nifer y brychau yn amrywio'n rheolaidd. Byddai tua 11 mlynedd rhwng dau facsimwm yn nifer y brychau neu rhwng dau finimwm. Ers yr adeg yma gwelwyd fod cyfnod y cylchred yn rheolaidd dros ben. Fodd bynnag, awgryma gwybodaeth o gyfnod cynharach nad oedd llawer o frychau o tua 1645 i 1715, blynyddoedd sy'n cyfateb yn fras i gyfnod oer iawn ar y Ddaear.

[ELERI PRYSE]

YR HEN GAR 'NA ETO - ER GWELL NEU ER GWAETH?

Ar ddiwedd bob blwyddyn mae'r cyfryngau'n ymborthi ar lu o ystadegau sy'n dangos hyn a'r llall ynglŷn a'r flwyddyn a aeth heibio. Cawn wybod sut flwyddyn mae wedi bod ar ein masnachwyr, y nifer o farwolaethau o bob math o ganser, a sut mae'n hamgylchfyd wedi effeithio ar safon ein bodolaeth ni, ac yn y blaen. Yn ddiweddar mae'r hen gar wedi dod o dan lach y 'gwyrdd' yn ein plith, oherwydd y mochyndra mae'n allyru i'r awyrgylch. Mae'r car hefyd yn arf go gryf yn nwylo'r anghyfrifol.

Ystadegau noeth

Wrth gymryd ystadegau noeth fel y rhai ar ddiwedd 1993 fe allech weld fod 3,814 o bobl wedi cael eu lladd ar ein heolydd ym Mhrydain yn ystod y flwyddyn. Wrth gwrs roedd pob un o rhain yn un yn ormod, ond pan gysylltir y ffigurau a'r ffaith fod 25 miliwn o gerbydau ar ein heolydd erbyn hyn mae'n rhoi pethau yn eu cyd-destun. Yn wir ym 1926 pan oedd dim ond 1.7 miliwn o gerbydau ar ein heolydd cafodd 4,886 o bobl eu lladd y flwyddyn honno'n unig. Felly gwella mae pethau, ac yn rhoi ychydig o hygrededd i'r cwmniau cynhyrchu sydd erbyn hyn yn amlygu diogelwch fel cyfrwng i werthu rhagor o geir. Ar wahan i wella safon dyluniad a gwneuthuriad y ceir, dylid talu teyrnged hefyd i dechnoleg cynhyrchu gwell safon o heolydd.

Dim ond edrych ar adeiladwaith y bont newydd dros yr Afon Nedd yn Llansawel, sy'n cario'r draffordd M4 erbyn hyn yn ddi-dor o Bont Abraham i Lundain, gellir gwerthfawrogi'r grefft. I rai ohonom sy'n cofio r hen A40 o Abergwaun i Lundain, yna rhaid canmol a rhoddi clod i dechnoleg y peirianyddion sifil sydd wedi hwyluso'n teithio, er gwell neu er gwaeth.

Dewis rhwng peiriant *Diesel* neu betrol

Tebyg iawn fod y rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol erbyn hyn am gyfraniad y car i'r 'effaith tŷ gwydr', ond yr ydym yn dal i fod mewn cyfyng gyngor ynglŷn â dewis y tanwydd fyddai'n effeithio leiaf ar yr amgylchfyd. Yn gyntaf mae'n rhaid dewis rhwng peiriant *Diesel* neu betrol, a gyda'r peiriant petrol mae'n rhaid dewis rhwng petrol gyda chynhyrchion plwm wedi eu hychwanegu, neu'r petrol di-blwm sy'n cynnwys mwy o bensen. Gweler beth a ddywed yr arbenigwyr annibynnol *Ricardo Consulting Engineers* yn eu hadroddiad *Automotive Diesel Engines and the Future yn y blwch ar y dde.*

Dyma'ch arf felly pan yn cael eich dallu gan y dewis ar flaendir eich modurdy lleol.

[JOHN S. DAVIES]

atom

Diesel

O blaid: Mae'n cynhyrchu llai o garbon monocsid a charbon deuocsid, nwyon sy'n cyfrannu at yr 'effaith tŷ gwydr'.

Yn erbyn: Cynhyrchir mwy o ronynnau huddygl, (sydd efallai yn cyfrannu at yr ystadegau cynyddol o ganser), a mwy o ocsidau nitrogen (cyfrannwr at law asid) na phetrol.

Y dyfodol: Gobeithir cynhyrchu peiriannau fydd yn allyrru llai o ronynnau huddygl, i gymharu'n well gyda pheiriant petrol.

Petrol

O blaid: Llai o ocsidau nitrogen, a llai o ronynnau huddygl.

Yn erbyn: Mwy o garbon deuocsid, yn enwedig os bydd catalydd yn y disbyddwr. Mae petrol di-blwm yn cynnwys tipyn o bensen sy'n cael ei amau o fod yn gynhyrchydd canser.

Ydyfodol Peiriannau mwy effeithiol a chatalyddion gwell yn y disbyddwr sy'n medru gweithio ar dymeredd is na'r rhai cyfredol.

atom

MYNNWCH EICH COPI NAWR!

DELTA

CYLCHGRAWN GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

OS NA LWYDDWCH I BRYNU COPI O *DELTA* YN EICH SIOP LEOL YNA CYSYLLTWCH Â
Richard Houdmont
Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd, CF2 4YD

Ffôn: 01222 231919 : Ffacs: 01222 230908

RHEWGELLOEDD DIOGEL

O fis Ionawr 1995 ymlaen bydd gwaharddiad llwyr ar gynhyrchu nwyon CFC. Y rhain yw'r nwyon sy'n gyfrifol am andwyo'r haen oson, ac fe'u gwaharddwyd gan Gytundeb rhyngwladol Montreal. Nwyon hollol artiffisial ydynt, a ddyfeiswyd tua thrigain mlynedd yn ôl.



Defnyddiwyd hwy'n helaeth mewn diwydiant i lanhau cylchedau trydan, i yrru cemegion o ganiau aerosol ac yn arbennig fel hylifau gweithredol rhewgelloedd ac oergelloedd. Y maent yn gwbl ddiogel i ddyn - yn wir yn rhy ddiogel! Erbyn 1975 sylweddolwyd mai dim ond mewn un ffordd y gall yr atmosffer waredu ei hunan o'r cemegion hyn. Rhaid yw aros iddynt dreiddio'u ffordd i'r stratosffer uchel, lle mae golau caled uwch-fioled yr Haul yn eu hollti, gan ollwng clorin yn rhydd. Hwn sy'n ymosod ar yr haen oson - yr haen sydd fel rheol yn ein gwarchod ni a'r CFCau rhag y pelydrau uwch-fioled.

Eisoes gwelwyd teneuo difrifol ar yr haen oson yn Antarctica bob gwanwyn (Medi - Tachwedd) oherwydd effeithiau clorin (hwn yw'r 'Twll Oson' bondigrybwyll), ac mae lle i gredu fod yr effeithiau erbyn hyn yn fyd-eang. Dyma pam yr oedd yn rhaid gwahardd CFCau - ond mae cymaint o gronfa ohonynt eisioes yn yr atmsoffer fel bydd y difrod i'r haen oson yn parhau i waethygu am oleiaf deng mlynedd, ac yna'n cymeryd tua chan mlynedd i leddfu.

Fe welwn effaith y gwaharddiad yn ein siopau trydanol. O fis Ionawr 1995 bydd yn anghyfreithlon gwerthu rhew- ac oergelloedd yn cynnwys CFCau, ac eisioes mae offer 'oson-gyfeillgar' ar werth. Nid yw'r rhain yn cynnwys CFCau fel hylif gweithredol, nac yn y deunydd ynysu gwres oddi eu hamgylch. Yn anffodus, nid oes trefniant yn y wlad hon i gasglu'r CFCau o hen rew- ac oergelloedd a'i ddifrodi'n ddiogel. Gollyngir ef i'r atmosffer wedi i'r offer gael ei daflu ar domen sbwriel - er gwaethaf addewidion y siopau trydanol i 'gael gwared o'ch hen oergell yn ofalus'. Mor wahanol yw'r drefn yn yr Almaen, lle cesglir hen rewgelloedd a thynnu'r CFCau ohonynt.

O dan gytundeb Montreal dim ond tri defnydd cyfreithlon sydd i'r CFCau bellach - mewn meddygynaethau at asthma, i raddnodi rhai offer labordy arbennig .... ac i lanhau'r Wennol Ofod!

[GERAINT VAUGHAN]

atom

Gwobrau Nobel 1994

Dyfarnwyd y wobr Gemeg i George Olah o Brifysgol De Califfornia, am ei ddarganfyddiad yn y chwedegau cynnar y gall asidau cryf ddal darnau byr-hoedlog o folecylau organig yn ddigon hir iddynt gael eu hastudio. Gweddnewidiodd hyn yr astudiaeth o gemeg hydrocarbonau. Ganwyd Olah yn Hwngari, ond ffodd i'r Amerig ym 1957 i ddianc rhag ymosodiad y Rwsiaid ar ei wlad.

Dyfarnwyd y wobr Ffiseg i Bertram Brockhouse o Brifysgol McMaster (Ontario) a Clifford Shull o'r *Massachusetts Institute of Technology*. Hwy a ddatblygodd y defnydd o wasgaru niwtronau mewn astudiaethau o grisialau - dull a ddefnyddir gan filoedd o wyddonwyr ar draws y byd erbyn heddiw.

[GERAINT VAUGHAN]

atom

Soda pobi i symud paent !



Bob rhyw Bum mlynedd bydd Llu Awyr America yn paentio'i hawyrennau. Fel pob paentiwr cydwybodol byddant yn glanhau'r hen baent cyn gosod y newydd. I symud yr hen baent arferent ddefnyddio miloedd o alwyni o dichloromethan, sy'n wenwynllyd ac yn llygru'r amgylchedd. Er mwyn osgoi cymaint o lygredd buont yn chwilio am ffordd lanach o lanhau - ac er syndod mawr canfyddasant fod cyfuniad o soda pobi (sodiwm bicarbonad) mewn jet o ddŵr yn gweithio cystal â dim arall. Mae'n driniaeth ratach o lawer na dichloromethan ac yn creu llawer llai o lygredd. Felly, beth amdani y tro nesaf i chi orfod golchi sosbenni ....?

[GERAINT VAUGHAN]

atom

Y Bydysawd yn mynd yn iau?

Hen benbleth mewn seryddiaeth yw honno o fesur pellter. Un dull a ystyrir yn ddibynnol yw defnyddio math arbennig o seren - sêr *Cepheid* - fel canhwyllau o nerth penodol. Drwy fesur faint o oleuni sy'n cyrraedd y Ddaear o seren o'r fath gellir dirnad ei phellter - pella'n y byd y bydd hi, y mwyaf egwan y goleuni. Yn awr mae telesgop gofodol Hubble wedi llwyddo i ganfod sêr o'r fath mewn galaethau cyfagos yng nghysawd *Virgo*, ac felly fesur eu pellter o alaeth y Llwybr Llaethog. Ymddengys fod y galaethau'n agosach nag a dybid cynt. Ond mae enw Edwin Hubble yn codi eto yn y stori hon - ef a ddarganfu (yn ugeiniau'r ganrif hon) fod y Bydysawd yn ehangu. Oherwydd hyn mae'r galaethau'n symud oddi wrth ei gilydd, a gellir mesur y cyflymder cymharol oherwydd fod y goleuni ddaw o alaeth pell yn gochach nag o rai cyfagos. Drwy fesur pa mor bell yw galaeth a pha mor gyflym mae'n symud oddi wrthym gellir dirnad oes y Bydysawd - yr amser a fu ers y Glec Fawr. Ond och! - mae'n ymddangos o'r mesuriadau diweddar hyn fod y Bydysawd yn iau na rhai o'r sêr sydd ynddo! Lol botes yw hyn, wrth gwrs, gan fod y sêr i gyd yn rhan o'r bydysawd - felly mae angen mwy o waith ar ran y seryddwyr.

I ychwanegu at eu penbleth, darganfyddwyd galaeth enfawr newydd yn nghlwstwr *Virgo*, sy'n cuddio tu ôl i'r Llwybr Llaethog yn y ffurfafen. Mae hwn oleiaf mor fawr â'n galaeth ni - yn cynnwys tua can mil miliwn o sêr - ond 'doedd neb wedi sylwi arno o'r blaen oherwydd y llwch a'r sêr rhyngddo â ni.

[GERAINT VAUGHAN]



Telesgop gofodol Hubble

Afalau rhatach?

Cyhoeddodd cwmni *Apple* yn ddiweddar eu bod yn mynd i ganiatau i gwmniau eraill gynhyrchu eu cyfrifiaduron *Macintosh*. Hyd yma, mynnodd *Apple* warchod eu hawlfraint ar y *Mac* - yn wahanol iawn i *IBM*, a adawodd i gwmniau eraill gynhyrchu'r *PC* ers 1983. O ganlyniad bu *PCs* yn llawer rhatach na *Macs* ers blynyddoedd bellach, ac mae 90% o gyfrifiaduron personnol o fath *IBM*. Serch hynny mae llawer o'r farn fod y *Mac* yn rhagori fel cyfrifiadur, a'r gobaith yn awr yw y byddant i'w cael am brisiau rhatach ac yn cystadlu â'r *IBM*.



[GERAINT VAUGHAN]

Ffwng ar y briw

Mae gwaith a wnaed yn rhannol ym Mhrifysgol Cymru yng Nghaerdydd yn dangos y byddwn cyn hir yn defnyddio cynnyrch ffwng i osod ar friwiau. Bu'r hen Gymry'n defnyddio 'ymenyn gwyrdd' ers canrifoedd i drin clwyfau. Gwyddom yn awr mai gwrthfiotig tebyg i benisilin a gynhyrchir gan y ffwng hwnnw a bod ei bresenoldeb yn atal tyfiant bacteria yn y clwyf. Ond nid dyna'r unig gynnyrch manteisiol i drin briwiau a geir o ffyngau.

Yn waliau'r ffwng *Phycomyces blakesleeanus* ceir lefelau uchel iawn o'r cyfansoddion *chitosan* a *chitin*. Mathau arbennig o garbohydradau yw rhain sy'n medru hybu tyfiant y celloedd sy'n llenwi'r bwlch yn y briw, yn gweithredu fel rhyw fath o sylfaen i'r meinwe croen newydd dyfu arno. Yr un fath o bolymer sy'n ffurfio ysgrebwd allanol cryf yr holl *arthropoda* gan gynnwys y pryfed wrth gwrs.

Mewn arbrofion dangoswyd fod briwiau a ymgeleddwyd gan rwymynnau'n cynnwys swm helaeth o'r *chitosan* yn gwella'n llawer cynt na rhai a orchwddiwyd gan rhwymyn cyffredin. Wrth i'r *chitosan* gael ei ocsideiddio mae'n cynhyrchu perocsid hydrogen. Mae ychydig o'r cemegyn hwn yn hanfodol i welliant briwiau. Gwna hyn drwy ysgogi celloedd gwyn y gwaed, sy'n ymladd unrhyw heintiad mewn briw agored. Ysgoga dyfiant celloedd y meinwe o'i amgylch hefyd, a rhain fydd yn achosi i'r briw gau.

Tynnu brycheyn o lygad yr Haul

(Am ragor o wybodaeth ar y pwnc darllenir yr erthygl ar **Yr Effaith Tŷ Gwydr** yn *Delta* 3)

Pan fo'r Haul yn codi neu fachlyd ar noson braf gallwn weithiau sylwi ar smotiau bach du ar ei wyneb. Gelwir rhain yn frychau, ac mae hanes hynod iddynt. Achosir hwy gan amrywiaethau ym maes magnetig yr Haul, sy'n canlyn cylchdro o tua 22 mlynedd, ac oherwydd hyn bydd y brychau'n cynyddu mewn nifer bob rhyw 11 mlynedd. Bu dyfalu ers blynyddoedd fod cysylltiad rhwng y cylchdro hwn a hinsawdd y Ddaear, ond anodd iawn fu profi dim byd. 'Does dim yn debycach o danio ffrae mewn cynhadledd o bobl tywydd na phapur ar effaith brychau'r Haul ar yr hinsawdd!

Bu seryddwyr yn arsylwi ar yr Haul ers canrifoedd ond peidiodd y sôn am frychau ar yr Haul tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Nid ail-ymddangosasant yn y cofnodion tan ddechrau'r ddeunawfed ganrif, a chredir erbyn hyn mai diffyg gwirioneddol o frychau oedd yn gyfrifol, dim methiant ar ran yr arsylwyr. Gelwir y cyfnod di-frychau ar ôl seryddwr o'r enw Maunder - ac mae'n cyd-redeg â'r Oes Iâ fechan pan oedd y Ddaear radd neu ddwy'n oerach na'r presennol.

Yn ddiweddar, daeth hen ddogfennau i'r golwg yn ein galluogi i ganlyn y cylchdro 11 mlynedd yn y brychau yn ôl i ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Bydd hyn yn gymorth i weld os oes cysylltiad rhwng y cylchdroadau hyn a'r cynhesu a fu ar y Ddaear yn yr un cyfnod. Wrth gwrs, mae'r pwnc o gynhesu'r Ddaear yn un llosg iawn ar hyn o bryd (gweler erthygl yn y rhifyn cyfredol o *Delta*), a rhaid yw deall y newidiadau naturiol yn yr hinsawdd cyn medru dirnad yn gywir effaith y nwyon tŷ gwydr ar dymheredd y Ddaear.

[GERAINT VAUGHAN]

TŴRIST YN SGWAR PISA

Dyma lun tŵr enwog *Pisa*. Mae dringo i'w ben yn codi ofn arnoch gan fod y goledd sydd i'r llawr fel petai'n eich tynnu'n gryf at yr ochr isaf ble does dim wal i'ch diogelu. Dim rhyfedd iddo gael ei labelu'n un o saith rhyfeddod yr Hen Fyd. Mae'r tŵr ei hunan yn codi ystyriaethau ffisegol, fedrwch chi ddim osgoi meddwl am ddisgyrchiant wrth edrych ar ei wyriad hynod, ond roedd hefyd yn leoliad arbrawf ffisegol hanesyddol gan yr athro a'r ffisegydd, Galileo Galilei.



Sylwedd yr arbrawf oedd gollwng dwy garreg o ben y tŵr gyda'i gilydd. Yr oedd un garreg llawer mwy na'r llall a'r disgwyl oedd y byddai'n cyrraedd y llawr o flaen yr un fach. Yn hytrach gwelodd y dorf, sef disgyblion eiddgar Galileo, y ddwy garreg yn glanio yn union gyda'i gilydd. Yr oedd wedi eu dysgu fod grym disgyrchiant yn gweithredu yn yr un modd ar bob gwrthrych, yn gwneud i bopeth syrthio gyda'r un cyflymiad. Os ydych chi'n trio gwneud hyn, gyda darn punt a darn o bapur sidan o'r un maint dyweder, cewch ateb gwahanol. Y rheswm am hyn yw fod grym gwrthiant aer yn cael mwy o effaith ar y papur sidan ac yn ei arafu yn fwy ha'r darn punt. Petai chi'n medru cael gwared o'r aer mi fyddai'r ddau'n syrthio gyda'i gilydd.

Drws nesaf i'r tŵr saif eglwys gadeiriol hardd *Pisa*. Yma yn ôl yr hanes bu Galileo yn gwylio'r lantern fawr yn siglo'n ôl a mlaen bob tro 'roedd y drws yn agor a chwa o wynt yn ei symud. Amserodd Galileo y sigliad orau y gallai a phenderfynodd fod amser bob sigliad yn aros yn gyson er bo'r sigliad yn marw i lawr. Dyma egwyddor mudiant harmonig syml sydd yn gwneud i gloc pendil gadw amser.

Dyna i chi ddau ddarn reit bwysig o ffiseg ar yr un safle. Os ewch chi allan o ddrws yr eglwys mae yna adeilad hardd arall yn eich gwynebu sef y Fedyddfa. Mae'n adeilad crwn gyda to crwn uchel. Pan oeddwn i ynddo daeth y dyn oedd yn ei warchod i mewn a chau'r drws yn sydyn gan ein cau ni dwristiaid i mewn. Aeth i ganol y llawr a chanodd dri nodyn un ar ôl y llall. Yr oedd ffurf yr adeilad a'r to yn gwneud i'r sain atseinio'n hir fel bo'r nodau'n ffurfio cord. Tipyn o ffiseg am un prynhawn.

[GWEN AARON]

.....COMED YN BWRW IAU (o dudalen 1)

dyst i ddigwyddiad mor bwysig yn ddigon i sicrhau y byddai bron pob telesgop mawr y byd yn edrych ar lau yn ystod yr wythnos bwysig.

Sylweddolwyd bod y comed, yn anffodus, yn mynd i fwrw'r blaned ar yr ochr draw, hynny yw o'r golwg i ni. Ond, yn ffodus, roedd y gwrthdrawiadau yn mynd i ddigwydd yn agos i'r ochr a oedd yn mynd i droi i'n cyfeiriad. Mae lau yn troi ar ei hechelin unwaith pob 10 awr, a dim ond 20 munud fyddai'n rhaid i ni aros nes bod safle'r gwrthdrawiadau wedi dod i'r golwg. Nid oedd seryddwyr yn gytun o gwbl ar beth fyddai effaith y gwrthdrawiadau. Roedd rhai yn darogan y byddai ffrwydriadau enfawr, i'w gweld yn hawdd trwy'n telesgopau ar y Ddaear, tra credai eraill mai pitw iawn fyddai'r canlyniad, gyda'r darnau o'r comed yn diflannu i atmosffer lau heb adael unrhyw olion.

Yn ogystal â thelesgopau mawr y Ddaear roedd 4 llong ofod a'r Telesgop Gofod am fedru tynnu lluniau o'r digwyddiad. Yr un oedd yn y safle gorau i wylio'r digwyddiad oedd y llong ofod Galileo, sydd ar ei ffordd i'r blaned lau i'w hastudio'n fanylach. Ym mis Gorffennaf 1994 byddai Galileo tua trydydd rhan o'r pellter rhwng y Ddaear a lau, ac yn agosau ati o'r ochr dywyll ble roedd y gwrthdrawiadau am ddigwydd. Felly byddai Galileo yn gallu cofnodi'r gwrthdrawiadau.

Am 20:10 ar y 16eg o Orffennaf tarodd y darn cyntaf o'r comed, darn A, y blaned. Cododd cwmwl enfawr rhyw 1,000 km uwchben atmosffer y blaned. Cyfrifwyd y rhyddhawyd egni'n cyfateb i 225,000 miliwn o dunelli o TNT yn ffrwydro yn y gwrthdrawiad.

Marc amlwg

Ar ôl y gwrthdrawiad cyntaf roedd hi'n amlwg y byddai effaith y gwrthdrawiadau i'w weld yn glir o'r Ddaear, gan greu un o'r sioeau mwyaf trawiadol i'r ddynol ryw ei brofi. Dros y 6 diwrnod nesaf cwympodd un darn ar ôl y llall i fewn i'r blaned enfawr, rhai'n diflannu heb lawer o ffwdan, eraill yn ffrwydro a gadael marc amlwg yn yr atmosffer. Darn G oedd y mwyaf egniol. Amcangyfrifodd seryddwyr y rhyddhawyd egni'n cyfateb i ffrwydriad 6 miliwn miliwn o dunnelli o TNT yn y ffrwydriad hwn (tua 600 gwaith egni holl fomiau'r byd). Gadawodd y gwrthdrawiad hwn graith tua maint y Ddaear ar atmosffer y blaned .

Gan i'r darnau i gyd daro'r blaned ar yr un lledred crewyd y creithiau fwy neu lai i gyd yn yr un lle. Erbyn diwedd y 6 diwrnod hanesyddol roedd gwregys tywyll yn amgylchynu'r blaned ble bwrwodd y darnau.

Seryddwyr amatur

Felly roedd y sioe drosodd. Ar ôl 6 diwrnod roedd pob darn o gomed Shoemaker Levy 9 wedi cwympo i fewn i atmosffer lau. Yn well na'r disgwyl, roedd effaith y gwrthdrawiadau i'w gweld nid yn unig trwy delesgopau mawr yr arsyllfaoedd proffesiynol ond hefyd gyda thelesgopau 15 centimedr seryddwyr amatur, oedd hefyd yn medru mwynhau'r sioe.

Miloedd o luniau

Bydd seryddwyr yn astudio'r miloedd o luniau a dynnwyd o'r digwyddiad hanesyddol er mwyn dod i ddeall mwy am gomedau a'r blaned lau. Cymer y dadansoddi hwn flynyddoedd, ac erbyn hynny efallai bydd y llong ofod Galileo wedi darparu mwy o wybodaeth am gynnwys atmosffer lau na lwyddwyd i'w ddehongli o luniau'r gwrthdrawiadau. Ond, nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd y digwyddiad hwn, sef y tro cyntaf i ni weld comed neu asteroid yn taro planed. Mae'n debyg mai dyma sut y digwyddodd difodiant y dinosoriaid ar ein planed ni 65 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac mae gwylio comed Shoemaker Levy 9 yn taro lau yn ein hatgoffa y gall yr un peth ddigwydd i ni eto, rhywbryd yn y dyfydol. Dengys gwaith diweddar mai bodolaeth i planedau nwy enfawr , megis lau, yng Nghysawd yr Haul sy'n debygol o fod yn gyfrifol nad yw comedau a pethau tebyg wedi bwrw'r Ddaear yn aml iawn gan fod grym eu maes disgyrchiant enfawr yn dueddol o amsugno unrhyw gyrff o'r fath. Yn ôl y ddamcaniaeth hon, heb fodolaeth y planedau nwy hyn mae'n annhebyg iawn y byddai bywyd wedi medru esblygu ar y Ddaear. Mae lle gennym i fod yn ddiolchgar iawn am eu bodolaeth!

Mae cannoedd o luniau o'r digwyddiad hanesyddol ar gael dros rwydwaith yr 'Internet'. Os ydych â chysylltiad i'r rhwydwaith defnyddiwch raglen Mosaic, neu debyg, er mwyn cysylltu ag un o'r cyfeiriadau canlynol:

http://newproducts.jpl.nasa.gov/sl9/
neu
http://seds.lpl.arizona.edu/
[Rhodri Evans]

Os ydych am wybod rhagor am y comedau a'r digwyddiad hwn yna mynnwch gopi o rhifyn 3 o Delta - y cylchgrawn gwyddoniaeth a thechnoleg.

atom

CYHOEDDIR *ATOM* GAN Y GYMDEITHAS WYDDONOL GENEDLAETHOL GYDA CYMORTH ARIANNOL GAN Y SWYDDFA GYMREIG. CYSODIR AR GYFRIFIADUR AC ARGREFFIR GAN Y LOLFA, TALYBONT, CEREDIGION. NID YW'R CYFRANIADAU, O ANGHENRHAID, YN ADLEWYRCHU BARN Y GOLYGYDD NA'R GYMDEITHAS WYDDONOL GENEDLAETHOL

atom

Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol

Beth am ymuno â'r Gymdeithas er mwyn hyrwyddo trafod gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae pob aelod yn derbyn copiau o'r GWYDDONYDD, DELTA ag ATOM.

Cysylltir â'r Dr Eleri Pryse
Adran Ffiseg
Prifysgol Cymru
ABERYSYWYTH
am fanylion pellach

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Aelodau Clwb Ieuenctid Llanrug yn cyflwyno siec am £120 i Ganolfan Gymdeithasol y pentref.

Plaid Cymru: Cafwyd noson i'w chofio nos Fercher, 14 Mehefin, pan aeth llond bws o aelodau a chyfeillion cangen Llanrug ar daith ddirgel, wedi ei threfnu'n ofalus gan Cliff Williams gyda chymorth Gwilym Rees Parry. Roedd hyd yn oed y tywydd yn berffaith. Wedi hir ddyfalu, gwelwyd mai Melin Llynnon ar Ynys Môn oedd pen draw'r daith. Yno cawsom ein tywys o gwmpas y felin gan y melinydd a chyfle i brynu yn y siop. Yn goron ar y cwbl, gwledd ardderchog yng nghaffi'r felin, a phawb yn hapus yn dod adref. Diolch i Cliff am drefnu noson mor ddiddorol. Cyfarfod nesaf y gangen fydd y Cyfarfod Blynyddol, nos Fercher, 12 Gorffennaf, am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am eu cydymdeimlad a'u rhoddion a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Robin. Aeth yr arian er cof amdano i Feddygfa Waunfawr a Llanrug ac i Ysbyty Bryn Seiont.

Dymuna Mrs Annie Parry, 14 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w chymdogion, perthnasau a ffrindiau am eu anrhegion, cardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 23 Mai.

Dymuna Maureen Williams, 14 Bryn Moelyn, a Gwilym Davies, 2 Minffordd, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu, Mrs Davies, Seion, ac i'w chwaer, Mrs Gaynor Williams, Penterfyn.

Dymuna Dylan a Kathleen Jones, 6 Cefn Elan, Llanrug, ddiolch yn gynnes i'r ddau deulu, cymdogion a chyfeillion, am y llu o gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Peter a Maureen, teulu y ddiweddar Miss Patricia Rainbow, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad. Diolch yn arbennig i Eirlys ac Edwina; meddygon a nyrsus Llanberis, ac hefyd Hosbis yn y Cartref.

Llongyfarchiadau mawr i Iona Williams, 14 Bryn Moelyn, ar gael ei dewis i chwarae hoci i dîm gogledd Cymru o dan 16 oed. Bydd hefyd yn trafaelio i'r treialon yn Aberystwyth ddechrau mis Gorffennaf gan obeithio cael ei dewis i chwarae dros Gymru. Pob lwc iti Iona.

Dymuniadau gorau i John Jones, Bryn Heli, ac Alwena ar eu priodas ddydd Sadwrn, 10 Mehefin. Byddant yn cartrefu yn Corlan y Rhos. Pob hapusrwydd iddynt.

Cymorth Cristnogol: Dymuna Cyngor Eglwysi Llanrug ddiolch yn gynnes iawn i'r holl ardalwyr a gefnogodd yr ymgyrch, ac yn arbennig i'r casglwyr am eu gwaith trylwyr. Eleni fe gasglwyd y cyfanswm anrhydeddus o £725.

Gwaith ynteu Gwyliau? Yn ystod misoedd yr haf bydd Adrian Evans, Gwynfryn, yn gweithio mewn gwersyll gwyliau i blant a phobol ifainc yn nhalaith New Hampshire, U.D.A. Tra yno bydd Adrian yn hyfforddi a goruchwylio gweithgareddau ymarferol ac awyr agored o bob math, yn ogystal â chyfarfod llawer o Americanwyr ifainc. Gwaith diddorol iawn. Pob hwyl iti Adrian a gobeithio y byddi yn mwynhau y profiad a'r gwyliau fydd yn dilyn.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Bu Cwmni'r Frân Wen ar ymweliad â'r Ysgol ddydd Gwener, 9 Mehefin. Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 wledd gan y cwmni a oedd yn perfformio drama addysgiadol 'Yma o Hyd'.

Cafodd blwyddyn 3 a 4 drip i Eglwys Sant Mihangel, ddydd Gwener, 16 Mehefin, fel rhan o'u hastudiaeth o'u cynefin. Sylweddolodd y plant pa mor hardd yw'r eglwys leol gan ddysgu llawer am draddodiadau a symbolau eglwysig.

Bu blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad â Amgueddfa Segontiwm. Cawsant sgwrs ddiddorol iawn am ddyfodiad y Rhufeiniaid i Gaernarfon gan y Swyddog Addysgol, ynghyd â chael cyfle i astudio darnau o greiriau oedd yn 2,000 o flynyddoedd oed. Yna bu'r plant yn crwydro o gwmpas yr Amgueddfa yn cywain gwybodaeth er mwyn llenwi'r holiaduron a baratowyd. Cawsom ddiwrnod buddiol iawn a dysgwyd llawer am y Rhufeiniaid.

Bu timau dan 9 a dan 11 oed Llanrug yn arbennig o lwyddiannus y tymor hwn a dydd Sadwrn diwethaf parhaodd y llwyddiant pan enillodd y ddau dîm bencampwriaeth Gwyrfai. Llongyfarchiadau iddynt a'u hyfforddwyr.

Y tîm dan 9 oed.

Y tîm dan 11 oed.

Ffrindiau'r Ysgol: Etholwyd pwyllgor newydd fel a ganlyn — Cadeirydd: Mrs Bethan Owen; Ysgrifenyddion: Mrs Glenys Jones, Mrs Eirian Williams; Trysorydd: Mrs Sian Burton. Diolch yn fawr i'r cyn bwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Buont yn hynod brysur a chodwyd dros £1,500 i gronfa'r ysgol. Diolch yn fawr iawn.

Cafwyd stondin gacennau ar y Maes yng Nghaernarfon yn ddiweddar, a chafwyd elw o £150.

Côr Clychau'r Grug: Dymuna'r arweinydd ac aelodau'r côr ddiolch i Mair Huws am gymryd yr awenau yn absenoldeb Mrs Glenys Griffiths yn ystod gwaeledd Mr Morgan Griffiths. Da deall ei fod yn gwella.

Llongyferchir Olwen ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Lois, i Delyth.

Bu'r côr yn diddori ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yn ddiweddar ac eto yng Ngorffennaf a Medi. Y mae dyddiau prysur o'n blaenau gyda chymanfaoedd a chyngherddau.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 20 Mehefin, trefnwyd trip dirgel gan Mary Roberts. Daeth nifer dda o aelodau a chredai rhai mai yng 'Ngwlad y Medra' y byddai'r bws yn mynd â ni, ond troi ym Mhontrug ac i'r chwith yn Llanwnda yr aeth gan aros o'r diwedd ym Mhenmorfa. Cafwyd orig ddiddorol yng nghreffty Ty'n Llan ymysg y crefftau cywrain ac ymweld â'r amgueddfa creiriau fferm. Yna ymlaen i Faentwrog a chael pryd o fwyd at ddant pawb yng Ngwesty'r Grapes.

Croesawyd Mrs Jones Evans a'i ffrind Dilys o Benbedw gan obeithio eu bod wedi mwynhau eu hunain. Llongyfarchwyd Olwen Huws a Mary Parry ar ddod yn neiniau. Llongyfarchwyd Rhodri Llwyd ar ennill gradd B.Sc (Anrhydedd) ym Mhrifystol Caerdydd; a Siôn Bedwyr ar ennill gradd B.A.(Anrhydedd) ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r gangen yn falch iawn fod Ann Gibbins wedi'i dewis yn 'Halen y Ddaear'. Argymhellir hi i 'sgwennu ei hanes yn *Y Wawr*. Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Ann Lloyd.

Diolchodd y llywydd, Menna Williams, i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu cydwedithrediad drwy gydol ei llywyddiaeth. Dymunwyd yn dda i Meirwen Lloyd fel y llywydd newydd; Mary Roberts, ysgrifennydd; a Margaret Parry, trysorydd; ac hefyd i'r pwyllgor. Diolchwyd i Mary Roberts am drefnu noson mor ddifyr.

Diolchwyd i Menna am lywio'r gweithgareddau mor rhadlon ac effeithiol.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar yr ail nos Fawrth ym Medi (12 Medi). Croeso cynnes i aelodau newydd.

Enillwyr Clwb 100 Ysgol Brynrefail — mis Ebrill: £10.25 A. A. ac A. Sage (39); £6.15: J. A. Hughes (12); £4.10: R. a D. O. Evans (6). Mis Mai: £10.50: Selwyn Lloyd (2); £6.30: A. A. ac A. Sage (39); £4.20: G. V. Jones (17).

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Dathlu yn Sardis: Dathlwyd Sulgwyn y cofir yn hir amdano yn Sardis eleni. Ni bu'n bosib i'r aelodau ddefnyddio'r capel ers yn gynnar yn y flwyddyn gan i bydredd ymddangos yn y waliau a'r llawr. Oherwydd hyn yn y Ganolfan y cynhaliwyd yr holl wasanaethau yn ystod y cyfnod pryderus hwn. Mae ein diolch yn fawr i'r pwyllgor am ganiatáu i ni ddefnyddio'r Ganolfan. Yr oedd pob aelod yn Sardis yn bendant o blaid mynd ymlaen â'r fenter o atgyweirio'r capel. Felly, yr oedd dau reswm gennym dros ddathlu ar Fehefin 4, sef dathlu 175 mlynedd ers dechrau'r Achos, a dathlu ail-agor y capel.

Dychwelodd amryw o blant Sardis i rannu'r achlysur â ni, rhai fel y Parchedigion Emlyn Jones a William J. Lewis, y gymryd rhan yn yr oedfaon, a'r gweddill i adnewyddu cyfeillgarwch ac atgofion bore oes, i weld y capel ar ei newydd wedd, ac i glywed am hanes cynnar yr Achos gan Mr T. M. Bassett, ac am atgofion Y Parchg Ifor Ll. Williams tra'n weinidog yma. Cafwyd aml sgwrs felys rhwng hen gyfeillion dros de a baratowyd gan chwiorydd Sardis.

Derbyniwyd cyfarchion hefyd oddi wrth amryw o blant yr eglwys a fethodd a bod yn bresennol, un neges cyn belled ag Awstralia. Bu eglwysi'r ofalaeth a'r ardal yn hynod o hael eu cefnogaeth mewn presenoldeb a rhoddion. Mawr yw ein diolch iddynt.

I goroni gweithgareddau'r dydd cynhaliwyd Cymanfa Ganu, dan arweiniad Mrs Enid Griffiths, Porthaethwy, a Mrs Lona Lewis yn cyfeilio, yn ogystal â rhai o aelodau Seindorf Arian Deiniolen. Bu'r dathlu yn ddydd o bleser pur i ni, a dyna ddyfarniad llawer un arall hefyd.

Cofio Medwen Griffiths: Fe'n brawychwyd ar fore Sul y Sulgwyn pan glywsom am farwolaeth Medwen Griffiths, Foel gynt, yn Ysbyty Gwynedd. Roeddem wedi colli ei chwmni o'r capel ers rhai blynyddoedd oherwydd y salwch creulon y bu'n rhaid iddi ei ddioddef mor hir, ond roedd ei diddordeb ym mhethau'r capel yn dal mor fyw ag erioed. Cyn ei salwch ni bu neb mor selog â hi i holl weithgareddau Sardis ac ardal Dinorwig.

Pan dalodd y Parchg Olaf Davies, ei gweinidog, deyrnged iddi ar ddydd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, dywedodd mai dim ond yng nghyfnod ei salwch y cafodd y cyfle o'i hadnabod. Er hynny yr oedd stori Medwen yn un gwerth ei hadrodd, meddai. Roedd yn stori arwrol a chyfnod ei hafiechyd wedi dangos ei gwir gymeriad. Roedd hi hefyd yn stori anhunol. Am eraill yr oedd ei chonsyrn, nid amdani ei hun. Roedd hefyd yn stori am addfwynder a sirioldeb. Yr oedd yn llawn hiwmor a hwyl i'w gael yn ei chwmni.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu a'i ffrindiau, ac yn arbennig felly Eifion, ei phriod, a Dylan, a fu mor ofalus ohoni a ffyddlon iddi. Yr ydym i gyd yn galaru ar ei hôl.

Gwellhad Buan: Drwg gennym fod salwch wedi gorfodi David John Thomas i ymartrefu dros dro ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, wedi iddo dderbyn triniaeth yn Ysbyty Llandudno. Dymunwn wellhad buan iddo. Bu'n ohebydd toriethiog yr ardal i'r Eco am ysbaid hir. Brysied yn ei ôl yma.

Llongyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu penblwydd go arbennig. Dymunwn lawer o flynyddoedd dedwydd iddi eto i fwynhau'r 'pethe'.

Angen Cysylltwr: Oes yna unrhyw un sy'n barod i fod yn gyfrifol am drefnu plygu'r Eco pan fo'r cyfrifoldeb am hynny yn disgyn arnom fel pentref? Byddai'n fanteisiol i'r person hwnnw fod yn berchennog car gan y disgwylir iddo/iddi fynd i gasglu'r Eco o Wasg Gwynedd ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, a'u danfon i'r Ganolfan yma yn Ninorwig ar gyfer eu plygu. Byddai yn ofynol hefyd i drefnu bod digon o bobl ar gael i wneud y gwaith plygu. Dim ond unwaith y flwyddyn y digwydd hynny — ar ddechrau mis Medi fel arfer. Beth amdani felly? Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yna cysylltwr â Glyn Tomos. Dymunir diolch i Meirion Thomas am wneud y gwaith am rai blynyddoedd.

Diolch: Dymuna Megan Price Morris, Minffordd, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ddathlu penblwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Geraint Roberts, Caeathro, Elin Gwyn, Cefn Rhos Isaf, Sara Mai Williams, a Cadi Non, fu'n cynrychioli Ysgol Bontnewydd yn Rownd Genedlaethol Cwis Llyfrau Cymraeg yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau iddynt ar ddod yn drydydd allan o wyth.

Helfa Drysor: Cynhelir Helfa Drysor o dan nawd y Capel ar nos Wener, 21 Gorffennaf.

Cronfa'r Fynwent: Agorwyd Cronfa Cynnal y Fynwent er mwyn hyrwyddo'r gwaith a chost y fynwent. Yn ogystal â theuluoedd y pentref ac aelodau'r capel claddwyd trigolion o ardaloedd ehangach ym mynwent Caeathro. Felly, gofynnwn am roddion oddi wrth gyfeillion pell ac agos. Dylid cysylltu ag Ifor Hughes, Lleifior, Caeathro, Caernarfon.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu hyd at wyliau'r haf:

Gorffennaf

2: Parchg H. Jones Parry (2)
9: Parch W. R. Williams (10)
16: Parchg Ronald Williams (2)
23: Parchg John Roberts (2)
30: Parchg W. R. Williams (10)

Tynfa Fisol: Enillwyr mis Mehefin oedd — £40: Aled Jones, 3 Bryn y Gof (53); £25: Eirlys Pritchard, 8 Bryn y Gof (56); £15: Elwyn Griffith, 13 Erw Wen (69); £5: Ceri Roberts, 10 Erw Wen (70). Diolch am eich cefnogaeth. Mae'r pwyllgor wedi archebu'r bedwaredd sedd efo crud ar gyfer siglenni'r cae chwarae.

Sioe'r Pentref: Oherwydd oedi yn derbyn caniatâd addasu'r Capel ar gyfer addoli a festri, penderfynwyd gan bwyllgor Sioe Gynnyrch Gardd a Thŷ, ohirio'r Sioe am 1995. Ymddiheurwn am unrhyw anhwylustod i'r trigolion. Ceisiwn ail-lansio'r sioe y flwyddyn nesaf.

Diolch: Dymuna Bryn Griffiths, Delfryn, ddiolch yn gynnes am y caredigrwydd, ymweliadau a'r cardiau lu a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn Abergele yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

Cyngor Cymuned: Mae gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y pentref wedi cau yn wyneb ymdrechion llawer o'r aelodau. Dim ond y garej a'r dafarn sydd ar ôl yn y pentref. Parhau mae'r chwilio am berson i lanhau'r lloches bws. Tynnwyd sylw'r aelodau at y llanast a'r blerwch sydd ar sgwâr y pentref — ôl rhai anghyfrifol yn ddiau; galwn ar yr awdurdodau lleol mawr i'n cynorthwyo i ddatrys y broblem. Cafwyd trafodaeth am y gylchfan ar ei newydd wedd — taclus iawn. Mae llwybr cyhoeddus Caeathro Bach yn anodd ei gerdded gan fod wyneb y lôn wedi dirywio cymaint. Gobeithir y gellir ymdrin â'r broblem er mwyn hwyluso teithiau cerdded pleserus ar droed unwaith eto. Hwyrach y gellir gwneud rhywbeth yr un pryd i wella golwg ceg y lôn i'r lôn fawr er hwylustod a diogelwch gyrrwyr y briffordd. Gelwir am osod rampiau — plismyn diog — ar y strydoedd ble mae gyrrwyr gwyllt yn peryglu diogelwch cerddwyr.

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112
- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

ANTUR WAUNFAWR
SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR
Basgedi Blodau Sych ★ Siwtni Jams ★ Briwgig ★ Siampw, Clustogau ★ Ewyn Baddon Olewon Aromatherapi Teganau Meddal ★ Mobiles Pren
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Y STORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: C'fon 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am fis Mai — £10: Mr Eilir Jones, 2 Tai Gwyrfai; £5: Mr Philip Jones, 1 Ty'r Faenol, Clwt-y-bont. Mis Mehefin — £10: Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin; £5: Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog.

Priodi yn Kenya: Ar yr 8fed o Ebrill yn Turtle Beach, Watamu, Kenya, priodwyd Dylan Wyn Jones, mab Mr a Mrs D. W. Jones, 3 Rhydfadog, Deiniolen, â Kathleen Mitchell, merch Mr a Mrs J. Mitchell, 2 Gwyrfai Cottages, Bontnewydd. Treuliodd y pâr ifanc eu mis mêl ar saffari yn Kenya. Mae Dylan yn gweithio ar Ward MacMillan, Ysbyty Bryn Seiont, a Kathleen yn ysgrifenyddes gyda Awdurdod Iechyd Gwynedd. Maent wedi cartrefu yn 6 Cefn Elan, Llanrug. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt oddi wrth y ddau deulu.

Colled: Ar Fai 7fed bu farw Mrs Elizabeth Price, 14 Hafod Oleu, Deiniolen, yn Ysbyty Eryri. Ganed Mrs Price yn Bedwargoed ar ochrau'r Fach-wen, ond symudodd y teulu wedyn i fyw i Benisa'rwaun pentref yr oedd ganddi feddwl mawr ohono ac fe wyddai lawer am deuluoedd a chartrefi'r ardal honno, a bu'n aelod ffyddlon o gapel Ysgoldy, Clwt-y-bont. Wedi iddi briodi â'r diweddar Cyril Price bu'n byw yn Hafod Oleu ar hyd ei hoes. Roedd yn wraig gymeradwy iawn a phob amser yn barod ei chymwynas a'i chroeso. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys Crist, Llandinorwig, ac ar un cyfnod yn ysgrifenyddes Undeb y Mamau, a hi fyddai hefyd yn gofalu am yr ymdrech flynyddol i godi arian tuag at y Badau Achub (RLNI) yn yr ardal.

Bu'r gwasnaeth angladdol yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ar ddydd Gwener, Mai 12fed. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Ganon R. Glyndwr Williams, Bangor, yn absenoldeb y Clerig Mewn Gofal, y Parchg Tegid Roberts, gyda'r Parchedigion Canon E. Trefor Jones, Llanfairfechan; Gwenda Richards, Porthmadog; Reuben Roberts, Amlwch; a Mr Derek Jones, Llanberis yn cynorthwyo. Derbyniwyd rhoddion er cof o £350 tuag at Clinig Deiniolen a Chyfeillion Ysbyty Eryri.

Llongyfarchiadau Taid a Nain: Llongyfarchwn Barry a Buddug, 5 Rhydfadog am ddod yn daid a nain am y tro cyntaf i Gwion ap Gwyndaf, sef mab Linda a Gwyndaf; ac hefyd i Mrs Ann Owen, 48 Rhydfadog, am fod yn hen nain am y tro cyntaf.

Diolchiadau:

Dymuna Douglas a Brian, a theulu y ddiweddar Elizabeth Price, 14 Hafod Oleu, ddiolch i gymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchg Tegid Roberts, meddygon a staff y Clinig, ac i Ysbyty Eryri, am bob gofal a charedigrwydd.

Dymuna Linda, gynt o 5 Rhydfadog, a Gwyndaf ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Gwion.

Dymuna Dylan a Kathleen Jones, 6 Cefn Elan, Llanrug, ddiolch yn gynnes i'r ddau deulu, cymdogion a chyfeillion, am y llu o gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

Llongyfarchiadau i Elfed M. Morris, Llechwedd, Deiniolen, am ennill y drydedd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro'r Preseli.

Clwb Snwcer Deiniolen: Cafwyd nosweithiau difyr dros ben a chystadlu brwd, a chafwyd rhediad o 48 gan gapten y gleision, Len Parry. Diolch i Mr John Harris am ei rodd o £15 tuag at y lluniaeth. Diolch i bawb am wneud y noson yn un mor lwyddiannus. Gwelwyd lluniau'r enillwyr yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

Newid Dyddiad: Carwn dynnu sylw ein darllenwyr at y ffaith mai ar 8 Gorffennaf y cleddir gweddillion 'Jerry Gerard', sef Ralph Lewis, gynt o Tan Giarat, Hafod-y-braich, ym Mynwent Llandinorwig; ac nid ar y 9fed fel yr adroddwyd yn rhifyn diwethaf o'r Eco.

Diolch: Dymuna Terry a Ruth Evans, 87 Pentre Helen, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ar achlysur eu priodas.

Terry a Ruth Evans.

Rhagor o Newyddion Llanberis

Diolch: Dymuna Laura, Madge, Maud ac Ann ddiolch yn fawr i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn ystod eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Annie May Jones, 11 Bron Eryri Terrace. Diolchir am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, a'r £450 a dderbyniwyd tuag at Maes-y-coed, Bryn-y-neuadd, Llanfairfechan.

Er cof annwyl am wraig, mam a nain hoffus, sef Ann Blodwen, a fu farw Gorffennaf 15, 1989:

Heuir mewn dagrau, medir yn llon,
Cariad sy'n llywio stormydd y don.

Wil Heddwyn, Lynnwen, Idwal, Llinos a Carwyn.

PEN-BLWYDD HAPUS

Daeth diwrnod pen-blwydd eto i Dilys,
Dydd Sul ym Mehefin yw hi,
Mae'r haul yn tywynnu ben bore,
I'r capel am bregeth awn ni.

Mae Edwin a Gwyneth ar wyliau,
Llanber, y lle gorau'n y byd,
Fe awn i addoli yn brydlon,
Ond 'rhoswch, mae cyffro'n y stryd.

Daeth Marie o'r cerbyd ar garlam,
'You're not going to chapel today,
You're coming with me for a coffee',
Ac i ffwrdd a hwy am y dre.

Y gyrchfan, Maes Awyr Caernarfon,
Mae yno awyren fach wen.
Ac Edwin a Gwyneth a Dilys
Fe'i cipiwyd i fyny i'r nen.

Nid oeddent o'r blaen wedi hedfan
A'r tri yn wythdegau eu hoed;
Fe welsant Sir Fôn, a'r Wyddfa,
Golygfa brydferthaf erioed.

Wedi glanio yn ôl ar y ddaear,
Ac wedi cael modd i fyw —
Efallai fod hedfan i'r wybren
Yn agosach, na'r capel, at Dduw.

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650552

Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871047

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 am fis Mai — £40: Mrs E. A. Roberts, Pantafon; £25: Mr Alwyn Williams, Garreg Fawr; £10: Mrs Jean Jones, Llwyn Onn.

Damweiniau: Dymunwn wellhad buan i Mrs Henderson, Bryn Gwynedd, a Marion Iwan, Afallon, wedi i'r ddwy fod mewn damweiniau yn eu ceir yn ddiweddar.

Torrodd Aled Taylor, Baladeulyn, ei fraich pan fu mewn damwain gyda'i feic ar ei ffordd adref o'i waith.

Torri ei braich hefyd wnaeth Mrs L. Jones, Treflys, pan ddisgynnodd yn ei chartref; ac llid Bryn, Perthi, yn torri ei braich pan syrthiodd yn y tŷ.

Gobeithio y byddwch i gyd yn gwella ac yn cael tynnu'r Plastar Paris yn reit fuan!

Diolch: Dymuna Bryn a Linda, Perthi, ddiolch i bawb sydd wedi bod yn garedig wrth llid wedi iddi frifo.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Lily Jones, Goleufryn, a Mrs Lil Evans, Tegfan, adref o'r ysbyty. Hyderwn yn fawr y bydd y ddwy ohonoch yn cryfhau ac yn gwella'n fuan. Rydym yn falch o ddeal bod Eirlys Roberts, Stad Bro Waun, yn gwella wedi iddi gael llawdriniaeth yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i dy weld allan yn ein plith yn fuan Eirlys.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i Fflur Llywelen sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Samantha a Tegid, Stad Croesywaun, ar enedigaeth mab, Cai Owen, brawd bach i Cara ac ŵyr i Mr a Mrs Lleufer Pritchard, Canolfan Carpedi.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs W. Jones, Graianfryn, ac i Mr a Mrs H. O. Jones, Glasfryn, ar ddod yn daid a nain i Gareth Wyn, a aned i Sandra ac Emyr.

Llongyfarchiadau i Shoned ac Iwan, Pant Afon, ar enedigaeth eu merch fach, Elin Lloyd, wyres fach i mi a gor-wyres i Mrs M. Jones, 2 Tref Eilian.

Dymuna Shoned ac Iwan ddiolch o waelod calon am y cardiau a'r anrhegion maent wedi eu derbyn ar achlysur geni Elin.

Yr Ysgol Sul: Llongyfarchiadau i aelodau y ddwy Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn y Gymanfa yn Theatr Seilo, ac i'r rhai a dderbyniodd docyn llyfr am ddysgu adnodau ac emynau.

Derbyn Anrhydedd: Llongyfarchiadau i Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel, ar dderbyn yr O.B.E. yn rhestr Anrhydeddau'r Frenhines am ei chyfraniad i fyd addysg a'i hymroddiad i blant ag anghenion arbennig.

Priodas: Dewisodd Sacha a Neil, Dolwyn, briodi yng ngwres y Caribî. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i'r ddau ohonoch.

Bedyddiadau: Yng Nghapel Bethel, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Kriss, mab bychan Valerie a Steven; a Tammy Lynette, merch fach Gary a Wendy, Penclip. Mae'r ddau yn ŵyr ac wyres i Mr a Mrs Geraint Griffith.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau mawr i Mrs Williams, Dwyfor, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 97 oed ddiwedd mis Mehefin.

Diolch: Dymuna Rhiain Llywela Jones, Eric a Fflur, 22 Tref Eilian, ddiolch o galon i'r teulu, perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau, am y llu o gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd Rhiain yn ystod y tri mis diwethaf tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac yn Sea Bank, Cricieth. Diolch i'r meddygon teulu, meddygon a gweinyddesau Ward Ogwen, diolch i Nyrs Veronica Barlow a Nyrs Valerie Barlow, Sea Bank, am eu gofal arbennig ohoni. Diolch yn fawr iawn i bawb. Diolch hefyd i bawb a fu'n ymweld â Fflur sydd ar hyn o bryd yn Ward Gwalchmai, Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr am yr arian a'r cardiau a dderbyniodd.

Cronfa McMillan: Dymuna'r trefnydd, Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, ddiolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gasglu tuag at yr uchod yn ddiweddar. Ar ran y pwyllgor diolchir hefyd i bawb am gyfrannu mor hael tuag at yr achos teilwng yma.

Gwesty Snowdon Park, .32; Bryn Gloch, .10; Mrs Mair Parry, Deulyn, Stad Croesywaun, £29.60; Miss Marian W. Jones, Dôl Erddi, a Mrs Olwen Owen, Tref Eilian, £32.29; Mrs Veronica Owen, Cil y Mynydd, £32.38; Miss Ifanwy Rhisiart, Bodafon, £42.04; Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, £28.52. Cyfanswm: £165.25.

Cymorth Cristnogol: Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol oedd £248.00. Dymuna'r trefnydd ddiolch i'r rhai fu'n casglu ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.



Emma Davies o Ysgol Waunfawr yn derbyn Tarian Gerdd yr Ysgol am 1995 gan Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas. Yn y llun hefyd mae Mrs Anne Marsden, noddwraig y wobr.

Cyngor Cymuned: Daeth yr etholiadau diweddar a gwedd newydd i'r Cyngor, gyda Albert Jones a Robert Owen yn cynrychioli Caeathro a Clive James yn awr yn eistedd dros Ward Waunfawr. Mrs Pat Parry yw'r cadeirydd am y flwyddyn gyda Tecwyn Evans yn isgadeirydd. Diolchir i Gwilym O. Williams am ei waith diflino a'i barodrwydd diffael bob amser. Brad oedd deall y bydd y llochesau bysiau yn cael eu glanhau yn wythnosol, gyda sglein o hyn allan. Mae'r gwaith o gau maes chwarae Gerddi Bach yn brysur cael ei gwblhau. Gresyn, serch hynny, oedd clywed am y cwynion ynglŷn â baeddu'r palmentydd gan gŵn, ac yn arbennig tua Siop Tŷ Newydd. Gwrthyn yw'r arfer hwn ac yn beryglus i gerddwyr. Gobeithir y bydd Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Arfon yn gallu datrys y broblem. Gobeithiwn hefyd na fydd yn rhaid i gwsmeriaid swyddfa bost Tŷ Newydd droedio mor bell cyn dod o hyd i flwch postio, drwy haelioni cwmni Cownteri Swyddfa'r Post. Ac i geisio arafu tipyn ar y gyrru gwyllt gofynnwn am osod rampiau — plismyn diog — ar nifer o strydoedd lle mae hyn yn digwydd.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Pierce, Dôl Rhedyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod;; ac â Maureen ar golli ei thad — y diweddar Mr Arthur Pierce.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Anne Addisson, Storfa Tŷ Newydd, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Neges: Mae'n wyliau ar yr Eco y mis nesaf, felly, bydd yn ddechrau mis Medi pan ddaw'r rhifyn nesaf o'r wasg. Cofiwch os oes gennych ddigwyddiad neu stori ddiddorol dowch a'r hanes i mi, os gwelwch yn dda.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol
Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava
MOT
AA Specialist
RAC Selected
GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559
BOSCH SERVICE

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Diolchiadau:

Dymuna Helen a Gwyn Parry ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs E. Jones, Rhianfa (sy'n fwy adnabyddus fel Nel Bach Lôn Glai) ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Cydymdeimlo: Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Coed Bolyn yn eu profedigaeth lem o golli Catrin fach, o lawn iechyd a hithau ond yn flwydd a saith mis. Erfyniwn y caiff Robin, Jennifer, Olwen a Sian, a'r teulu i gyd ddod i ddygymod a'u colled.

Yn ddiweddar bu farw Mr John Ivor Jones, St Teilo. Estynnir ein cydymdeimlad i Mrs Jones yn ei phrofedigaeth.

Aelwyd yr Urdd: Llongyfarchiadau i Miriam Thomas a'r genod ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth grŵp dawnsio disgo dan 19 oed, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro'r Preseli eleni. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad a diolch i Miriam am ei brwdfrydedd bob amser. Aelodau'r grŵp oedd Lowri Williams, Ellen Jones, Eleri Robinson, Fiona Lambrecht a Caryl Owen. Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Morris ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Cywaith 2D dan 12 oed a'r gystadleuaeth 3D i blant ysgolion arbennig.

Enillwyr Clwb 200 y Nauadd am fis Mai — £20: Emrys Read, 5 Cefn Cynrig (89); £10: Iona Williams, Alun House (152); £5 yr un: Helen Thomas, Llys Derfel (129); Michael Roberts, 26 Y Ddôl (124); Ceridwen Evans, Parciau Rhos (195); Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99); Gareth Hughes, 27 Bro Rhos (176); Pat Owen, Cefn Cynrig (116); Nan Rowlands, 23 Y Ddôl (55); Lynnwen Morris, Perthi (40).

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol Gynradd am fis Mehefin — £20: Aled Vaughan Roberts, Gwynfryn (71); £15: L. C. Williams, 15 Ogwen Terrace, Bethesda (82); £10: Dorothy Williams, Bro Dirion (89); £7: Avril Jones, Minffordd (31); £5: Nia Morgan, Tegid, Brynsiencyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Newyddion o'r Ysgol: Yn ystod y mis ymwelodd plant blwyddyn 6 ag Ysgol Brynrefail i gael rhagflas o beth sydd o'u blaenau ym mis Medi. Cawsant gyfle i fynychu gwersi yng nghwmni disgyblion blwyddyn 7. Braf oedd gweld pawb yn ôl y diwrnod canlynol ac wedi llwyddo i ddal y bws adref.

Ddydd Mercher, 7 Mehefin, ymwelodd plant blwyddyn 6 â Chastell Penrhyn. Ymwelodd plant blwyddyn 3 a 4 â Chastell Penrhyn yr wythnos ganlynol. Cafodd y plant gyfle i wisgo fel plant oes Fictoria a chael profiad o olchi â'r doli, sychu efo'r mangl a smwddio. Wedi hynny gwers yn yr ysgol Fictorianaidd a nifer yn cael y profiad o wisgo'r 'Welsh Not' am eu gyddfau, I orffen profiadau'r bore cyfle i argraffu yn null William Morris. Wedi picnic allan yn y gerddi ymwelwyd â'r Castell i weld ysblander yr adeilad a'r holl ddodrefn moethus.

Merched y Wawr: Nos Fercher, 14 Mehefin, daeth blwyddyn o gyfarfodydd y gangen i ben gyda thaith ddirgel a drefnwyd gan y swyddogion. Diwedd y daith oedd ymweliad ag argraffty'r *Weekly News* yng Nghyffordd Llandudno. Un o'r nifer o bapurau oedd wrthi'n cael eu paratoi i'w hargraffu oedd papurau'r *Herald*. Profiad diddorol oedd cael cip ar ambell dudalen cyn gweddill yr ardal. I orffen y noson cafwyd pryd blasus yng Nghonwy.

Diolchwyd i'r llywydd, Mrs Glenys Griffiths, a'i chyd swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith drwy'r flwyddyn, gan y llywydd newydd Mrs Gwyneth Jones, Fachell. Aelodau'r pwyllgor am 1995-96 yw — Llywydd: Mrs Gwyneth Jones, Fachell; Is-lywydd: Mrs Deilwen Hughes, Bryn Ogwen; Ysgrifenyddes: Mrs Joyce Gaffey; Is-ysgrifenyddes: Mrs Eirlys Sharpe; Trysorydd: Mrs Mair Read; Is-drysorydd: Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc. Aelodau'r pwyllgor: Mrs Nora Parry, Tan-y-buarth; Mrs Sheila Roberts, Tan-y-buarth; Mrs Nan Rowlands, Y Ddôl; Mrs Wendy Grail, Y Ddôl; Mrs Anne Elis, Cilgeran; Mrs Margaret Williams, Llanddwyn. Mae'r pwyllgor newydd eisoes wedi cyfarfod i ddechrau llunio rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf. Gobeithio y ceir cefnogaeth dda gan aelodau hen a newydd ym mis Medi.

Y ddau dîm dan 11 fu'n cystadlu yng nghyngrair 7-bob-ochr Gwyrfai.

Derbyn yn Gyflawn Aelodau: Fore Sul, 4 Mehefin, derbyniwyd wyth o bobl ifanc yn gyflawn aelodau yn Eglwys Bethel. Derbyniwyd Caryl Owen, Shôn Alun Jones, Gareth Wyn Jones, Darren Jones, Gareth Wyn Birkett, Dylan Thomas, Arwel Ellis a Kelvin Owen yn gyflawn aelodau a chyflwynodd y gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, gopi o'r Testament Newydd iddynt yn rhodd i gofio'r achlysur.

Y Carnfial: Mae pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu cynnal wythnos o weithgareddau gan orffen gyda Carnifal ar ddydd Sadwrn, 22 Gorffennaf.

Diolch: Dymuna Jennifer, Robin, Olwen a Sian, Coed Bolyn, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem o golli merch a chwaer annwyl, Catrin Elidir, mor frawychus o sydyn. Ysgrifennwyd y bennill fach yma er cof anwylaf am Catrin gan ei hewythr, Mr William Lloyd-Davies:

Unig a hollol ddigalon, heb Catrin
Mor fywiog a llon,
Di-rybudd, di-symwth diflannodd
Mae chwith mawr am chwerthin hon.

Llongyfarchiadau i Ian Roberts, 21 Bro Rhos, ar ennill gradd (anrhydedd) B.Sc. mewn cyfrifiadureg, ym Mhrifysgol Manceinion; Lynn Roberts, Tan-y-buarth a raddiodd mewn Hanes yng Nghaerdydd; Wena Williams, Stad Eryri a raddiodd mewn Cerddoriaeth ym Mangor; a Gerallt Jones, Rhos-lan, ar ennill gradd mewn cyfrifiadureg ym Mangor. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Priodas Aur: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Griffiths, Ivy Cottage, ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Diolch: Dymuna Gwenno Thomas, Stad Eryri, ddiolch i bawb, ac yn arbennig i athrawon yr Ysgol Sul, am eu dymuniadau da yn dilyn ei hymweliad â'r ysbyty rai wythnosau yn ôl.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Made to Measure

Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)
a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim
BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Cydymdeimlo: Brawychwyd ardal gyfan yn ddiweddar ym marwolaeth baban bychan blwydd a saith mis oed, Catrin Elidir, merch Jennifer a Robin Lloyd Davies, Bethel. Mae nain a thaid y ferch fach, Margaret a Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, a'i hen nain, sef Selina Morris, Gardd Bach, yn byw yn y Nant. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu i gyd yn eu profedigath.

Cydymdeimlwn hefyd â Glyn Price, Glyn Peris, a'r teulu wedi iddo golli ei fam yn Birmingham, yn ddiweddar.

Cynghorwyr: Fel sy'n wybyddus i bawb bellach, Dei Tomos, Ty'n Twll, ac Emlyn Baylis, Ty'n Llan, oedd y ddau a etholwyd i gynrychioli'r pentref ar y Cyngor Cymuned yn ddiweddar. Os bydd gan unrhyw un o bentrefwyr y Nant unrhyw broblem mae croeso i chwi gysylltu â Dei ar 871250 neu Emlyn ar 870284.

Llongyfarchiadau i Cheryl Jones a Steve Preston, 1 Bro Glyder, ar enedigaeth eu merch fach, Ariann, ar Fehefin 17.

Ymryson Cŵn Defaid: Fesul tri y digwyddodd llawer yn y Treialon, a gynhaliwyd ar Ŵyl y Banc mis Mai, fel yr hysbyswyd gan y 'Draenog' yn rhifyn diwetha o'r Eco.

Daeth William Arthur Williams, Bethel, i'r brig yn y gystadleuaeth leol gyda'i gi Moss — ci teircoes — a gipiodd tair cwpan. Yn yr un modd enillwyd tair gwobr gan Hugh Morgan, Bethel, ac ar y dydd Sadwrn fe gipiodd John Ryan Griffith dair gwobr yn y cystadlaethau agored. Ian Jones, Llanberis, oedd y cystadleuydd ieuengaf.

Dyma'r canlyniadau — Dosbarth Agored (Cwpan y Brodyr Morris): Hefin Jones, Rhydymain, gyda Meg. Ail Ddosbarth (Cwpan Wavell Roberts): Elwyn Griffith, Waunfawr, gyda Nell. Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau, lleol, yn y dosbarthiadau agored/ail ddosbarth): Hugh Morgan, Bethel. Dosbarthiadau Lleol (Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa a Chwpan Gwesty Dolbadarn): William Arthur Williams, Bethel gyda Moss. Cwpan Llwyncoed (gorau lleol dan 21 oed): Ian Jones, Llanberis, gyda Mot. Cwpan R. Williams, Mynytho (gorau lleol dan 25 oed): Steven Williams, Bethel, gyda Pero. Tlws Cwmni Tithebarn (gorau lleol dros 50 oed): William Arthur Williams, Bethel. Cwpan Rhedwyr Eryri: Medwyn Evans, Llanfachreth.

Enillwyr y raffl oedd — 1, Neville Owen, Waunfawr; 2, Alwena, Farmers Supplies; 3, 880406; 4, Nia Thomas 872345; 5, (01286) 870201; 6, Nicole, Ysgol Castell Alun; 7, Sarah Jones, Cyngor Sir Gwynedd, Llandegai; 8, 872034; 9, Gareth, d/o Tafarn y Newborough; 10, 871215; 11, Len, Lindale, Llanrug; 12, R.L.O. d/o Tŷ Isaf, Nant Peris; 13, Gwyneth Evans; 14, 871240; 15, J. Allsup; 16, Les; 17, Mona; 18, Helen Courtney; 19, Carys Limerick; 20, E. W. Baldwin.

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Diolch: Dymuna'r Cynghorydd Noel Davies ddiolch o galon am y gefnogaeth a gafodd yn Etholiad y Cyngor Unedol newydd yn ddiweddar. Mae'n addo parhau i wneud ei orau i wasanaethu pobl Nant Peris fel eu cynghorydd.

Dosbarthwr: Gan fod Siop y Post wedi cau bu'n rhaid gwneud trefniadau newydd ar gyfer dosbarthu'r Eco yn y Nant. Erbyn hyn Elwyn Searell Jones sy'n dosbarthu'r Eco yn y pentref ac os gwyddoch am rywun sydd heb dderbyn copi byddai Elwyn yn falch o glywed ganddynt. Diolch i Elwyn am gynnig gwneud y gwaith ar ben bod yn ohebydd y pentref. —Gol.

Rhai o Enillwyr yr Ymryson Cŵn Defaid

Ian Jones, Llanberis

William Arthur Williams, Bethel

Steven Williams, Bethel

Hugh Morgan, Bethel

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Priodas: Ddydd Sadwrn, Mehefin 3ydd, yng Nghaerdydd, priodwyd Miss Heather Wyn Jones, Gors, â Dr Lionel Bloodworth, 3 Bryn y Môr, Y Felinheli. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu bywyd priodasol. Carai Lionel a Heather ddiolch yn fawr i berthnasau a ffrindiau am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Cymdeithas y Chwiorydd: Nos Iau, Mehefin 8fed, cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Verna Jones, Meillionen, gyda detholion pwrpasol yn ymwneud â Gŵyl y Pentecost. Croesawodd y llywydd y brodyr a oedd wedi ymuno â'r chwiorydd yn y cyfarfod ynghyd â'r gŵr gwadd, Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun. Mwynhaodd pawb ei draddodi difyr a hwyliog yn sôn am gefndir ei bryddestau ac yn arbennig Pryddest Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst a hefyd cael cyfle i weld y Goron a enillodd. Diolchwyd iddo gan Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed. Trefnwyd y baned gan Mrs Jennie A. Roberts, Mrs Ifanwy Jones a Mrs L. P. Roberts Williams, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 6ed, yng nghwmni Mr Norman Williams, Godre'r Coed. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y cyfarfod.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd trefn yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn yn ystod y Suliau nesaf:

Gorffennaf

9. Mr John McBryde, Porthaethwy (10).
16. Mr Ifan Jones, Bontnewydd (10)
23. Mr Dafydd Williams, Bethel (10)
30. Mr John H. Hughes, Llanberis (5.30)

Awst

6. Parchg John Owen, Bethesda (5.30)
20. Parchg Llew M. Jones, Pen-y-groes (10)
27. Parchg John Owen, Bethesda (5.30)

Medi

3. Mr R. Lloyd Jones, Bethel (5.30)

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur hefyd

★ **Dewis da o Lysiau Fferm.**

★ **Wyau *'Free Range'***

Ar agor saith diwrnod

870605

LLYSIAU AR GYFER PICLO

PENCAMPWR SNWCER

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â snwcer yn rhifyn diwethaf o'r Eco, a'r ateb oedd Geraint Jones, BBC (Bethel gynt). Yn ddiweddar roedd gêm griced Coleg y Normal yn erbyn cyn-fyfyrwyr ac roeddwn wedi dod o hyd i lun o Geraint yn nhîm y coleg ar ddiwedd y 50au ac fe anfonais y llun ato gan awgrymu y byddai ysgrif am 'Snwcer Bethel' yn dderbyniol iawn. Cafwyd ymateb cadarnhaol, a dyma erthygl Geraint:

Yn y YMCA ym Methel y dechreuais i chwara'. Ar wahân i'r capeli a'r eglwys dyna oedd canolfan y pentra' — i'r dynion. Dwi'n cofio'r trên chwaral yn cyrraedd tua 5.30 p.m. ac er fod y gweithwyr yn flinedig a llwglyd, roedd yn rhaid i amryw ohonyn nhw redeg i'r YM i roi eu henwau i lawr ar y lechen a sicrhau gêm yn fuan ar ôl swper chwaral.

Twm Post oedd y gofalwr pan ymunais i. Roedd rhaid i'r chwaraewyr ifanc adael yr adeilad am ddeg o'r gloch. Doedd dim gwahaniaeth o gwbwl os oedd ffrâm heb ei gorffen neu beidio — am ddeg o'r gloch deuai Twm i fyny'r grisiau a gweiddi, 'January, February, MARCH!' — a 'marchio' allan oedd raid.

Ma' rhai enwa yn dŵad yn ôl i mi rŵan — Wili Wyn, Gwilym Tomos, Owen Rees a llawer eraill yn cynnwys fy nhaid — Taid Tŷ Rhos. Dwi'n cofio'i weld o'n cael rhediad o 70. Ond y chwaraewr mwya naturiol oedd Owie Tan Ffordd. Mi chwaraeais i oria yn erbyn Owie, a dysgu llawer.

Roedd tîm eitha llwyddiannus yn y YM ar y pryd, ac er fod y byrdda heddiw wedi symud i'r Neuadd, dwi'n falch iawn fod y gêm yn dal yn fyw yn y pentra. Hwyrach y galwa' i heibio rywbryd, a dŵad ag lwan hefo mi — mae o'n chwaraewr proffesiynol ond yn 'i chael hi'n anodd iawn i neud 'i farc — hyd yma!

Hwyrach fod gen i ddau ddymuniad ar ôl. Y cynta fasa cael rhediad o gant — dwi wedi cael 88 ddwywaith a'r ola yn reit ddiweddar; a'r ail fuasai gweld Cymro Cymraeg yn dŵad yn Bencampwr y Byd. Dyna sialens i chwaraewyr ifanc Bethel. Mi ddechreuodd Davis, White a Hendry yn rhywle. Os am anelu i fod y gora mae'n rhaid wrth ymarfer cyson a dyfalbarhad — be amdani?

Mwy o Luniau o Noson Wobrwyo Clwb Bethel

Y tîm dan 13 oed a enillodd ail adran Cynghrair Gwyrfai.

Y tîm dan 9 oed.

Tri o Chwaraewyr y Flwyddyn

PYTIAU O YSGOL BRYNREFAIL

Bydd Iona Williams o Lanrug yn ymuno â charfan hoci o dan 16 oed gogledd Cymru. Mae hi hefyd wedi ei dewis i ymuno â sesiynnau ymarfer gyda thîm o dan 16 oed Cymru a gynhelir yn Aberystwyth yn ystod yr haf.

Ym myd athletau tîm bechgyn blwyddyn 8 sy'n denu'r sylw. Cynhaliwyd cystadleuaeth TSB i ysgolion Arfon yn ddiweddar ac yn dilyn eu llwyddiant yno fe fydd y tîm yn ymgiprys am dlws Gwynedd, a gynhelir ym Mae Colwyn yn y dyfodol agos.

Mae trac Treborth wedi ei gwblhau bellach a gobeithir y bydd nifer o'r fro yn manteisio ar yr adnoddau gwych yno.

LLWYDDIANT PENBONT

Enillwyr yr ail gynhrair pŵl.

Enillwyr y 3edd cynghrair pŵl.

Ail yn yr ail gynghrair dartiau i ferched.

★ Tacsi
★ Maes Awyr

CABS ERYRI

Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

CROESAIR GORFFENNAF



AR DRAWS

1. Mae nhw'n dweud nad ydi un Carlo yr un lliw â fy un i (5)
6. Gwalch ysglyfaethus (5)
9. Llwyn o bren a charreg? (7)
10. Enllib yr athro daearyddiaeth (5)
11. Strancio a gwrthod symud (5)
12. Mae seiat y merched yn rhoi cyfle iddynt ddangos eu llid (5)
13. Y rhan isaf un, o dreiglo 9 ar draws cyn drysu mwy arno (7)
15. Brecwast duw? (3)
17. *Gweler y nodiadau* (4)
18. Llwgrwobrwyo (6)
19. Tristwch (5)
20. Ymrwymiadau (6)
22. Yr hyn a deimlwn dros rhywun mewn 19 ar draws (4)
24. Pwrpas yr arwydd? (3)
25. Rhoi'r cledd yn ôl mewn lle saff (7)
26. Math o wreiddiau sy'n sail i ginio dydd Sul (5)
27. Offeiriad â gofal plwyf (5)
28. Ysbeiliwr a arferai dreulio ei amser ar ben y ffordd (5)
29. Brodorion o America neu o'r is-gyfandir (7)
30. Amcanu (5)
31. Mae'n anodd gweld pan fo sŵn y sais ym mhobman (5)

I LAWR

2. SATB, dau o bob un (6)
3. Adran o fioleg sy'n delio â chysylltiadau organebau a'u hamgylchedd (6)
4. Cyrraedd o ddau gyfeiriad (3)
5. Gweld adferiad yng nghymeriad Seimon Pedr, y disgybl (5)
6. Chwaraewr rygbi sy'n llai na'r gweddill? (7)
7. Ffrâm i gario arch arni (4)
8. Peth bach sy'n medru dweud yr amser (6)
12. Y trethi a delir am gael defnyddio'r Cob (5)
13. Y crëyr sy'n chwilio'r nant, yn ôl Eifion Wyn (5)
14. Rhan o'r corff neu o gymdeithas (5)
15. Bai mewn un yn achosi griddfan (5)
16. Cythruddo (5)
18. Clwyd-dŷ, er y gall fod mewn unrhyw Sir (5)
19. Hiraethu ar ôl colli rhywun, yn yr hen amser (7)
21. Noddi O.M. i greu meddyginiaeth (6)
22. Gwylio rhag i rhywun dorri'r streic (6)
23. Nit! gwendid rhannau ôl ŵyn (6)
25. Tasg, neu frwydr ers talwm (5)
26. Darn tenau o glai wedi ei grasu i gadw'r glaw allan (4)
28. Digofaint (3)

CROESAIR MEHEFIN

Bu gremlins y wasg wrth eu gwaith unwaith eto, gan lwyddo, nid yn unig i adael un cliw allan o groesair mis Mehefin, ond hefyd i ad-leoli un arall. Ni ymddangosodd y cliw i'r gair ECO yn 11 i lawr, a'r cliw i 13 i lawr a roddwyd yn ei le! I wneud pethau'n waeth fydd, roedd hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol â'r gair y gofynwyd i chwi lunio cliw ar ei gyfer, sef EOS.

Mi feddyliais pan ddaeth fy nghopi i o'r Eco i law na fyddai neb yn llwyddo i'w gwblhau'n llwyddiannus, ac mae fy edmygedd o'r dwsin a wnaeth hynny yn fawr. Llongyfarchiadau i chi, Jean Hughes-Jones, Pwllheli; Catherine Jones, Pwllheli; Mary Davies, Waunfawr; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Olwen Owen, Llanberis; Efled Evans, Llanllechid; Mrs G. Gill, Bangor; Dorothy Jones, Llanrug; Ceinwen Williams, Bethel; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Mair Ffoulkes, Penisarwaun, a Ceridwen Williams, Llanrug.

Ac am y cliw cryptig: Aeth nifer ohonoch ar ôl anagram o'r gair OES,



gyda'r goreuon gan Dorothy Jones 'Loes i golli un, a gadael y rhelyw i lunio cân' ac Olwen Owen 'Melys moes mwy, ond mae'r aderyn wedi colli ei ben'. Rhywbeth yn debyg gan Dilys A. Pritchard-Jones 'Os daw E' bydd canu yn y nefoedd'. Aeth Ceinwen Williams a Mary Davies ar ôl sgwâr yn Llundain ('The nightingale sang in Berkeley Square'), ac fe gyfeiriodd Jean Hughes Jones at Florence Nightingale. 'Noson yn y storm' y Sais oedd syniad Mrs Gill (night in gale).

Am ei bod hi wedi mynd i hwyl y dryswch a achoswyd gan y gremlins, ac wedi cysylltu dau air, sef ECO ac EOS yn 'Atgof carreg ateb o swyn hen oes gymysglyd', rwyf am roi £5 y mis hwn i **Mary Davies, Bryn, Eithin, Waenfawr.**

Wnewch chi lunio cliw i 17 ar draws y mis yma os gwelwch yn dda, a gyrru'r atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 31 Awst os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF

1. Sadwrn **LLANBERIS:** Trip yr Ysgol Sul i'r Rhyl.
PENISARWAUN: Trip yr Ysgol Sul i'r Rhyl.

2. Sul **YR ARDAL:** Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Bethel, Pen-y-groes, am 6 o'r gloch.

4. Mawrth **LLANBERIS:** Cyfeillach Capel Jerusalem am 2 o'r gloch.

6. Iau **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd. Sgwrs gan Mr Norman Williams.

9. Sul **LLANBERIS:** Noson o Gân dan nawdd y Carnifal, yng Nghapel Coch am 7.30 o'r gloch.

12. Mercher **LLANRUG:** Plaid Cymru. Cyfarfod Blynyddol am 7.30.
Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, am 7.30 o'r gloch.

15. Sadwrn **LLANBERIS:** Carnifal. Yr orymdaith yn cychwyn am 1 o'r gloch.

21. Gwener **CAEATHRO:** Helfa Drysor dan nawdd y Capel.

22. Sadwrn **BETHEL:** Carnifal.

28. Gwener **NANT PERIS:** Carnifal.

RHODDION

£10.00: Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon a'r Cylch.

£5.50: Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun.

£5.00: Teulu y ddiweddar Annie May Jones, 11 Bron Eryri Terrace, Rhosgadfan; Mr T. H. Jones, 6 'Rallt Goch, Llanberis; Ann a Rhiannon Pritchard, Madryn, Llanberis; Dr a Mrs Lionel Bloodworth, Y Felinheli; Douglas a Brian Price, 14 Hafod Oleu, Deiniolen; Alan a Helen, 15 Stryd Turner, Llanberis; Beryl a Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Teulu Ann Blodwen, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Miss Patricia Rainbow, Llanrug; Eifion Griffiths a'r teulu, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Jonathan Richardson, Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Megan Price Morris, Minffordd, Dinorwig; W. Jones, Y Dreflan, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Annie Parry, 14 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos, Llanrug; Mr a Mrs J. G. Jones, 12 Hafan Elan, Llanrug.

£3.00: Bessie Owen, 52 Maes Padarn, Llanberis; Linda a Gwyndaf, 5 Rhydfadog, Deiniolen.

£2.00: Dylan a Kathie Jones, 6 Cefn Elan, Llanrug; Terry a Ruth Evans, 87 Pentre Helen, Deiniolen; Barry a Buddug, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, Llanberis.

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/ffacs: 650291
Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

CHWARAEON

TYMOR I'W GOFIO

gan RICHARD LLOYD JONES

Fel y soniais mewn rhifyn diweddar fe roddir lle y mis hwn i fwrw golwg yn ôl ar dymor anhygoel Clwb Pêl-droed Deiniolen.

Wedi tri chwarter y tymor roedd dirgelwch mawr gan fod y tîm — a gynhwysai gymaint o chwaraewyr profiadol — am ddiweddu'r tymor yn waglaw. Yn sicr roedd y canlyniadau yn siomedig yn erbyn ambell dîm gwan. Roedd Tal-y-sarn yn mynd ymhell ar y blaen a gwelai rhai cefnogwyr lleol y ras am Gynghrair Sain yn ras un tîm.

Ond yna fe drodd y llanw! Yn y fan hyn, efallai, y mae cyfrinach llwyddiant Deiniolen. Mae gwythiennau y chwarelwr dygn yn dal i bwmpio yn y tîm ac mae'r elfen gymdeithasol yn bodoli. Ni dderbynnir methiant heb roi o'u gorau. Deillia hyn o bwyllgor gweithgar, rheolwr cadarn a theg, a chefnogwyr nad oes eu tebyg yn unman yng ngogledd Cymru. Mynna y dair elfen hyn lwyddiant. Yr oedd cipio Cwpan Iau y Gogledd yn gryn lwyddiant ond ennill y gynghrair yw'r nod. Fel y gŵyr pawb enillwyd y gynghrair o un pwynt a hynny ar ôl bod 10 pwynt ar ôl. Gellir dadalu mai Tal-y-sarn gollodd y gynghrair, ond nid yw hyn yn gwneud tegwch â pherfformiadau anhygoel Deiniolen yn ystod mis olaf o'r tymor.

Bu Deiniolen yn enwog fel tîm cwpan, ac unwaith eto fe ddaeth galw am y 'Braso'! Chwalwyd Nefyn i gipio Cwpan Wil Evans; ac yna Llanystumdwy i ennill Cwpan Alves. Roedd yna argoelion am y gamp lawn! Ni fyddai'n deg cymharu â thim anhygoel Llanbêr yn y 60au a wynebai yr un her gyda gêm dyngedfenol — a hanesyddol — yn erbyn Llanllechid yn eu hwynebu. Roedd gôl Roger Owen yn ddigon i Llechid; a lloriwyd Deiniolen gan Llanystymdwy o 2 gôl i 1. Yn ôl y rheolwr dyma'r perfformiad gwaelaf y tymor — os nad erioed — gan y bechgyn.

Beth, felly, am y dyfodol? Bydd dau dîm yn y pentref y tymor nesaf gyda'r prif dîm yng Nghyngrair Gwynedd a'r ail dîm yn yr ail adran Cynghrair Sain, y gobeithir ei sefydlu gan fod cryn alw gan glybiau newydd i ymuno. Rheolwr-chwaraewr yr ail dîm, mae'n siŵr, fydd Euryn Owen. Y mae cyfle gwirioneddol felly i chwaraewyr ifanc lleol fanteisio ar y sefyllfa i gynrychioli'r pentref. Rhoddir cwpan hardd i enillwyr ail adran y gynghrair gan Undeb y TGWU ac onid priodol fyddai i Alun Wyn — llais y chwarelwyr — fod y cadeirydd cyntaf i'w chodi.

Gyda dau dîm i'w cynnal fe gynyddir y costau ac felly bydd angen mwy o ddwylo o dan yr iau. Byddai'r pwyllgor presennol yn falch o dderbyn cefnogaeth unrhyw un.

Gan sôn am bwyllgor, mae'r rheolwr a'r chwaraewyr yn hynod o ddyledus i waith a chefnogaeth diflino y 'tîm wrth law' rhyfeddol sy'n bodoli yn Neiniolen. Fel yr enwog 'double-decker' mae gan rhain ddigon i fyny'r grisiau! Nid yn unig y mae Deiniolen yn gwybod sut i ennill ond mae nhw hefyd yn gwybod sut i ddathlu a chafwyd noson wobrwyo arbennig yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Dyfarnwyd tlysau ar ran y Clwb a dyma'r enillwyr — Chwaraewyr y Tymor (yn seiliedig ar farciau'r chwaraewyr ym mhob gêm): Terence Griffiths ac Alwyn Williams (cyfartal); Chwaraewyr y Tymor (wedi'i dewis gan y chwaraewyr): Terence Griffiths ac Alwyn Williams (cyfartal); Prif Chwaraewr (cefnogwyr): Arwel Hughes; Prif Sgoriwr y Tymor (ac hefyd prif sgoriwr y gynghrair): Gwyndaf Jones; Aelod y Flwyddyn: Alun Wyn.

Mae'r tlws olaf hwn yn golygu llawer. Nid ymhell iawn yn ôl deuai criw bach a'r tîm plant i lawr i gae Ysgol Brynrefail. Yna, yr un criw yn aml, yn marcio'r cae, codi'r rhwydi, trefnu'r siop, trefnu'r bws. Wedyn cafwyd cae iddynt eu hunain gan sefydlu 'Fortress Llanbabs'. Ydi, mae'r Clwb wedi gwrthod sefyll yn ei unfan ac wedi cerdded ar ôl bod yn cropian. Llongyfarchiadau. Ymlaen bo'r nod!

Terence Griffiths ac Alwyn Williams a ddewiswyd yn Chwaraewyr y Tymor gan weddill tîm Deiniolen.

CLWB PÊL-DROED BETHEL

Cynhaliwyd noson wobrwyo'r Clwb yng Nghlwb Criced Bangor yn ddiweddar. Cafodd y Clwb dymor llwyddiannus unwaith eto gyda dros 50 o fechgyn y pentref wedi ymaelodi.

I'r criw o dan 9 oed, oedd o dan ofal Hywel Hughes, chwaraewyd nifer o gêmau cyfeillgar yn erbyn timau lleol. Bydd hyn yn siŵr o fod yn brofiad gwerthfawr iddynt gogyfer gêmau'r gynghrair y tymor nesaf.

O dan 11 oed llwyddwyd i roddi dau dîm yng nghyngrair 7-bob-ochr Gwyrfai. Gofalwyd am y tîm A gan Sion Williams ac Alwynne Jones, ac o'r 24 o gêmau cynghrair a chwaraewyd collwyd 5 yn unig. Prif sgoriwr y tîm oedd Derfel Williams hefo 33 gôl, a dewiswyd Owain Sion Williams yn chwaraewr y flwyddyn. Hefyd, eleni, enillwyd Tlws Eco'r Wyddfa ac yng nghystadleuaeth 7-bob-ochr Bae Trearddur, ble roedd 18 o dimau yn cystadlu, collwyd yn y rownd derfynol o ddwy gôl i Langefni.

Aeth y tîm B, o dan ofal Wyn Williams a Dafydd Roberts, o nerth i nerth fel yr aeth y tymor ymlaen. Heb os nac onibai y gêmau gorau a chwaraewyd ganddynt oedd y ddwy 'derby' yn erbyn tîm A. Prif sgoriwr tîm B oedd Arfon Salisbury a dewiswyd James Nesfield fel chwaraewr y flwyddyn.

Ennill yr ail adran oedd hanes y tim dan 13 oed. O'r 14 gêm dim ond un a gollwyd ac fe sgoriwyd 76 o goliau. Llwyddwyd hefyd i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Chwarae Teg. prif sgoriwr y tymor, hefo 32 o goliau, oedd David peters gyda Paul Thomas yn chwaraewr y flwyddyn. Gofalwyd am y tîm gan Raymond Jons, Andy Clark a Dewi Rowlands.

Cyflwynwyd Tlws Coffa Elizabeth Jones am chwaraewr y chwaraewyr i Gethin Jones. Dangosodd Gethin sgiliau arbennig yn y gôl i'r tîm o dan 11 oed.

Diolch i bawb a gefnogodd y Clwb a phob llwyddiant y tymor nesaf.

Bydd cyfarfod cyhoeddus blynyddol yn cael ei gynnal yn Y Bedol am 8.30 o'r gloch nos lau, 20 Gorffennaf.

CRICED 'KWIK'

Y plant sy'n cael eu hyfforddi yn Ysgol Brynrefail.

Mae'r hyfforddi yn Ysgol Brynrefail wedi denu 17 o blant eleni. Ffurfiwyd tîm o 9 i gystadlu ym mhencampwriaeth Arfon a gynhaliwyd ar lain Clwb Bethesda. Gan iddynt orffen yn ail yn eu cynghrair roeddent yn symud ymlaen i gystadlu yn nhwrnameint Gwynedd ym Mhwllheli. Y mae yna ambell i dalent yno, gyda'r oedran yn amrywio o 7 i 11 oed. Os am fowliwr cyflym — Nia Williams o Lanrug yw'r un!

Gethin Jones, Chwaraewr y Chwaraewyr.

Mae mwy o luniau o'r Noson Wobrwyo Clwb Bethel ar dudalennau 16 a 18.

WYTHNOS GWEITHGAREDDAU BETHEL

PÊL-DROED

NOS LUN, 17 GORFFENNAF
am 6.15 o'r gloch

Oedrannau:
– 6 – 11 (Cynradd)
– 14 – 16 (Uwchradd)
16 + (Oedolion)

Tâl Ymaelodi: £3 y tîm

Ffurflenni i
RICHARD LLOYD JONES
5 Y DDÔL, BETHEL

erbyn
NOS IAU, 14 GORFFENNAF

Ni dderbynnir ffurflenni ar ôl y dyddiad hwn.